



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 30AIN TACHWEDD, 2017

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 22/11/17)

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Charles Wyn Jones
Peter Read
Gethin Glyn Williams

Aled Ll. Evans
Huw Gruffydd Wyn Jones
Paul John Rowlinson

Aled Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Cemlyn Rees Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Sedd Wag

Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017, fel rhai cywir.

5. TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS)

12 - 13

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant.

6. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

14 - 22

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Gweithgor ar 23 Hydref 2017.

7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 16/9/17 - 17/11/17

23 - 52

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

53 - 59

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2017/18.

9. CYLLIDEB REFENIW 2017/18 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

60 - 78

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

10. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER

79 - 84

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

11. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

85 - 108

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

12. ADOLYGU'R CYFANSODDIAD 109 - 118

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

13. ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD DEWISOL 119 - 128

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 28/9/17

Yn bresennol: Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Ll. Evans, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles Wyn Jones, Huw G. Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

Aelod Lleyg: Sharon Warnes

Erail a wahoddyd: Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid)

Hefyd yn Bresennol: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Peter Read a John Pughe Roberts.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at eitem 10 ar y rhaglen 'Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Dewisol'. Nododd bod nifer o aelodau wedi ymholi o ran yr angen i ddatgan buddiant personol yng nghyswllt yr eitem hon. Eglurodd nad oedd yr eitem yn cyffwrdd trethi busnesau masnachol, a bod yr adroddiad yn ymwneud â sefydlu gweithgor i adolygu rhyddhad elusennol yn gyffredinol ac ond petai trafodaeth am gategori penodol o gyrrff elusennol perthnasol iddynt y byddai gofyn ar yr aelodau i ddatgan buddiant.

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017, fel rhai cywir.

3. CYFRIFON TERFYNOL 2016/17

i) Datganiad o'r Cyfrifon

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiadau gan Deilotte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 13 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

a) Cyfrifon y Cyngor

Yn unol â'r drefn Archwilio Flynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Deilotte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte.

Adroddwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2016/17.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Nad oedd camddatganiadau heb eu cywiro i'w hadrodd;
- Bod un camddatganiad a gywirwyd i'w boddhad;
- Nid oedd unrhyw faterion oedd angen sylw wedi eu hamlygu gan y tîm archwilio yng nghyswllt y risgiau sylweddol a brofwyd;
- Cymeradwyo'r tîm cyfrifo am ansawdd y cyfrifon a diolch am eu cydweithrediad efo tîm archwilio Deloitte.

Nododd aelod ei fod yn falch o'r gymeradwyaeth a roddir i waith y tîm cyfrifo.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed darpariaeth drwg-ddyledion, nododd y Pennaeth Cyllid bod y cyfrifon yn dangos ciplun o'r sefyllfa ar ddiwrnod cau'r cyfrifon. Eglurodd bod tebygolrwydd is o gasglu dyledion hŷn a bod y Cyngor yn defnyddio canran cynyddol uwch o "golled" am ddyledion flynyddoedd blaenorol. Nododd bod y swyddogion yn cytuno efo argymhelliad yr archwiliwr, sef - "...bod y canrannau a ddefnyddir i gynhyrchu'r ddarpariaeth mân ddyledion yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ac y defnyddir dull o ddadansoddi cyfraddau casglu er mwyn llywio'r canrannau a bennir."

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte bod lefel darpariaeth drwg-ddyledion y Cyngor yn lled gyson efo cynghorau eraill.

b) Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd

Nododd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2016/17.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Yng nghyswllt camddatganiadau na gywirwyd, bod profion yr archwiliwr wedi dod i'r canfyddiad bod gorddatganiad barniadol ar yr eiddo a'r buddsoddiadau ecwiti preifat. Roedd yn fater o farn felly roeddent yn fodlon nad oedd yn cael ei gywiro;
- Nid oedd unrhyw argymhellion newydd yn deillio o waith archwilio ariannol 2016/17 a bod manylion o ran y gwaith dilynol ar argymhellion 2015/16 yn Atodiad 3 o'r adroddiad.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y Cyngor mewn sefyllfa dda ac yn cyflawni'r gofynion.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid ei werthfawrogiad o waith tîm archwilio Deloitte. Ychwanegodd ei fod yn falch bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau archwilio diamod a oedd yn adlewyrchu gwaith da'r swyddogion wrth baratoi'r cyfrifon. Nododd ei werthfawrogiad o'r gwaith.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliadau perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" ynghylch cyfrifon y Cyngor a chyfrifon y Gronfa Bensiwn a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

4. RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid nad oedd unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi â nhw mewn perygl a bod arian y Cyngor yn ddiogel. Amlygodd bod buddsoddiadau yn gallu amrywio a bod y Cyngor yn cloriannu o ran hyblygrwydd buddsoddi tymor byr a denu llog uwch wrth fuddsoddi am dymor hir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y lleihad o £2.2m ers 31 Mawrth 2017 mewn benthyciadau, nododd y Rheolwr Buddsoddi bod y lleihad oherwydd bod y Cyngor wedi addalu benthyciadau hanesyddol ac yn defnyddio'r llif arian parod, yn hytrach na benthycio yn unol â pholisi presennol y Cyngor i beidio benthycio mwy o arian.

Nododd y Pennaeth Cyllid y cynhelir cyfarfod briffio ar 24 Ionawr 2018 gan gwmni Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. Nodwyd byddai'n gyfle euraidd er mwyn trafod ac egluro Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2018/19.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed y symudiad o £3m i £1m ers 31 Mawrth 2018 mewn benthyciadau tymor byr ac ariannu tymor byr yn fewnol, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn obeithiol y gellir ariannu tymor byr yn fewnol. Eglurodd y byddai'r Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet Cyllid yn dod â Strategaeth Asedau gerbron y Pwyllgor, Y Cabinet ynghyd â'r Cyngor Llawn o ran Strategaeth Rheoli Asedau, fyddai'n adnabod anghenion benthycio yn y dyfodol. Nododd bod y symudiad yn dangos bod rhai benthyciadau tymor byr wedi dod i ddiwedd eu cyfnod.

Holodd aelod pwy oedd yn gyfrifol am osod y gyfradd o ran Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod y PWLB yn rhan o Lywodraeth San Steffan ond yn asiantaeth ar wahân. Ychwanegodd bod y Trysorlys yn ystyried rheolau mwy caeth oherwydd bod cynghorau yn Lloegr wedi masnacheiddio gan fenthycio ar draul y wlad, ond nid oedd y pŵer yma wedi ei ddatganoli i gynghorau Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed lefel benthycio y Cyngor, tynnodd y Pennaeth Cyllid sylw at y cyfyngiadau dyled gan egluro bod ganddo ef yr hawl i fuddsoddi i fyny at £180m yn ystod 2017/18 sef y ffin weithredol, gyda ffin awdurdodol o £190m lle'r oedd angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor. Eglurodd bod y Cyngor yn benthycio £109m ac yn hunan fenthycio £51m ar hyn o bryd, ac roedd yn ddewis strategol o ran pryd i fenthycio. Nododd byddai faint roedd y Cyngor angen ei fenthycio yn ddibynnol ar y Strategaeth Asedau.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod yng nghyswllt PFI (*Private Finance Initiative*), nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd yn annog PFI's am sawl rheswm, a bod costau ynghlwm os penderfynir eu diddymu. 'Roedd un prosiect hanesyddol wedi ei ariannu yn y modd hwn yng Ngwynedd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

5. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017 i ystyried archwiliad 'Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol' a dderbyniodd categori barn B ynghyd ag archwiliadau a dderbyniodd categori barn C, sef -

- a) Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)
- b) Gweithwyr Cefnogol (Oedolion).

Gwahoddwyd swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nododd aelodau'r Gweithgor eu pryder o ran y risg ariannol i'r Cyngor oherwydd y nifer o asesiadau DoLS oedd wedi ôl-gronni gyda'r gosb o beidio gweithredu ar asesiad DoLS fod gymaint â £1,000 fesul unigolyn yr wythnos.

Holodd aelod oes oedd rhaid i Wasanaethau Cymdeithasol gwblhau asesiadau DoLS ynteu oedd cyrff eraill yn gallu. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am gwblhau asesiadau DoLS, dim ond mewn achosion lle'r oedd unigolyn yn yr ysbyty roedd y Gwasanaeth Iechyd yn cwblhau asesiadau. Ychwanegodd bod y Cyngor yn cynnal hyfforddiant ar gyfer cartrefi preswyl preifat a bod hynny yn arwain at gynydd mewn nifer o gyfeiriadau am asesiadau DoLS.

Nododd aelod o'r Gweithgor bod y cyfarfod wedi bod yn agoriad llygad o ran y gwaith gydag asesiadau yn cael eu cwblhau tu allan i'r Sir pan fo preswlydd o Wynedd angen asesiad DoLS gan gynyddu amser y cymerir i gwblhau asesiad oherwydd yr angen i deithio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed capasiti yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gwblhau asesiadau DoLS, nododd y Rheolwr Archwilio bod dwy swydd wedi eu llenwi yn ddiweddar a bod cytundeb ar hyn o bryd lle mae disgwyliad i 25 Gweithiwr Cymdeithasol oedd efo'r achrediad *Best Interest Assessors (BIA)* i gwblhau un asesiad y mis. Ychwanegodd nad oedd llawer o'r Gweithwyr Cymdeithasol yn cyflawni un asesiad y mis.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod y maes hwn yn faes risg uchel a dylai'r Gweithgor, yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad, dderbyn diweddariad gan yr Uwch Reolwyr perthnasol o fewn 6 mis. Dylid rhoi rhybudd digonol hefyd i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant bod perfformiad yn erbyn y targed a roddwyd i Weithwyr Cymdeithasol gydag achrediad *BIA* wedi ei drafod ac ystyried gofyn i'r Pennaeth ddod gerbron.

Nododd aelod y dylai'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant ddod gerbron y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2017 gyda'r Gweithgor yn derbyn diweddariad gan yr Uwch Reolwyr perthnasol o fewn 6 mis.

PENDERFYNWYD:

- (i) derbyn yr adroddiad;**
- (ii) gwahodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2017 i drafod trefniadau DoLS;**
- (iii) bod y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn derbyn diweddariad gan yr Uwch Reolwyr perthnasol o fewn 6 mis ar drefniadau DoLS.**

6. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/7/17 – 15/9/17

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 10 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau.

Cyfeiriwyd at y gwaith dilyniant. Amlygwyd, yn ystod 2016/17, daethpwyd i gytundeb ar 205 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2018. Nodwyd bod gweithrediad derbyniol ar 26.83% o'r camau cytunedig. Adroddwyd bod cais am gynydd ar weithrediad 104 o gamau cytunedig wedi eu hanfon hyd yn hyn, a bod 86 wedi eu gweithredu yn dderbyniol, sef 82.5%. Eglurwyd bod trefniadau dilyn i fyny mewn lle os ni dderbynnir ymateb o ran gweithrediad ar y camau cytunedig.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

Hyfforddi Aelodau Newydd

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio bod rhaglen gynhwysfawr wedi ei lunio ar gyfer aelodau newydd gyda'r cyfle i aelodau gysylltu efo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i wneud cais am hyfforddiant ychwanegol.

Nododd aelod ei fod, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, wedi mynychu cyfarfod efo Cadeiryddion Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd ynghyd â Swyddogion arweiniol yn y maes lle'r oedd y Cyngor yn amlygu ei hun fel un o'r rhai gorau am drefniadau hyfforddi aelodau newydd. Cadarnhaodd bod cyfle i aelodau gysylltu efo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i wneud cais am hyfforddiant ychwanegol ac efallai'n fyddai'n fater a gellir ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o ran hyrwyddo'r cyfle.

Canolfan Hamdden Glan Wnion

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed pryder o ran ymwybyddiaeth staff o drefniadau Diogelu Plant ac Oedolion, nododd y Rheolwr Archwilio yn unol â chais gan y Grŵp Gweithredol Diogelu y cynhelir archwiliad ar ymwybyddiaeth gweithwyr maes o drefniadau diogelu. Eglurodd bod llawer o staff tu allan i'r prif swyddfeydd heb gyfeiriad e-bost a heb fynediad i fodiwlau dysgu ar-lein ac felly'n derbyn gwybodaeth gan eu rheolwr ac mewn cyfarfodydd ardal. Nododd mai trwy rannu pamffled a chynnal sgwrs gan drafod enghreifftiau efallai fyddai'r opsiwn gorau o ran gwella dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu.

Plas Maesincla

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod pam nad oedd yr archwiliad wedi derbyn categori barn C yn hytrach na B oherwydd bod materion pwysig yn cael eu hamlygu, nododd y Rheolwr Archwilio mai dyna'r farn a roddwyd gan yr archwiliwr a'i bod yn ei gefnogi. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod angen derbyn a pharchu barn yr archwiliwr ac fe all y Pwyllgor pe dymument ystyried yr archwiliad yn y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu roi sylw i'r archwiliad ar ôl i'r gwaith dilyniant cael ei gwblhau.

Nododd aelod bod y materion a nodir yn yr archwiliad hwn yn codi yn gyson mewn archwiliadau ar gartrefi preswyl gyda'r un problemau yn cael eu hamlygu.

Tynnodd aelod sylw bod nifer o faterion yn amlygu o ran hyfforddiant ac fe ddylai anghenion hyfforddiant gweithwyr fod yn rhan o'u hadolygiad blynyddol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio mai cyfrifoldeb Rheolwyr Cartrefi Preswyl oedd sicrhau bod eu staff wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol a bod cyfrifoldeb ar y Rheolwr Ardal i sicrhau bod cartrefi preswyl yn cydymffurfio â'r gofynion.

Cyfeiriodd aelod at y cam gweithredu 'Sicrhau bod ymarferion gwacau yn cael eu cynnal yn flynyddol', gan nodi y dylai ymarferiad gwacau gael ei gynnal cyn gynted â phosib ac yna parhau i gymryd lle yn flynyddol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio yn dilyn archwiliad y gosodir amserlen o ran gweithredu a bod gofyn i gynnal ymarferiad gwacau erbyn 1 Rhagfyr 2017 gan barhau wedyn yn flynyddol.

Nododd aelod bod archwiliadau yn rhywbeth positif a bod gwaith dilyniant yn holl bwysig i sicrhau bod y camau gweithredu cytunedig yn cael eu gweithredu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed adroddiadau thematig, nododd y Rheolwr Archwilio bod yr Uned Archwilio Mewnol yn y gorffennol wedi gwneud archwiliadau ar sail themâu ond rwan fe wneir archwiliad llawn o gartrefi preswyl mewn cylch tair flynyddol.

Ychwanegodd bod angen ystyried y defnydd gorau o adnoddau'r uned ond byddai'n gallu amlygu'r themâu i'r adran pe dymunir. Pwysleisiodd mai cyfrifoldeb Rheolwr Cofrestredig Cartref Preswyl oedd gweithredu.

Tynnodd aelod sylw bod archwiliad ar Gartref Preswyl Plas Hafan wedi derbyn categori barn A gan ddangos trefniadau rheoli a chynnal da a dylid eu lledaenu fel arfer da yn y cartrefi preswyl eraill.

Cafwyd trafodaeth o ran trefniadau i ddelio efo'r archwiliadau a dderbyniodd categori barn C ynghyd â'r themâu oedd yn amlygu'n gyson o archwiliadau ar Gartrefi Preswyl.

PENDERFYNWYD:

- (i) **derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2017 hyd at 15 Medi 2017 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;**
- (ii) **bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Dewi Wyn Roberts, Angela Russell a Cemlyn Williams ynghyd â Sharon Warnes i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C';**
- (iii) **bod yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant a Phennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn mynychu'r Gweithgor i ystyried y themâu a amlygwyd yn gyson o archwiliadau ar Gartrefi Preswyl gan wahodd y swyddogion perthnasol i'r cyfarfod;**
- (iv) **mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2017/18.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol hyd at 15 Medi 2017 wedi cwblhau 18.75% o'r cynllun, gyda 12 o'r 64 archwiliad yng nghynllun 2017/18 wedi eu rhyddhau yn derfynol a'i fod yn ddisgwyliedig y bydd y ganran yn cynyddu i 26.5% erbyn 30 Medi 2017. Tynnwyd sylw at yr addasiadau i'r Cynllun.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed capasiti staff yr Uned, nododd y Rheolwr Archwilio bod yr Uned efo capasiti llawn.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2017/18.

8. ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD DEWISOL

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yr adroddiad gan nodi bod Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn cynnwys darpariaeth ddewisol i awdurdodau bilio addasu ardrethi annomestig (heblaw am mewn achosion penodol megis eiddo awdurdod lleol), yn ychwanegol i'r rhyddhad mandadol a ganiateir trwy Adran 43. Nododd bod rhaid i'r Cyngor ystyried pob cais am ryddhad o'r fath yn ôl ei haeddiant, ond lluniwyd fframwaith polisi er mwyn rhoi arweiniad gwrthrychol wrth ystyried os am ganiatáu rhyddhad dewisol lle nad yw'r trethdalwr yn elusen neu Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC), neu er mwyn cynyddu'r rhyddhad oedd ar gael i elusen / CASC o'r 80% mandadol i hyd at 100%.

Nododd bod Polisi'r Cyngor ar gyfer caniatáu Rhyddhad Dewisol i Dalwyr Ardrethi Annomestig wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn, ac wedi derbyn mân addasiadau. Eglurodd ei fod felly'n amserol i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi Rhyddhad Dewisol nid yn unig er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas yn sgil newidiadau deddfwriaethol

ond hefyd i ystyried os oedd y rhyddhad roedd y Cyngor yn ei ganiatáu wedi ei anelu i'r manau cywir ac yn fforddiadwy yng ngŵydd yr angen parhaus i ddarganfod arbedion.

Nododd y gofynnir i'r Pwyllgor ystyried sefydlu Gweithgor i ymchwilio i Bolisi'r Cyngor ar ganiatáu rhyddhad dewisol, a chynnig arweiniad wrth lunio polisi newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran yr amserlen, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y rhagwelir cynnal 2 neu 3 gyfarfod o'r Gweithgor. Eglurodd mai'r Cabinet a fyddai'n mabwysiadu polisi newydd, ac anelir i gyflwyno'r polisi addasedig i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017.

PENDERFYNWYD:

- (i) Sefydlu Gweithgor i ymchwilio i Bolisi'r Cyngor ar ganiatáu rhyddhad dewisol;**
- (ii) Bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Aled Wyn Jones, Huw G. Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am a daeth i ben am 12.15pm

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 TACHWEDD 2017
TEITL	TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS)
AWDUR	ALED DAVIES, PENNAETH OEDOLION, IECHYD A LLESANT

- 1) Yng nghyfarfod y Gweithgor Gwella Rheolaethau a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017, trafodwyd materion yn codi o'r archwiliad a wnaed i drefniadau y Cyngor o ran Diogelu Rhag Colli Rhyddid (Deprivation of Liberty - DoLs). Tra yn nodi bod cryn ymdrech wedi ei wneud eisoes, mynegodd y Gweithgor eu hawydd i gryfhau trefniadau a rheolaeth mewnol a thrwy hynny i wella gallu'r Cyngor i ymateb i ofynion statudol a lleihau risgiau cyfreithiol ac ariannol i'r Awdurdod.
- 2) Nid bwriad yr adroddiad yma yw ail godi y materion a drafodwyd yn y Gweithgor ac sydd yn ymddangos yn y cofnodion, ond yn hytrach i gynnig eglurhad pellach ar ymrwymiad ehangach yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymateb i'r argymhellion.
- 3) Er bod yr Adran wedi neilltuo adnoddau presennol a gwneud defnydd o adnoddau newydd trwy'r broses bidio ar gyfer creu capasiti i ymdrin â materion DoLs, mae'r Gweithgor wedi nodi bod cyfraniad ehangach gwasanaethau yr Adran i ymdrin â'r llwyth gwaith o asesu ac adolygu achosion DoLs yn gwbl allweddol i'r rhaglen. Ym mis Medi nid oedd y Gweithgor yn argyhoeddedig bod yr elfen yma yn cael ei weithredu'n effeithiol.
- 4) Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cydnabod nad oedd y trefniadau ar gyfer yr elfen yma wedi eu cadarnhau ym mis Medi ond gellir cadarnhau bod camau wedi eu cymryd ers hynny i wella'r sefyllfa. Mae y flaenoriaeth a roddwyd i'r newidiadau yn y Gwasanaeth Pobl Hyn i drefniadau gweithio mewn 5 ardal wedi cyfrannu at arafwch yr Adran yn rhoi trefniadau cadarn yn ei lle.
- 5) Ar y 25ain o Hydref, cynhaliwyd trafodaeth gyda rheolwyr y gwasanaethau ynglŷn â rôl swyddogion 'Best Interest Assessors' (BIA) ac yn dilyn hyn mae'r trefniadau canlynol wedi eu gweithredu:-
 - Mae pob swyddog BIA yn cael eu rhyddhau am ddiwrnod pob mis i gynnal un asesiad.
 - Bydd yr arweinwyr ardal yn atgoffa bob swyddog BIA o'r disgwyliad yma ac i'w cefnogi trwy drefniadau goruchwyliaeth broffesiynol misol yr Adran.
 - Mae trefniadau wedi eu rhoi yn ei lle i gefnogi'r swyddog BIA oedd angen magu hyder o ran cwblhau asesiadau.

- Mae disgwyliadau clir wedi eu gosod o ran rôl yr arweinwyr ardal ac ymarferwyr arweiniol i sicrhau bod y rhaglen DoLs yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac amserol fel rhan annatod o waith y timau ardal.
- 6) Er bod 29 o staff yr Adran wedi cymhwyso fel swyddogion BIA, mae absenoldeb salwch tymor hir, cytundebau gwaith rhan amser, cyfnodau mamolaeth a phenodiadau i swyddi eraill yn golygu mai tua 20 o swyddogion sydd ar gael ar gyfer cyflawni'r gwaith yma. Fodd bynnag, mae'r Adran yn cydnabod bod y cyfraniad yma yn allweddol i waith DoLs a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'w hwyluso a'i gefnogi.
 - 7) Mae yn briodol hefyd i dynnu sylw at effaith posib blaenoriaethu y gwaith yma dros elfennau eraill o waith dydd i ddydd yr Adran.
 - 8) Gall ymrwymo swyddogion BIA i un asesiad y mis amharu ar allu'r timau ardal i ymateb yn amserol ac effeithiol i'r galw am wasanaethau o fewn yr ardaloedd hynny ac o bosib yn dylanwadu rhyw gymaint ar yr amserlen o integreiddio gwasanaethau gyda iechyd. Efallai bod y risg yma yn fwy yn yr ardaloedd hynny lle mae yn anodd recriwtio staff gofal wedi cymhwyso. Dim ond trwy weithredu'r drefn newydd y gellir rhoi maint i'r risg yma a hynny yn bennaf drwy gadw golwg os oes cynnydd yn ein rhestrau aros am wasanaethau yn yr ardaloedd.
 - 9) Yn ogystal, mae natur y gwaith yn golygu na all gweithwyr gynnal asesiad BIA ar achosion sydd yn gyfarwydd iddynt. O ganlyniad bydd rhaid iddynt gwblhau asesiadau ar achosion y tu allan i'w hardal waith arferol. Fel arfer maes asesiad yn cymryd 8 i 10 awr ac fe fydd yr angen i deithio ac ymgyfarwyddo ag achosion yn cynyddu y mewnbwn oriau yma.
 - 10) Gall yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gynnig sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y newidiadau yma yn cael eu gweithredu ac y bydd y sefyllfa o ran cynnal adolygiadau DoLs ac effaith posib ar wasanaethau ehangach yn cael eu monitro.
 - 11) Gyda'r trefniadau yma yn ei lle a'r mwyafrif o benodiadau yn yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi eu gwneud, bwriedir adrodd ar y cynnydd a wnaed i'r Gweithgor Rheolaethol ymhen 6 mis.

Eitem 6

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 TACHWEDD 2017
TEITL	ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU
PWRPAS YR ADRODDIAD	ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIUYD AR 23 HYDREF 2017
AWDUR	CYNGHORYDD JOHN BRYNMOR HUGHES
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 23 Hydref 2017 gydag Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cyngorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorwyr Angela Russell, Cemlyn Rees Williams a Dewi Wyn Roberts, Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio a Manon Beatson, Uwch Archwiliwr yn bresennol.

1.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

TEITL	ADRAN	BARN YR ARCHWILIAD
Tan y Marian	Oedolion, Iechyd a Llesiant	C
Plas Maesincla	Oedolion, Iechyd a Llesiant	B
Plas Ogwen	Oedolion, Iechyd a Llesiant	C
Cartrefi Preswyl – Cyffredinol	Oedolion, Iechyd a Llesiant	d/b

2.3 Mynychodd y swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau a bu'r canlynol yn bresennol drwy'r cyfarfod:

- Gareth Roberts – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
- Aled Davies – Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant
- Amanda Roberts – Rheolwr Plas Ogwen

2.4 Tan y Marian

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Cyhoeddwyd adroddiad, dyddiedig 30 Ionawr 2017, gan yr AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), yn nodi: "Ar y cyfan, canfuom fod pobl yn derbyn gwasanaeth da yng nghartref Tan y Marian, lle y mae ganddynt berthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn cael eu gofalu amdanynt mewn ffordd gyfeillgar, ymlaciedig." Er bod cwmpas yr archwiliad mewnol yn gorgyffwrdd ag arolygiad yr AGGCC, ni chwtogwyd ar y profion archwilio ond manteisiwyd ar y cyfle i wirio'r gweithrediadau yn erbyn yr argymhellion a gynigwyd gan yr AGGCC. Gweler isod y prif ddarganfyddiadau oedd yn deillio o'r archwiliad:

Mae'r 'Datganiad o Bwrpas' wedi ei gynnwys yn nogfen 'Canllaw i'r defnyddiwr Gwasanaeth' y Cartref. Gwiriwyd y datganiad er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cyd-fynd ag Atodiad 1 o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Gwelwyd bod y cynnwys yn briodol, ond nad oedd ambell wybodaeth yn gynwysedig, megis manylion ynglŷn â maint yr ystafelloedd - er y derbynnir nad yw hyn yn gwbl ymarferol, a bod y paragraff agoriadol (Nodau ac Amcanion) yn cyfeirio at 'henoed'.

Gwiriwyd Cynlluniau Gofal sampl o breswylwyr a gwelwyd eu bod yn gynhwysfawr iawn. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd yr arolygiadau cyfnodol (sef y nodiadau dyddiol, misol, 3 misol a 6 misol) yn gyfredol.

Nid oes cytundebau mewn lle rhwng y Cyngor a'r preswylwyr sydd wedi preswyllo yn y Cartref ers amser maith.

Mynegodd adroddiad AGGCC bod amllder sesiynau goruchwyllo yn ymddangos i fod yn anghyson, ac argymhellir y dylai gweithwyr gofal dderbyn goruchwyliaeth ffurfiol o leiaf unwaith bob deufis ac arfarniadau staff bob deuddeg mis. Wrth wirio cofnodion goruchwyliaeth sampl o weithwyr, gwelwyd nad oeddynt yn cael eu cynnal pob deufis, ond bod camau ar y gweill i fynd i'r afael â hyn.

Gwelwyd enghraifft o gamgymeriad ar gerdyn gwyliau un gweithiwr, ble nad oedd y cyfanswm gwyliau wedi ei gyfrifo yn gywir yn dilyn cais am wyliau. Nid oedd y camgymeriad wedi ei gywiro er bod dau achlysur diweddarach o gofnodi ar y cerdyn. Roedd y camgymeriad yn golygu fod gan y gweithiwr 10 awr yn ormod o wyliau.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Rheolwr a'r clerc, darganfuwyd y buasai'n fuddiol petai'r swyddogion yma yn cael mynediad darllen yn unig at y cyfriflyfr. Golyga hyn y bydd gan y cartref mynediad at eu cyllideb a manylion gwariant heb orfod dibynnu ar yr Uned Gyllid. Detholwyd sampl o 13 anfoneb ac ymddengys ar gyfer 5 ohonynt fod yr archeb wedi ei chodi yn dilyn derbyn yr anfoneb.

Detholwyd sampl o ffurflenni E11, sef 'Cofnod o Arian Preswlydd' ar gyfer 3 o'r Preswylwyr. Gwelwyd nad oedd yna dyst wedi arwyddo'r E11 ar sawl achlysur ac nad oedd derbynebau ar gael i gefnogi'r holl wariant. Mae trefniant cofnodi arian preswylwyr yn destun archwiliad ar wahân yng Nghynllun Archwilio 2017/18 a bydd Archwilio Mewnol yn ail ymweld â threfniadau Tan y Marian maes o law.

Yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod drws y fynedfa a drws allanol o'r gegin a'r ystafell staff wedi eu dal ar agor ar fachyn. Trafodwyd y risg o gadw drysau yn agored gyda'r Rheolwr, nid yn unig i atal preswylwyr rhag ymadael, ond i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad. Credai'r Cartref bod angen symud i ffwrdd o systemau gwrth risg a bod hawliau'r unigolion yn goresgyn unrhyw risg dderbyniol. Mynegwyd nad oes achosion wedi bod o fynediad anawdurdodedig, na chwaith unrhyw breswlydd yn mynd ar goll.

Mynegir adroddiad AGGCC (30 Ionawr 2017): "gwelsom botel chwistrellu a oedd yn cynnwys diheintydd yn y ddwy ystafell ymolchi a oedd o fewn cyrraedd hawdd y preswylwyr. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn, a dywedodd y byddai'n eu rhoi dan glo." Ar ddiwrnod ymweliad Archwilio Mewnol, gwelwyd bod deunydd cemegol glanhau toiled o fewn cyrraedd hawdd y preswylwyr yn y toiledau. Gwelwyd fod cofnod anghyson yn cael ei gadw o dymheredd yr ystafell meddyginiaeth. Nid oedd y tymheredd wedi ei gofnodi am 5 o'r 22 diwrnod ym mis Mehefin hyd nes ymweliad Archwilio Mewnol. Gwelwyd ar adegau bod tymheredd yr ystafell yn gallu uchafu'r uchafswm ('yn gyffredinol') o 25 gradd sydd wedi ei nodi yn y Polisi.

- 2.4.2 Croesawyd Selwyn Lloyd Jones, Rheolwr Sirol Gwasanaeth Anabledau i'r cyfarfod yn absenoldeb Bethan Davies, Rheolwr Tan y Marian i drafod yr archwiliad.
- 2.4.3 Cyflwynwyd crynodeb o ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Mynegodd y Rheolwr Archwilio nad oedd cytundebau wedi eu sefydlu rhwng y Cyngor a'r preswylwyr serch y ffaith eu bod wedi preswylu yng nghartref Tan y Marian ers sawl blwyddyn.
- 2.4.4 Eglurodd y Rheolwr Archwilio nad oedd trefniadau goruchwyllo staff yn dderbyniol a'u bod yn cyferbynnu â'r safonau disgwylidig. O safbwynt arian preswylwyr a'r cofnodion perthnasol, eglurwyd bod diffygion wedi eu darganfod a bod archwiliad pwrpasol yn cael ei gynnal yn benodol ar gofnodion arian preswylwyr.
- 2.4.5 Mynegodd y Rheolwr Archwilio siomedigaeth bod cemegau wedi eu darganfod o fewn cyrraedd y preswylwyr ar ddiwrnod yr archwiliad serch y ffaith bod hyn wedi ei amlygu mewn adroddiad ar Tan y Marian a gyhoeddwyd gan AGGCC ym mis Ionawr 2017. Ymhellach, mynegodd nad oedd tymheredd yr ystafell feddyginiaeth yn cydymffurfio â gofynion a all fod yn risg i'r preswylwyr.
- 2.4.6 Mynegodd Aelod bryder ynglŷn â'r ffaith bod drysau'r cartref ar agor a bod Rheolwr Tan y Marian yn derbyn y risg yma. Cyfeiriodd y Rheolwr Sirol Gwasanaeth Anabledau at adroddiad "Alder" oedd yn honni bod Cyngor Gwynedd yn wrth-risg ac eglurodd bod y Cyngor yn ceisio symud i ffwrdd o gloi drysau yn y cartrefi gan nad yw'n rhoi awyrgylch gartrefol i'r preswylwyr. Cytunodd Y Rheolwr Archwilio gyda'r sylwad hyn ac ehangodd heb ddyfarniad DoLS, nid oes gan y Cyngor hawl i gadw unrhyw unigolyn dan glo. Cynigwyd gan Aelod y dylid llunio asesiad risg gan nad yw'n ymarferol cadw'r drws ar gau bob amser. Cytunodd y Rheolwr Sirol Gwasanaeth Anabledau y bydd yn trefnu i asesiad risg gael ei lunio a'i anfon at sylw'r Rheolwr Archwilio. Awgrymwyd gan Aelod y dylid ystyried creu polisi ond y gred gyffredinol oedd y buasai hyn yn gallu caethiwo rhai unigolion gan fod trefniadau yn amrywio o un cartref i'r llall.

2.4.7 Aethpwyd drwy'r camau cytunedig yn y cynllun gweithredu a gwelwyd bod camau positif wedi eu cymryd ers rhyddhau'r adroddiad terfynol megis archebu cabinet gyda glo i gadw cemegau. Eglurwyd hefyd bod y Rheolwr wedi sefydlu rhaglen goruchwyllo a'i bod yn bwriadu gwirio sampl o gynlluniau gofal yn gyfnodol i sicrhau eu cywirdeb a bod yr Uned Eiddo am roi gwyntyll yn yr ystafell feddyginiaeth gan nad oes ffenestr yn yr ystafell.

2.4.8 Diolchwyd i'r Rheolwr Sirol Gwasanaethau Anabledau am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd ar waith i liniaru'r risgiau a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad.

2.5 Plas Maesincla

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Mae naws gartrefol a chyfeillgar i'r cartref ac mae rheolaethau da yn bodoli ond mae angen tynhau ar y meysydd canlynol:

Nid yw pob Cynllun Defnyddiwr yn cael ei ddiweddarau'n fisol yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hyn, nodir, "mae cynllun defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei adolygu gan y staff gofal yn y cartref o leiaf unwaith y mis". Roedd y Rheolwr yn ymwybodol o hyn ac yn y broses o'u diweddarau yn dilyn cyfnod prysur yn y cartref.

Gwiriwyd cofnodion goruchwyllo sampl o staff a gwelwyd nad oedd pawb wedi cael eu goruchwyllo o fewn y deufis diwethaf yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol, "mae'r staff gofal yn cael goruchwyliaeth ffurfiol o leiaf pob deufis". Mae'r Rheolwr yn ei chael yn anodd goruchwyllo staff achlysurol sydd ond yn gweithio nifer fechan o ddyddiau'r wythnos.

Nid yw archebion yn cael eu llofnodi ar bob achlysur.

Nid yw anfonebau yn cael eu dyddio gyda'r stamp derbyn, sy'n ei gwneud yn anodd adnabod y pwynt treth ar gyfer cwblhau'r slip cyfeirebu TR252.

Mae hyd at £40 yn cael ei gadw mewn drôr heb glo yn y swyddfa. Mae bysellbad ar ddrws y swyddfa ond mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rhif. Trafodwyd hyn yn ystod yr ymweliad, roedd y Rheolwr â'r Clerc yn hapus gyda'r trefniant yma ac yn ymwybodol o ofynion yswiriant.

Nid oes ymarferiad gwacau wedi ei gynnal ers Chwefror 2015.

Gwiriwyd sampl o asesiadau risg generig y Cartref a gwelwyd nad oeddynt wedi cael eu hadolygu ers Chwefror 2016.

Wrth wirio taenlen hyfforddiant y Cartref gwelwyd nad oedd hyfforddiant Codi a Thrin a Diogelu Oedolion Bregus 8 aelod o staff yn gyfredol. Fodd bynnag, eglurwyd bod yr Hyfforddwr Codi a Thrin Pwysau wedi cadarnhau sawl sesiwn hyfforddiant ar gyfer y dyfodol agos. Cadarnhawyd fod llyfudd yn brin ar y cyrsiau Diogelu Oedolion Bregus ond bod y cartref wedi hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu o'r aelodau staff sydd angen hyfforddiant yn y maes.

Mae bysellbad ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth, fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod drws yr ystafell heb ei gau yn dynn. Hysbyswyd y Rheolwr o hyn a cafodd ei gau yn dynn ar unwaith.

- 2.5.2 Croesawyd Susan Thomas, Rheolwr Plas Maesincla a Gwen Hughes, Rheolwr Ardal Gogledd i'r cyfarfod.
- 2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio serch y ffaith bod yr adroddiad wedi derbyn barn "B", penderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 20217 oedd galw'r eitem i'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.
- 2.5.4 Amlinellodd y Rheolwr Archwilio brif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd yn cynnwys:
- Methiant i ddiweddarau cynlluniau defnyddwyr
 - Diffyg goruchwyllo
 - Ymarferion gwacau heb eu cynnal ers 2015
 - Aseidiadau risg generig heb eu hadolygu
 - Hyfforddiant sydd wedi dyddio
 - Drws yr ystafell feddyginiaeth heb ei gau yn dynn
- 2.5.5 Eglurodd y Rheolwr bod Plas Maesincla yn gartref dementia a bod darganfod amser i gynnal sesiynau goruchwyllo a hyfforddi staff yn gallu bod yn anodd a bod hyn yn broblem ar draws y Gwasanaeth. Eglurodd bod sesiynau hyfforddi yn llenwi yn gyflym neu yn dilyn trefnu'r hyfforddiant, gall yr aelod staff bod i fwrdd yn sâl neu fod eu hangen yn y cartref oherwydd bod niferoedd staff yn fyr.
- 2.5.6 Mynegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant bod goruchwyllo yn gallu digwydd mewn sawl ffordd ac nad yw'n ffurfiol bob amser, e.e. staff profiadol yn rhannu cyngor gyda staff newydd ac efallai ei bod yn wendid nad yw'r goruchwyllo anffurfiol hyn yn cael ei gofnodi. Dywedodd y Rheolwr ei bod yn rhaid tynnu staff oddi ar y tŷ i'w goruchwyllo sydd ddim yn ymarferol mewn adegau o brinder staff. Ategodd y Rheolwr Ardal Gogledd bod y Rheolwr wedi rhoi trefniadau mewn lle ble mae'r Rheolwr Cynorthwyol a'r Uwch Gymhorthydd Gofal yn cynorthwyo gyda goruchwyllo staff yn ffurfiol.
- 2.5.7 Ymholodd Aelod pwy oedd yn cynnal y sesiynau hyfforddi a pham na ellir cynnal mwy ohonynt. Atebodd y Rheolwr Ardal Gogledd eu bod yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ddatblygu modiwlau e-ddysgu fel y gellir gwneud yr hyfforddiant yn y man gwaith neu ar ddyfais symudol a fydd yn lleihau'r angen i ryddhau staff am y dydd.
- 2.5.8 Ymholwyd beth oedd y cynnydd a wnaethpwyd ers rhyddhau'r adroddiad terfynol. Derbyniwyd cadarnhad gan y Rheolwr a'r Rheolwr Ardal Gogledd fod pob gweithrediad cytunedig wedi derbyn sylw priodol a bod ymarferiad gwacau'r adeilad bellach wedi ei gynnal.

2.5.9 Diolchwyd i Reolwr Plas Maesincla a'r Rheolwr Ardal Gogledd am ddiweddarau'r Gweithgor am y datblygiadau ers pan ryddhawyd yr adroddiad archwilio a'r trefniadau sydd eisoes ar waith.

2.6 Plas Ogwen

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Mae naws gartrefol a chyfeillgar i'r cartref ac mae rheolaethau da yn bodoli ond mae angen tynhau ar y meysydd canlynol:

Nid oedd Datganiad o Ddiben y cartref yn gwbl gyfredol, ond cafwyd gwybod ei fod eisoes yn destun adolygiad pan gynhaliwyd yr archwiliad.

Nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol pob deufis, sydd yn ddisgwyliad a osodir yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cadarnhawyd ei bod yn anodd cael amser i oruchwyllo staff nos ac achlysurol.

Nid yw anfonebau yn cael eu dyddio gyda'r stamp derbyn ar bob achlysur. Golyga hyn ei bod yn anodd adnabod y pwynt treth sydd ei angen i gwblhau'r slip cyfeirebu TR252. Prynwyd stamp ar gyfer y gegin yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, ar gyfer dyddio'r anfonebau a dderbynnir yno.

Nid oedd y ffurflenni TR34 yn cael eu gwirio a'u hardystio gan ail swyddog.

Mae gan bob aelod o staff y cartref fynediad i'r sêff, fe drafodwyd hyn ymhellach gyda'r Rheolwr, ac roedd yn hapus gyda'r drefn.

Y Swyddog Mewn Gofal sydd yn gyfrifol am allweddi'r cartref gan gynnwys allweddi'r ystafell feddyginiaeth. Mae'r allweddi yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddog Mewn Gofal nesaf ar ddiwedd pob sifft. Mae disgwyliad eu bod yn cadw'r allweddi arnynt drwy gydol y sifft. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad, gwelwyd bod yr allweddi wedi eu cadw mewn drôr yn y swyddfa gan eu bod yn drwm i'w cario. Derbyniwyd tystiolaeth yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, fod y Rheolwr wedi archebu bratiau a chadwyni er mwyn hwyluso cario'r allweddi.

Yn dilyn ymddiswyddiad, mae angen Gweithiwr Allweddol newydd ar gyfer un o'r preswylwyr, gan nad oedd adolygiad asesiad risg wedi ei wneud ers dros chwe mis, ble dylid eu cwblhau yn fisol. Roedd y Rheolwr eisoes yn ymwybodol o hyn ac yn y broses o drefnu i gynnal asesiad newydd.

Nid yw asesiadau risg wedi bod yn cael eu hanfon gyda'r ffurflenni HS11 (Accidents and Incidents Report) wrth adrodd damweiniau. Cytunwyd y byddai hyn yn digwydd o hyn ymlaen.

Er bod copi cyfredol o Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion ar gael i staff, nid oedd tystiolaeth fod y gweithwyr wedi eu darllen. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, derbyniwyd tystiolaeth gan y Rheolwr yn cadarnhau fod pawb ond un aelod staff wedi darllen y Polisi erbyn hyn.

Wrth wirio taenlen hyfforddiant y cartref gwelwyd bod sawl aelod o staff heb dderbyn hyfforddiant 'Diogelu Oedolion Bregus' ers sawl blynedd, gydag un aelod o staff heb gael ers 2001. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Rheolwr bod hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer 9 aelod o staff o fewn y 4 mis nesaf.

Nid yw profion cymhwysedd meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n flynyddol, gyda llawer heb eu cwblhau ers 2013. Hefyd, nid yw'r cofnod o bwy sydd yn cael gweinyddu meddyginiaeth yn gyfredol, gan nad ydi un aelod o staff ar y rhestr yn gweithio i'r cartref bellach. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft cadarnhaodd y Rheolwr fod cofnod staff sydd yn cael darparu meddyginiaeth wedi ei ddiweddarau, ond ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny.

Er bod copi o'r Polisi Feddyginiaeth ar gael yn yr ystafell Feddyginiaeth ac yn y Swyddfa, mae tystiolaeth yn dangos mai'r Is-reolwr yn unig sydd wedi ei ddarllen ers 2016. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft derbyniwyd tystiolaeth gan y Rheolwr yn cadarnhau fod pob aelod staff erbyn hyn wedi darllen a deall y Polisi.

Gwiriwyd sampl o 5 ffurflen MAR (Medication Administration Record) a gwelwyd nad oedd dau aelod o staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi derbyn y feddyginiaeth ym mhob achos. Wrth wirio trefniadau dychwelyd/gwaredu meddyginiaeth gwelwyd 2 achos ble mai ond un aelod o staff oedd wedi arwyddo'r daflen 'Destroyed or Returned Medication' ble mae angen dau lofnod. Hysbyswyd yr Is-reolwr o'r diffygion yma yn ystod yr ymweliad, roedd yn ymwybodol o ofynion y Polisi. Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod wedi cynnal goruchwyliaeth gyda'r aelodau staff hyn yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, yn eu hatgoffa o'r pwysigrwydd fod dau aelod o staff gwahanol yn arwyddo wrth dderbyn a gwaredu meddyginiaeth. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny.

Mae gwaith wedi cychwyn ar gyfer cwblhau gofynion "The Quality Dashboard" yn dilyn Archwiliad gwael o Reoli Safle'r cartref. Hefyd, fe dderbyniwyd adroddiad negyddol yn ddiweddar yn dilyn archwiliad o fwydlenni'r cartref, cadarnhaodd y Rheolwr y bydd y rhain yn destun adolygiad yn y dyfodol agos.

2.6.2 Croesawyd Amanda Roberts, Rheolwr Plas Ogwen i'r cyfarfod.

2.6.3 Mynegodd y Rheolwr Archwilio mai'r un themâu sydd yn amlygu eu hunain dro ar ôl tro yn y cartrefi preswyl, ond oherwydd y gwendidau o safbwynt gweinyddu meddyginiaeth y derbyniodd Plas Ogwen farn "C". Amlinellodd y Rheolwr Archwilio bod y prif ddiffygion yn cynnwys:

- Diffyg goruchwyllo
- Pob aelod o staff gyda mynediad i'r saff
- Bod un preswilydd heb swyddog allweddol
- Methiant i anfon asesiadau risg gyda'r ffurflenni adrodd am ddamweiniau (HS11)
- Hyfforddiant wedi dyddio
- Staff heb dderbyn profion cymhwysedd meddyginiaeth yn flynyddol
- Cofnodion gweinyddu meddyginiaeth wedi dyddio
- Taflenni MAR heb eu harwyddo fel yr angen

2.6.4 Eglurodd y Rheolwr mai cartref preswyl yw Plas Ogwen ond bod gan rai o'r preswylwyr ddementia a phroblemau cyffelyb.

- 2.6.5 Eglurwyd i'r Rheolwr mai y pryder mwyaf oedd o safbwynt y trefniadau gyda meddyginiaeth. Eglurodd y Rheolwr eu bod bellach wedi gweithredu ar y camau cytunedig a bod trefniadau priodol ar y gweill. Mynegodd hefyd bod Plas Ogwen yn wynebu'r un problemau ag y mae Plas Maesincla o safbwynt hyfforddi staff ac ategwyd y gobeithir y bydd modiwlau e-ddysgu yn helpu'r sefyllfa.
- 2.6.5 Mynegodd Aelod bod yr adroddiad yn adnabod problemau sydd yn gallu cael eu datrys yn syth gan nad oeddynt yn ddwys.
- 2.6.6 Holodd Aelodau pam fod yr un problemau yn codi dro ar ôl tro ac a yw'r swyddogion o'r farn fod hyn yn dderbyniol. Mynegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant ei bod yn cymryd amser i roi trefniadau mewn lle a'u bod yn ymgeisio i finiogi ar y trefniadau, ac os yw pryder neu broblem yn codi fwy nag unwaith, yna bydd angen edrych ar yr achosion yn benodol.
- 2.6.7 Diolchwyd i Reolwr Plas Ogwen am fynychu'r cyfarfod a diweddarau'r Gweithgor am y camau sydd wedi eu cymryd yn dilyn rhyddhau'r adroddiad yn derfynol.**

2.7 Cartrefi Preswyl – Cyffredinol

- 2.7.1 Penderfynwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 "bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn mynychu'r Gweithgor i ystyried y themâu a amlygwyd yn gyson o archwiliadau ar Gartrefi Preswyl gan wahodd y swyddogion perthnasol i'r cyfarfod."
- 2.7.2 Ymunodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cyngorydd Richard Medwyn Hughes â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a chroesawyd Catherine Ellis, Rheolwr Ardal De i'r cyfarfod.
- 2.7.3 Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio ddogfen oedd yn amlygu'r risgiau a adnabwyd yng nghartrefi preswyl y Cyngor dros y tair blynedd ddiwethaf. Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y rhaglen waith wedi ei diwygio ers Ebrill 2016 fel bod mwy o bwyslais ar yr elfen gofal yn hytrach na threfniadau gweinyddol.
- 2.7.4 Gwelwyd yn gyffredinol bod gwendidau yn bodoli gyda meddyginiaeth. Eglurwyd i'r Gweithgor bod hyfforddiant meddyginiaeth wedi bod yn cael ei gynnal gan fferylllydd ond ei fod bellach wedi ymddeol ond bod y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi trefnu y bydd fferyllwyr eraill yn ymweld â'r cartrefi i gynnal yr hyfforddiant hanfodol yma.

- 2.7.5 Eglurodd y Rheolwyr Ardal fod gan Reolwyr y Cartrefi rota fel rheol yn nodi pryd y cynhelir sesiynau goruchwyllo ond bod materion yn codi ar y diwrnod fel na ellir cynnal goruchwyliaeth ffurfiol. Y prif faterion a all amharu ar y trefniadau yw salwch, sydd yn golygu yn absenoldeb y bydd yn rhaid i'r aelod staff fod ar lawr y tŷ. Mynegodd y Rheolwr Ardal bod y problemau yn bodoli wrth drefnu i ryddhau staff i fynychu hyfforddiant.
- 2.7.6 Gwnaethpwyd arsylwad gan Aelod bod Plas Hafan wedi derbyn categori barn "A" ac ymholwyd os oedd gwersi y gellid eu dysgu o gartref Plas Hafan er mwyn gwella perfformiad y cartrefi eraill. Mynegodd y Rheolwr Ardal Gogledd bod llawer yn ddibynnol ar y Rheolwr ac ymrwymiad y tîm. Eglurodd y Rheolwr Ardal bod absenoldebau salwch yn is ym Mhlas Hafan o gymharu â chartrefi eraill sydd yn golygu bod modd cynnal goruchwyliaeth a threfnu sesiynau hyfforddi.
- 2.7.7 Mynegodd y Rheolwyr Ardal mai diffyg gweinyddol yw'r risgiau sydd wedi eu hadnabod yn hytrach na diffyg mewn gofal. Ymatebodd y Rheolwr Archwilio bod diffyg trefniadau priodol mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth yn risg uchel a gall unrhyw fethiant fod yn drychinebus.
- 2.7.8 Eglurwyd i'r Gweithgor bod lefelau staffio'r cartrefi yn parhau'r un fath er bod anghenion y preswylwyr yn dwysau Eglurwyd bod arian grant wedi ei dderbyn a'u bod wedi prynu gwllâu arbennig a fyddai yn rhyddhau amser staff. Fodd bynnag, mynegwyd na fydd hyn yn datrys y broblem yn gyfan gwbl. Mynegwyd bod y Sector Breifat hefyd yn cystadlu am yr un staff sydd yn brin yn barod ac nad oedd cymaint yn ymgeisio am swyddi erbyn hyn. Hefyd, fe fydd yn ofynnol y bydd pob aelod o staff cartref preswyl i gofrestru gyda'r AGGCC a all arwain mewn gostyngiad pellach mewn lefelau staffio.
- 2.7.9 Mynegodd y Pennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant bod 7 allan o 11 o gartrefi Cyngor Gwynedd wedi derbyn sylwadau neu argymhellion gan AGGCC o safbwynt eu lefelau staffio. Mae 2 allan o'r 7 yn ddiffyg cydymffurfiaeth. Disgwylir y bydd 10 allan o 11 yn derbyn sylwadau am eu lefelau staffio – yr unig eithriad yw Plas Maesincla.
- 2.7.10 Cynnig y Gweithgor oedd bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn adrodd yn ôl i'r Gweithgor yn dilyn adolygiad o lefelau staffio'r cartrefi. Cafwyd trafodaeth ar hyfforddi staff newydd, a mynegodd y Rheolwr Archwilio y gall yr Adran fanteisio o'r Cynlluniau Prentisiaeth a gynigir gan Grŵp Llandrillo Menai.
- 2.7.11 Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r swyddogion am fynychu'r Gweithgor ac am drafodaeth agored a chynlluniau i wella.

Eitem 7

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 TACHWEDD 2017
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 17 TACHWEDD 2017
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 16 Medi 2017 hyd at 17 Tachwedd 2017.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 17 Tachwedd 2017:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	15
Archwiliadau Grant	1

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaaedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 17 Tachwedd 2017, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	BARN	ATODIAD
Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol – Defnydd o Sachau Coch a Llarpwyr	Corfforaethol	-	C	Atodiad 1
Gweinyddu Costau Teithio Hunanwasanaeth	Corfforaethol	-	B	Atodiad 2
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol – Cofnod o Arian Preswylwyr	Corfforaethol	-	B	Atodiad 3
Grant Gwisg Ysgol	Addysg	Adnoddau	B	Atodiad 4
Grant Amddifadedd Disgyblion	Addysg	Adnoddau	A	Atodiad 5
Grant Gwella Addysg	Addysg	Adnoddau	A	Atodiad 6
Iechyd a Diogelwch – Ysgol Bro Lleu	Addysg	Adnoddau	B	Atodiad 7
Iechyd a Diogelwch – Ysgol Pentreuchaf	Addysg	Adnoddau	B	Atodiad 8
Iechyd a Diogelwch – Ysgol Abercaseg	Addysg	Adnoddau	B	Atodiad 9
Iechyd a Diogelwch – Ysgol Dyffryn Ardudwy	Addysg	Adnoddau	C	Atodiad 10
Iechyd a Diogelwch – Ysgol O M Edwards	Addysg	Adnoddau	B	Atodiad 11
Iechyd a Diogelwch – Ysgol Llanystumdwy	Addysg	Adnoddau	B	Atodiad 12
Storiol - Ymweliad Dirybudd	Economi a Chymuned	Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau	B	Atodiad 13

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	BARN	ATODIAD
Pwll Nofio Bro Ffestiniog	Economi a Chymuned	Hamdden	B	Atodiad 14
Casglu Gwastraff Gardd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Rheoli Gwastraff a Strydoedd	B	Atodiad 15

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.3 Archwiliad Grant Cefnogi Pobl (Rhan2)

2.3.1 Derbyniodd Cyngor Gwynedd dros £5 miliwn o grant gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2016- 17 fel rhan o gynllun Cefnogi Pobl. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu dros 25 o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Mae dwy elfen yn berthnasol ag archwilio'r grant sef cwblhau tystysgrif archwilio ar ganlyniadau Ebrill 2016 hyd Rhagfyr 2016 erbyn 31 Mai 2017 ac yna tystysgrif archwilio ar wariant 2016-17 i'w gwblhau erbyn 30 Medi 2017. Cwblhawyd archwiliad ar y canlyniadau yn unol â'r amodau ac erbyn hyn mae'r mae'r gwaith ar rhan 2 wedi ei gwblhau a'r dystysgrif archwilio ar wariant hefyd wedi ei gyflwyno o fewn yr amserlen.

3. GWAITH DILYNIANT

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2016/17, fe ddaethpwyd i gytundeb ar 205 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2018. Erbyn hyn, yn hytrach na chynnal dilyniant at adroddiadau barn "C" yn unig, bydd pob cam a gytunwyd yn derbyn sylw trwy ofyn i'r uned/gwasanaeth /sefydliad anfon tystiolaeth i brofi gweithrediad. Ar 17 Tachwedd 2017, roedd gweithrediad derbyniol ar **46.34%** o'r camau cytunedig, h.y. 95 allan o 205. Hyd yma, dim ond ar gyfer 112 o weithrediadau cytunedig y gofynnwyd am ddiweddariad ac mae gweithrediad derbyniol ar 95 ohonynt, sef canran o **84.8%**.

4. GWAITH AR Y GWEILL

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 18 Tachwedd 2017.

- System Integredig Dysgu a Datblygu (*Corfforaethol*)
- Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
- Y Fenter Twyll Genedlaethol (*Corfforaethol*)
- Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Cynradd ac Uwchradd (*Addysg*)
- Ysgolion – Cyffredinol (*Addysg*)
- Manddaliadau (*Amgylchedd*)
- Cynlluniau Adeiladu Ysgolion – Ysgol Glancegin (*Amgylchedd*)
- Tocynnau Mantine Bws (*Amgylchedd*)
- Incwm Meysydd Parcio (*Amgylchedd*)
- Trefniadau Adennill Dyledion (*Cyllid*)
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Doc Fictoria (*Economi a Chymuned*)
- Grant Teuluoedd yn Gyntaf (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Grant Cynnig Gofal Plant (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Depos (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Targedau Ailgylchu (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Rhestr Aros Tai (*Tai*)
- Statws Cyflogaeth (YGC)

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 16 Medi 2017 hyd at 17 Tachwedd 2017, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

GWAREDU GWASTRAFF CYFRINACHOL - DEFNYDD O SACHAU COCH A LLARPIWYR CORFFORAETHOL

1. Cefndir

1.1 Yn hanesyddol, mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio gwasanaeth sachau coch Antur Waunfawr i waredu â gwastraff cyfrinachol. Yn ystod 2016, fe wnaeth y Tîm Rheoli Gwybodaeth gylchredeg neges i staff yn egluro'r bwriad i newid y drefn gwaredu gwastraff cyfrinachol, gan leihau'r defnydd o sachau coch a chynyddu'r defnydd a wneir o beiriannau llarpio. Mae'r Polisi Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol wedi'i ddiweddarau i egluro y dylid:

- Defnyddio peiriannau llarpio ar gyfer gwaredu gwastraff cyfrinachol achlysurol, nid sachau coch
- Defnyddio'r sachau coch ar gyfer gwaredu swmp o wybodaeth yn unig e.e. symud swyddfa, gwaredu blynyddol

1.2 Mae defnyddio peiriant llarpio yn golygu bod unrhyw wastraff cyfrinachol yn cael ei ddinistrio yn syth. Mae archwiliadau yn y gorffennol wedi adnabod bod rhai swyddfeydd yn cadw sachau coch hanner llawn yn agored a ddim o dan glo, yn ogystal ag enghreifftiau ble mae sachau coch llawn wedi eu selio ond heb eu gwaredu, a hynny am gyfnod annerbyniol o hir ar adegau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cydymffurfiaeth ag elfennau o'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ddaw i rym yn 2018). Roedd yr archwiliad yn ymchwilio i weld os yw defnydd y Cyngor o sachau coch wedi lleihau er mwyn lliniaru'r risg o unigolion anawdurdodedig yn cael mynediad i wybodaeth gyfrinachol, yn deillio o gadw dogfennau mewn sach agored sydd heb ei ddiogelu. Gwnaed hyn drwy wirio'r cyfriflyfr am gostau sachau coch yn ogystal â chynnal archwiliad gweledol o swyddfeydd am sachau coch agored.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwiriwyd y cyfriflyfr am daliadau i Antur Waunfawr ar y codau gwariant perthnasol. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd modd gwahaniaethu rhwng gwasanaeth casglu sachau coch a gwasanaethau eraill mewn ffordd ymarferol i'r ymarferiad yma, ond ymddengys bod gwariant ar y cyfan wedi cynyddu yn raddol. Mae hyn yn cyd-fynd â darganfyddiadau yr Uned Wybodaeth sydd o'r farn bod y defnydd o sachau coch wedi cynyddu yn raddol oherwydd symudiadau swyddfeydd diweddar. Er bod cynnydd yn y defnydd o sachau coch, mae eu defnydd ar gyfer symud swyddfeydd yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor.

3.2 Cynhaliwyd archwiliad gweledol o swyddfeydd Pencadlys a Phlas Llanwnda er mwyn adnabod sachau coch agored sydd ddim dan glo. Cynhaliwyd yr archwiliad yma wedi'r hwyr er mwyn adnabod ble cedwir y sachau dros nos. Gwelwyd fod y trefniadau yn briodol yn y rhan helaeth o swyddfeydd ymwelwyd â hwy, ond hefyd darganfuwyd enghreifftiau ble cedwir sachau coch yn agored a ddim dan glo. Ymddengys felly fod rhai swyddfeydd yn gweithredu yn groes i'r Polisi Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol. Drwy waredu â gwastraff cyfrinachol dydd i ddydd mewn sachau coch agored yn hytrach na'i llarpio, mae'r Cyngor yn cadw gwybodaeth heb fod angen, mewn sach coch amlwg sy'n datgan yn glir mai gwastraff cyfrinachol sydd o fewn. Dylid nodi nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw un o'r lleoliadau yma.

Barn yr Archwiliad

(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau gwaredu gwastraff cyfrinachol drwy sachau coch gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion/twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r Uned Wybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Cyflwyno darganfyddiadau'r adroddiad yma i'r Grwp 'Senior Information Risk Owner' er mwyn cynhyrchu rhaglen waith i leihau'r risg amlygwyd.

GWEINYDDU COSTAU TEITHIO HUNANWASANAETH CORFFORAETHOL

1. Cefndir

1.1 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn newydd ble gall gweithwyr sydd â chyfrif TG hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliath drwy system hunanwasanaeth. Fel rhan o'r drefn yma, cyflwynir manylion teithiau ar-lein ac nid oes angen awdurdodiad gan reolwr er mwyn i'r taliad gael ei brosesu, ond mae gan reolwyr y gallu i wrthod ceisiadau os ydynt o'r farn ei fod yn amhriodol neu anghywir. Bwriad y drefn newydd yw lleihau'r baich gweinyddol oedd ynghlwm â'r drefn flaenorol o gwblhau cais bapur oedd angen awdurdodiad rheolwr llinell, ei ardystio gan ddaliwr y gyllideb ac yna ei fewnbynnu gan swyddogion gweinyddol i'r system i gynhyrchu'r taliad.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod proses effeithlon ac effeithiol mewn lle ar gyfer hawlio costau teithio drwy'r system hunanwasanaeth, sy'n lleihau'r baich gweinyddol ac yn cadw risg o golled drwy gamgymeriad neu dwyll i lefelau priodol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu darganfod amllder cynnal gwiriadau gan reolwyr a pha adroddiadau eithriad a gynhyrchir, lefelau trothwy o fewn paramedrau'r system ynghyd â gwirio sampl o geisiadau costau teithio a gyflwynwyd.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae'r drefn o gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth yn lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Mae'r cyfrifoldeb o gynnal gwiriadau yn parhau gyda'r rheolwyr, felly mae'r risg o gamgymeriadau neu dwyll costus yn ddibynnol ar ba mor drylwyr mae'r rheolwyr yn gwirio ceisiadau. Yn yr ystyr yma, nid yw'r drefn wedi newid wrth gymharu â threfniant ceisiadau costau teithio papur, ond bod y drefn newydd yn ddibynnol ar ymrwymiad y rheolwyr i fewngofnodi i'r system Hunanwasanaeth yn fisol i gynnal y gwiriadau. Dylid nodi bod archwiliadau yn y gorffennol wedi darganfod bod y drefn flaenorol oedd yn cynnwys gwiriadau di-ri gan reolwyr heb atal rhai ceisiadau amhriodol rhag cael eu talu. Mae angen cyflawni'r balans cywir er mwyn cael system effeithlon ac effeithiol, ac ymhelaethir isod ar bwyntiau i'w hystyried.

3.1.1 Mae strwythur reolaethol y system hunanwasanaeth yn gysylltiedig â'r system swyddi. Hynny yw, gall ceisiadau swyddogion gael eu gwirio gan y rheolwr llinell sydd wedi ei ddynodi yn y system swyddi yn unig. Fodd bynnag, gwelwyd nad yw'r system swyddi yn gwbl gyfredol ym mhob achos ac felly nid yw rheolwyr yn gallu adolygu ceisiadau eu staff mewn rhai achosion.

3.1.2 Gwelwyd fod paramedrau wedi eu gosod o fewn y system i atal swyddogion rhag hawlio mwy nag uchafswm lwfansau cynhaliath, megis brecwast, swper, gwesty ayyb. Mae'r rheolau mewn perthynas â hawlio am yr uchod yn ymddangos wrth gwblhau y cais e.e. swper "yn daladwy os adra ar ôl 8:30 yr hwyr. Ni ellir hawlio te a swper". Fodd bynnag, ni all y system atal swyddogion rhag hawlio costau yn erbyn y penawdau anghywir er mwyn uchafu'r lwfans ac mae'n ddibynnol ar y rheolwyr i wirio am hyn.

- 3.1.3 Mae'r Gwasanaeth TG yn darparu rhestr o reolwyr sydd heb wirio costau teithio i'r Gwasanaeth Cefnogol, gyda'r bwriad i'r Gwasanaeth Cefnogol gysylltu gyda 10% o'r rheolwyr yma er mwyn holi pam nad ydynt yn cynnal y gwiriadau. Darganfuwyd mai'r atebion cyffredin yw bod y rheolwyr yn mynegi bod ganddynt ffydd a hyder bod eu gweithwyr yn gweithredu'n gywir. Mae'r system yn cynhyrchu e-byst i reolwyr sydd heb ymweld â'r system Hunanwasanaeth i wirio costau teithio yn nodi'r angen "*i chwi wirio costau teithio eich staff yn y system Hunan Wasanaeth cyn y dyddiad rhyddhau*" gan nodi'r dyddiad rhyddhau perthnasol. Yn ogystal, mae neges atgoffa yn ymddangos yn y system.
- 3.1.4 Derbyniwyd adroddiad gan y Gwasanaeth TG oedd yn rhestru'r holl geisiadau wnaethpwyd yn chwarteri 1 a 2 2017/18. Trafodwyd y ceisiadau mwyaf gyda'r Gwasanaeth Cefnogol a darganfuwyd camgymeriadau ble mae cais wedi ei wneud am 600 milltir am daith 60 milltir a chais arall am 360 milltir wedi ei wneud am daith o 36 milltir. Darganfuwyd y gordaliad o 540 milltir gan y swyddog a wnaeth y cais ar ôl derbyn y taliad ond ni ddarganfuwyd y gordaliad o 324 milltir hyd nes yr Archwiliad yma. Dengys felly bod camgymeriadau amlwg yn gallu disgyn drwy'r rhwyd petai rheolwyr ddim yn cynnal gwiriadau.
- 3.1.5 Ar y cyfan, mae'r nodiadau 'Pwrpas a lleoliad y daith' yn edrych yn ddigonol i reolwr allu gwneud penderfyniad os dylid gwrthod cais neu beidio. Mae hyn oherwydd buasai'r rheolwr yn adnabod gwaith y swyddog ac yn deall amgylchiadau'r daith. Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau o geisiadau cymharol fawr ar gyfer teithio i 'Meeting', 'Ymweliad', 'Arolwg Safle' sydd ddim o gymorth i swyddogion allanol sydd efallai eisieu defnyddio'r system er mwyn adnabod patrymau gyrru e.e. ymarferiad y Cyngor i brisio trefniadau ceir pŵl ar gyfer y Cyngor, neu petai'r Gwasanaeth Cefnogol neu Archwilio Mewnol angen gwirio cywirdeb ceisiadau.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddu costau teithio hunanwasanaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Atgyfnerthu'r angen i fanylu ar fanylion pob taith fel gall swyddogion sydd ddim yn gyfarwydd â'r gwasanaeth adnabod y daith a wnaethpwyd gan y swyddog.

**COFNOD O ARIAN PRESWYLWYR TAN Y MARIAN
(GWAITH ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDIGAETH RHAGWEITHIOL)**

1. Cefndir

- 1.1 Mae Cartref Tan y Marian, Pwllheli yn darparu gofal i hyd at naw o oedolion iau sydd ag anableddau dysgu. Derbyniwyd cais gan y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i gynnal archwiliad ar drefniadau gweinyddu arian personol preswylwyr Cartref Tan y Marian.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli a gweinyddu arian personol preswylwyr y cartref yn briodol, a gwnaethpwyd hynny drwy wirio cofnodion gwariant ac incwm personol o 2014 hyd at y presennol, ynghyd â gwirio bod derbynebaw neu dystiolaeth i gefnogi'r trafodion.
- 2.2 Cynhaliwyd archwiliad rhaglenedig ar gartref Tan y Marian, dyddiedig Awst 2017, fel rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2017/18. Roedd yr archwiliad yma yn cynnwys trefniadau rheoli a gweinyddu arian personol preswylwyr, ond ar sail sampl yn unig.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Derbyniwyd ffurflenni E11 (Cofnod o Arian Preswlydd) y preswylwyr am y cyfnod a fanylir yn y tabl isod.

Preswlydd	Cyfnod
CM	04/11/2015 – 20/02/2017
EDJ	07/07/2015 – 28/03/2017
ML	d/b
AVJ	22/02/2015 – 05/08/2017
LR	28/11/2014 – 10/08/2017
AR	11/10/2014 – 10/08/2017
CR	17/11/2014 – 10/08/2017
SC	02/10/2014 – 08/08/2017
ER	23/08/2014 – 10/08/2017

- 4.1 Yn ystod Archwiliad rhaglenedig Tan y Marian, detholwyd ar hap sampl o daflenni E11 rhai o'r preswylwyr ar ddiwrnod yr ymweliad. Un o'r preswylwyr yma oedd CM (ynghyd â EDJ a ML). Wrth archwilio'r cyfrifon ar y diwrnod, darganfuwyd nad oedd derbynebaw ar gyfer amryw o wariant yn ystod y cyfnod, heb ystyried y ffaith na welwyd taflen E11 am y cyfnod rhwng 13/02/16 a 17/06/16. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau pellach fel rhan o'r archwiliad hon, derbyniwyd y daflen E11 am y cyfnod yma, yn ogystal â'r nifer helaeth o dderbynebaw a oedd heb eu cynnwys yn y swp gwreiddiol. O ganlyniad dim ond mân daliadau a oedd heb dderbynebaw yn ogystal â thrafodion o 'Arian i'r Gwystl'.

- 4.2 Gwelwyd ar gyfer y preswylwyr eraill nad oedd derbynebau mewn rhai achosion ond mai mân daliadau roedd y rhain yn bennaf, megis ymweliadau â'r Gwystl ag archebion bwydydd fel 'Take Away'. Fodd bynnag, darganfuwyd ambell enghraifft ble nad oedd derbynneb ar gyfer costau sylweddol. Er enghraifft, nid oedd derbynebau cyflawn ar gyfer un pryniant swmpus ar gyfer 'dillad ayb' preswlydd EDJ am £307.75 (gwelwyd derbynebau am werth hyd at £66.65). Yn ogystal, ymysg y trafodion heb dderbynneb oedd archeb am £43.80 ar gyfer 'Dillad Gwlâu' i'r preswlydd SC.
- 4.3 Mae gan y preswlydd ML y gallu i ofalu am ei arian personol ei hun. Yn wahanol i'r preswylwyr eraill, mae'n cadw ei 'phwrs' ei hun, yn hytrach na mewn cabinet yn swyddfa'r Rheolwraig. O ganlyniad nid oes disgwylid i'r Cartref gadw derbynebau a chofnod cadarn o'i gwariant.

4. Barn yr Archwiliad

- (B) **Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth arian personol preswylwyr Cartref Tan y Marian gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau.**

Mae'r gwasanaeth bellach yn gweithredu trefniadau newydd a dengys y dystiolaeth ddiweddaraf o'r sampl bod y rheolaethau wedi tynhau a bod cofnod mwy cyflawn o'r gwariant.

**GRANT GWISG YSGOL
ADDYSG**

1. Cefndir

- 1.1 Mynegir mewn llythyr dyddiedig 25 Mai 2016 “Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Chynllun Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru” ei bod yn ofynnol “*i gyflwyno adroddiadau archwilio bob tair blynedd...Disgwylir i chi gyflwyno’r adroddiad archwilio nesaf ar 30 Medi 2017 sy’n cwmpasu’r grant ar gyfer y blynyddoedd 2014/15, 2015/16 a 2016/17.*”

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr hawliadau grant yn gyson ag amodau’r Llywodraeth a’u bod yn cael eu gweithredu’n briodol. Detholwyd sampl o daliadau grant a wnaethpwyd dros y tair blynedd a gwiriwyd bod y rhieni/gwarcheidwaid yn gymwys i’r taliadau. Hefyd, sicrhawyd bod y ffurflenni hawlio wedi eu cwblhau’n gywir ac wedi eu cyflwyno yn unol â’r proffil taliadau.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Darganfuwyd wrth wirio'r system budd-daliadau fod pob unigolyn oedd wedi derbyn lwfans grant gwisg ysgol yn gymwys i’w dderbyn a gwiriwyd bod tystiolaeth briodol yn bodoli i gefnogi’r cais, e.e. tystiolaeth o dderbyn lwfans cymorth a chyflogaeth, cymhorthdal incwm a.y.b. Gwelwyd hefyd bod gwybodaeth ddigonol ar wefan y Cyngor am ddarpariaeth Grant Gwisg Ysgol.
- 3.2 Gwelwyd bod y llythyrau o gynnig wedi eu dychwelyd o fewn yr amserlen ac wedi eu llofnodi gan swyddogion priodol.
- 3.3 Gwelwyd tystiolaeth i gadarnhau bod yr hawliadau gwirioneddol wedi eu cyflwyno yn unol â’r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, darganfuwyd yn sgil yr archwiliad bod y Cyngor wedi gor-hawlio £420.00 dros y tair blynedd. Diffinnir hyn fel digwyddiad hysbysadwy Atodlen 2 “*ein bod ni wedi gordalu cyllid i chi*”. Bu i’r Uwch Gyfrifydd gysylltu â swyddog o’r Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg, Llywodraeth Cymru i fynegi hynny. Derbyniwyd cyfarwyddyd i addasu’r cais ar gyfer 2017/18 i adlewyrchu’r gordaliadau. Bu i’r gordaliadau ddigwydd oherwydd ni roddwyd ystyriaeth i’r ad-daliadau a wnaethpwyd pan baratowyd yr hawliadau.

4. Barn yr Archwiliad

- (B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Grant Gwisg Ysgol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu’r canlynol i liniaru’r risg a amlygwyd:**

- Sicrhau bod unrhyw ad-daliadau yn cael eu hystyried pan gyflwynir ceisiadau.

GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION ADDYSG

1. Cefndir

- 1.1 Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Bwriedir iddo oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.
- 1.2 Caiff y grant ei ddirprwyo i'r Ysgolion / lleoliadau blynyddoedd cynnar gan eithrio'r elfen 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a gaiff ei rheoli yn rhanbarthol gan y Consortiwm Addysg Lleol, sef GwE. Mae GwE hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y GAD a'u cefnogi i'r perwyl hynny. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Arweiniol y GAD ar ran Awdurdodau Gogledd Cymru.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cadarnhau cywirdeb 'Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid', sef datganiad o wariant yr Awdurdod ar gyfer grant 2016/17, a chadarnhad bod systemau a rheolaethau mewnol yn eu lle i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol.
- 2.2 Gwnaed hyn drwy ddethol sampl o daliadau Cyngor Gwynedd a GwE ar ffurf anfonebau, siwrneli a chyflogau mewn perthynas â'r gwahanol elfennau o'r grant, gan sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y grant wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r GAD. Cysonwyd y gwariant gyda'r cyfriflyfr a dilynwyd sampl o gostau yn ôl i'w ffynonellau. Gwelwyd o'r sampl o wariant a archwiliwyd ar gyfer yr Uned Blynyddoedd Cynnar, yr Adran Addysg a GwE eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Yn ogystal roedd trefniadau priodol ar gyfer hawlio'r cyllid yn unol ag amodau a thelerau'r grant a gwelwyd bod y swm priodol o'r cyllid wedi ei ddyrannu i'r Awdurdodau a'i ddirprwyo'n uniongyrchol i Ysgolion Gwynedd. Fodd bynnag, gwelwyd bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.
 - 3.2.1 Mynega adran 1 o'r llythyr cynnig grant, dyddiedig 23/05/16, bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ragor o fanylion ac eglurhad pellach am rai agweddau o'r casis am grant er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro'r gwariant yn erbyn y cynllun cymorth. Yn ogystal, mynega Llywodraeth Cymru:

"Gan nad ydym wedi derbyn unrhyw gynigion ar sut mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei defnyddio, byddwn yn atal y rhan honno o'r grant nes ein bod yn fodlon bod cynlluniau cefnogi priodol yn eu lle."

 Derbyniwyd y cynllun diwygiedig ac e-bost, dyddiedig 04/10/2016, yn mynegi *"bod y wybodaeth ychwanegol bellach yn cwrdd â thelerau ac amodau'r grant"*.

- 3.2.2 Mae Atodlen 1 (Y Dibenion) o'r llythyr cynnig grant, dyddiedig 23/05/16, yn nodi:
"8. Byddwch yn sicrhau tryloywder yn nefnydd yr ysgolion, darparwyr y Cyfnod Sylfaen a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion o'r Grant drwy gadarnhau y bydd pob ysgol yn darparu ar gyfer rhieni a'r gymuned ehangach fanylion eu dyraniad, sut maent wedi'i ddefnyddio, faint maent wedi'i wario a'i effaith drwy gyhoeddi'r wybodaeth ar-lein. Lle nad oes gan ysgolion, darparwyr y Cyfnod Sylfaen ac Unedau Cyfeirio Disgyblion wefan, byddwch yn ei helpu i ddarparu'r wybodaeth drwy wefan eu hawdurdod lleol neu eu consortiwm, neu fel rhan o'r wybodaeth y bydd yr ysgol yn ei chyhoeddi ar ffurf copi caled."
- Detholwyd sampl o 12 Ysgol er mwyn gwirio bod manylion eu dyraniad GAD, fel y nodir uchod, ar eu gwefan neu ar wefan GwE. Gwelwyd enghreifftiau ar amser yr archwiliad ble nad oedd y wybodaeth ar wefan yr Ysgol, nac ychwaith ar wefan GwE (Ysgol Tryfan, y Gorlan, Ein Harglwyddes). Fodd bynnag, gwelwyd fod y wybodaeth yma bellach ar y wefan.
- 3.2.3 Gwelwyd na lofnodwyd y cais am daliad cyntaf y grant hyd 21/07/16, er bod Atodlen 3 (Proffil Taliadau) y llythyr cynnig yn nodi mai y dyddiad cau ar gyfer hawlio oedd 15/07/2016.

4. Barn yr Archwiliad

- (A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y Grant Amddifadedd Disgyblion gan fod rheolaethau mewn lle. Gellir datgan fod y manylion ar y Dystysgrif Archwilio yn gywir.**

GRANT GWELLA ADDYSG AR GYFER YSGOLION ADDYSG

1. Cefndir

1.1 Ar 1af Ebrill 2015 bu i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol mewn un prif grant, a elwir yn Grant Gwella Addysg (GGA):

- Cyfnod Sylfaen
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysu
- Cynorthwyywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
- Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5

1.2 Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2016-17 yn nodi bod disgwyliad isafswm o 80% o gyfanswm cyllid gros y grant yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod lletyol Grant Gwella Addysg, a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant am gefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu Grant Gwella Addysg 2016-17, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

2.2 Cadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a dilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd bod sail gadarn i'r ffigyrau a gofnodwyd ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir.

4. Barn yr Archwiliad

(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth y Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

IECHYD A DIOGELWCH – CYNRADD YSGOL BRO LLEU

1. Cefndir

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob ysgol o fewn yr awdurdod i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae dyletswydd benodol ar ysgolion i baratoi polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig.
- 1.2 Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dyletswyddau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, risgiau tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu gosod allan yn y Polisi Iechyd, Diogelwch & Lles Corfforaethol 2015, Polisi Diogelwch Tân & Cynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella gyda rhai dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod ar reolwyr safle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod rheolwyr safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.
- 2.2 Yn ystod yr archwiliad detholwyd sampl o Ysgolion Cynradd Gwynedd i'w harchwilio. Bu i'r Gwasanaeth Archwilio ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch a bod ymwybyddiaeth o ddyletswyddau. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio bod profion diogelwch tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd bod rheolaethau iechyd a diogelwch da yn bodoli yn Ysgol Bro Lleu ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol.
 - 3.1.1 Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddiffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddiffyg rheolaethol penodol Ysgol Bro Lleu. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma.
 - 3.1.2 Nid oedd asesiad risg ar gyfer coed ar y safle.
 - 3.1.3 Mae gan yr Ysgol Bolisi Diogelwch Tân ond nid oedd ganddynt gopi o Bolisi Diogelwch Tân Corfforaethol y Cyngor, anfonwyd copi ymlaen i sylw'r Pennaeth yn dilyn yr ymweliad.
 - 3.1.4 Roedd yn ymddangos mai ar ôl cyfnodau o wyliau mae'r tapiau a ddefnyddir yn anaml yn cael eu rhedeg yn hytrach nag yn wythnosol.
 - 3.1.5 Nid oedd y fersiynau cyfredol o Gynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella yn yr ysgol, felly anfonwyd copïau ymlaen at sylw'r Pennaeth yn dilyn yr ymweliad.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau iechyd a diogelwch Ysgol Bro Lleu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Pennaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Llunio asesiad risg ar gyfer 'Coed ar y safle'.
- Sefydlu trefn o redeg y tapiau a ddefnyddir yn anaml yn wythnosol.

**IECHYD A DIOGELWCH – CYNRADD
YSGOL PENTREUCHAF**

1. Cefndir

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob ysgol o fewn yr awdurdod i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae dyletswydd benodol ar ysgolion i baratoi polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig.
- 1.2 Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dyletswyddau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, risgiau tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu gosod allan yn y Polisi Iechyd, Diogelwch & Lles Corfforaethol 2015, Polisi Diogelwch Tân & Cynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella gyda rhai dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod ar reolwyr safle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod rheolwyr safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.
- 2.2 Yn ystod yr archwiliad detholwyd sampl o Ysgolion Cynradd Gwynedd i'w harchwilio. Bu i'r Gwasanaeth Archwilio ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch a bod ymwybyddiaeth o ddyletswyddau. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio bod profion diogelwch tân, asbestos a legionella yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod Ysgol Pentreuchaf yn cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.
 - 3.1.1 Nid oedd gan yr Ysgol gopi o Bolisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol (2015). Anfonwyd copi o'r polisi ymlaen at y Pennaeth yn dilyn yr ymweliad.
 - 3.1.2 Ni chynhaliwyd unrhyw brofion diogelwch tân ym mis Medi. Cadarnhaodd y Pennaeth mai'r Ofalwraig oedd yn gyfrifol am eu cynnal, ond ei bod yn newydd i'r swydd mis Medi eleni. Cysylltodd gyda'r Uned Datblygu ar gyfer trefnu hyfforddiant ar ei chyfer, ond cadarnhawyd nad oedd hyfforddiant o'r fath ar gael, ac mai dyletswydd y Pennaeth oedd ei hyfforddi. Gan nad oedd y Pennaeth ei hun wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gwblhau'r profion, roedd rhaid iddo yn gyntaf ymgyfarwyddo ei hun gyda'r prosesau, cyn mynd ati i hyfforddi'r Ofalwraig newydd. O'r herwydd, ni chynhaliwyd unrhyw brofion tan fis Hydref. Gwelwyd fod y profion yn cael eu cynnal yn rheolaidd o hynny ymlaen.
 - 3.1.3 Nid oes cofnod yn cael ei gadw o brofion llwybrau dianc. Cadarnhaodd y Pennaeth fod y rhain yn cael eu cynnal yn ddyddiol ond nad oeddynt yn cael eu cofnodi.
 - 3.1.4 Nid oes prawf legionella wedi ei gynnal ers mis Gorffennaf. Roedd y Pennaeth yn ymwybodol o hyn ac am drefnu i'r Ofalwraig newydd eu cynnal yn dilyn yr ymweliad.

- 3.1.5 Nid oedd llyfr HS11 yn yr ysgol ar gyfer adrodd ar ddamweiniau. Dywedodd y Pennaeth nad oedd wedi derbyn y llyfr, gan barhau i ddefnyddio'r hen ffurflenni. Cadarnhaodd y Swyddog Iechyd Diogelwch Ysgolion y byddai llyfr newydd yn cael ei anfon i'r ysgol yn syth.
- 3.1.6 Gwelwyd nad oedd pob damwain wedi ei gofnodi yn llyfr damweiniau difrifol yr ysgol i'w weld ar fasdata Iechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd y Pennaeth mai copïau yn unig oedd yn yr ysgol, gyda'r gwreiddiol yn cael eu hanfon i'r adran ar bob achlysur. Derbyniwyd cadarnhad gan yr adran Iechyd a Diogelwch bod ffurflenni HS11 electroneg yn cael eu treialu mewn rhai sefydliadu ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r risg o ffurflenni yn cael eu colli yn y post.
- 3.1.7 Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddiffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddiffyg rheolaethol penodol Ysgol Pentreuchaf. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Iechyd a Diogelwch yr ysgol, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Pennaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Pennaeth i atgoffa'r Ofalwraig o'r angen i gynnal a chofnodi profion llwybrau dianc a legionella yn wythnosol.
- Pennaeth i gyfarwyddo ei hun gyda'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a sicrhau bod staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol ohono ac yn cael cyfle i'w ddarllen.

**IECHYD A DIOGELWCH – CYNRADD
YSGOL ABERCASEG**

1. Cefndir

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob ysgol o fewn yr awdurdod i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae dyletswydd benodol ar ysgolion i baratoi polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig.
- 1.2 Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dyletswyddau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, risgiau tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu gosod allan yn y Polisi Iechyd, Diogelwch & Lles Corfforaethol 2015, Polisi Diogelwch Tân & Cynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella gyda rhai dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod ar reolwyr safle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod rheolwyr safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.
- 2.2 Yn ystod yr archwiliad detholwyd sampl o Ysgolion Cynradd Gwynedd i'w harchwilio. Bu i'r Gwasanaeth Archwilio ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch a bod ymwybyddiaeth o ddyletswyddau. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio bod profion diogelwch tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd bod trefniadau Iechyd a Diogelwch da yn bodoli yn Ysgol Abercaseg ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol.
 - 3.1.1 Mae gan yr Ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch, fe'i hadolygwyd diwethaf yng Ngorffennaf 2016. Gwelwyd bod angen diweddarau'r polisi i adlewyrchu'r newidiadau i'r Corff Llywodraethol gan fod unigolion ar yr Is-banel Adeiladau wedi newid ers yr adolygiad diwethaf.
 - 3.1.2 Nid oedd gan yr Ysgol gopi o Bolisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol (2015), anfonwyd copi o'r polisi ymlaen at y Pennaeth yn dilyn yr ymweliad. Yn dilyn rhyddhau'r adroddiad drafft, cafwyd cadarnhad gan y Pennaeth bod y Llywodraethwyr wedi derbyn y polisi.
 - 3.1.3 Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddiffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddiffyg rheolaethol penodol Ysgol Abercaseg. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma.
 - 3.1.4 Gwiriwyd sampl o asesiadau risg yr ysgol er mwyn sicrhau bod ganddynt asesiadau hanfodol/generig sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor a'u bod yn gyfredol. Eglurodd y Pennaeth bod ganddi drefn o wirio ac adolygu'r asesiadau risg gyda staff yr Ysgol a'u bod wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, wrth wirio sampl gwelwyd bod y 'Dyddiad i'w adolygu' wedi ei nodi fel 03/01/17 ar ddau o'r asesiadau sydd yn awgrymu nad oeddynt wedi cael eu hadolygu ers 2016.

- 3.1.5 Nid oedd asesiadau risg ar gyfer trefniadau cymorth cyntaf, coed ar y safle na'r maes parcio. Eglurodd y Pennaeth mai maes parcio ar gyfer staff ac ymwelwyr yn unig ydyw ac nad yw rhieni yn cael ei ddefnyddio. Anfonir llythyr i rieni yn flynyddol yn eu hysbysu i beidio dod ar yr iard gyda'u ceir/defnyddio'r maes parcio. Hefyd, mae staff yn ymwybodol os ydynt yn gweld rhiant ar yr iard/yn y maes parcio bod angen eu hysbysu i beidio ei ddefnyddio. Derbyniwyd cadarnhad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch Ysgolion bod angen asesiad risg ar gyfer y maes parcio gan fod risg sylweddol yn parhau i fod yno.
- 3.1.6 Nid oedd y fersiynau cyfredol o'r polisïau/canllawiau canlynol yn yr ysgol, felly anfonwyd y rhain ymlaen at sylw'r Pennaeth yn dilyn yr ymweliad: Cynllun Rheoli Asbestos a Pholisi Diogelwch Tân. Yn ogystal, anfonwyd rhestr o asesiadau risg hanfodol/generig fel bod modd i'r Pennaeth adnabod asesiadau risg eraill sydd eu hangen yn yr ysgol.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau iechyd a diogelwch Ysgol Abercaseg gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Pennaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Diweddarau'r Polisi Iechyd a Diogelwch i adlewyrchu'r newidiadau i'r Corff Llywodraethol / Is banel Adeiladau.
- Pennaeth i gyfarwyddo ei hun gyda'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a sicrhau bod staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol ohono ac yn cael cyfle i'w darllen.
- Adolygu asesiadau risg yn flynyddol.
- Llunio asesiadau risg ar gyfer:
 - (i) coed ar y safle;
 - (ii) maes parcio;
 - (iii) trefniadau cymorth cyntaf.

**IECHYD A DIOGELWCH – CYNRADD
YSGOL DYFFRYN ARDUDWY**

1. Cefndir

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob ysgol o fewn yr awdurdod i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae dyletswydd benodol ar ysgolion i baratoi polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig.
- 1.2 Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dyletswyddau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, risgiau tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu gosod allan yn y Polisi Iechyd, Diogelwch & Lles Corfforaethol 2015, Polisi Diogelwch Tân & Cynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella gyda rhai dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod ar reolwyr safle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod rheolwyr safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.
- 2.2 Yn ystod yr archwiliad detholwyd sampl o Ysgolion Cynradd Gwynedd i'w harchwilio. Bu i'r Gwasanaeth Archwilio ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch a bod ymwybyddiaeth o ddyletswyddau. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio bod profion diogelwch tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod trefniadau iechyd a diogelwch yn bodoli yn Ysgol Dyffryn Ardudwy, fodd bynnag, mae angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.
 - 3.1.1 Mae gan yr Ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, cedwir y polisi yn electroneg gan eu bod yn Ysgol werdd, sydd yn golygu nad oes gan staff fynediad ato.
 - 3.1.2 Nid oedd gan yr Ysgol gopi o Bolisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol (2015), anfonwyd copi o'r polisi cyfredol at sylw'r Pennaeth.
 - 3.1.3 Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddiffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddiffyg rheolaethol penodol Ysgol Dyffryn Ardudwy. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma.
 - 3.1.4 Gwiriwyd sampl o asesiadau risg yr ysgol er mwyn sicrhau bod ganddynt asesiadau hanfodol/generig sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor a'u bod yn gyfredol. Gwelwyd bod asesiadau mewn lle ar gyfer pob un o'r risgiau archwiliwyd ond nad oeddynt yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
 - 3.1.5 Mynegodd y Pennaeth bryder nad oedd yr Ofalwraig wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynglŷn â sut i gynnal y profion diogelwch tân cyn cychwyn yn ei swydd. Nodir, bod yr Ofalwraig nawr yn ymwybodol o sut i gynnal y profion.
 - 3.1.6 Nid oedd Asesiad Risg Tân yn yr ysgol, cafwyd copi ohono gan swyddog o'r Uned Eiddo yn dilyn yr ymweliad ac fe'i hanfonwyd ymlaen i'r Pennaeth.

- 3.1.7 Nid oedd gan yr Ysgol Gynllun Rheoli Tân, hysbyswyd y Pennaeth o'r angen i gwblhau'r cynllun gyda manylion yr ysgol ac anfonwyd templed cyfredol iddi yn dilyn yr ymweliad.
- 3.1.8 Nid oedd yr holl gyfarpar diogelwch tân wedi ei gofnodi yn y Llyfr Log Tân. Hysbyswyd y Pennaeth o'r angen i wneud hyn yn y Llyfr Log Tân cyfredol.
- 3.1.9 Gwiriwyd y profion diogelwch tân ar ddiwrnod yr ymweliad a gwelwyd nad oedd cofnodion bod profion llwybrau dianc wedi eu cynnal. Dywedodd y Pennaeth bod y llwybrau yn cael eu cadw'n glir ond ymddengys nad oedd prawf wythnosol yn cael ei gynnal. Yn ogystal, roedd y diffoddwyr tân yn cael eu profi yn fisol yn hytrach nag yn wythnosol. Nid oedd yr ysgol yn defnyddio Llyfr Log Tân cyfredol i gofnodi'r profion, hysbyswyd y Pennaeth ohono ac anfonwyd copi yn dilyn yr ymweliad.
- 3.1.10 Wrth wirio'r cofnodion 'Rhedeg Allfa Dŵr a Ddefnyddir yn Anaml' gwelwyd bod y prawf diwethaf wedi ei gynnal bythefnos a hanner yn ôl yn hytrach nag yn wythnosol.
- 3.1.11 Mae gan yr ysgol drefniadau mewn lle ar gyfer cofnodi damweiniau/anafiadau. Mae gan dri aelod o staff gymhwyster cymorth cyntaf ac maent yn hysbysu rhieni/gwarcheidwaid o ddigwyddiad. Ar gyfer damweiniau mwy difrifol i ddisgyblion mae'r ysgol yn defnyddio ffurflenni 'Adrodd am ddamwain neu ddigwyddiad sy'n achos i fân anafiadau difrifol i Ddisgybl' ac yn defnyddio'r llyfr HS11 (2004) ar gyfer staff i adrodd i'r Uned Iechyd a Diogelwch. Eglurwyd bod y ffurflenni yma wedi dyddio bellach a bod angen defnyddio'r 'Llyfr Cofnodi Damweiniau, Afiechyd, Digwyddiad Peryglus neu Ddigwyddiad Treisgar' HS11 (2014) i gofnodi unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau o hyn ymlaen. Roedd llyfr HS11 (2014) ynghyd â chanllawiau eisoes yn yr ysgol.
- 3.1.12 Nid oedd y fersiwn gyfredol o'r Cynllun Rheoli Asbestos yn yr ysgol, felly anfonwyd copi ohono yn dilyn yr ymweliad. Yn ogystal, anfonwyd rhestr asesiadau risg hanfodol/generig fel bod modd i'r Pennaeth adnabod asesiadau risg eraill sydd eu hangen eu cynnal yn yr ysgol.

4. Barn yr Archwiliad

(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau iechyd a diogelwch Ysgol Dyffryn Ardudwy gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae'r Pennaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau bod Polisi Iechyd a Diogelwch yr Ysgol ar gael i staff a'u bod yn ei ddarllen a'i ddeall.
- Pennaeth i gyfarwyddo ei hun gyda'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a sicrhau bod staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol ohono ac yn cael cyfle i'w darllen.
- Adolygu asesiadau risg yn flynyddol.
- Pennaeth i gyfarwyddo ei hun gyda'r Asesiad Risg Tân a'i roi yn y bocs glas.
- Pennaeth i gwblhau'r Cynllun Rheoli Tân a'i roi yn y bocs glas.
- Cofnodi lleoliadau'r cyfarpar diogelwch tân yn y Llyfr Log Tân cyfredol.
- Pennaeth i hysbysu'r Ofalwraig i gynnal a chofnodi profion diffoddwyr tân a llwybrau dianc yn wythnosol.
- Pennaeth i atgoffa'r Ofalwraig o'r angen i gynnal a chofnodi'r profion rhedeg tapiau dŵr yn wythnosol.
- Defnyddio'r 'Llyfr Cofnodi Damweiniau, Afiechyd, Digwyddiad Peryglus neu Ddigwyddiad Treisgar' HS11 (2014) o hyn ymlaen.

IECHYD A DIOGELWCH – CYNRADD YSGOL O M EDWARDS

1. Cefndir

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob ysgol o fewn yr awdurdod i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae dyletswydd benodol ar ysgolion i baratoi polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig.
- 1.2 Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dyletswyddau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, risgiau tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu gosod allan yn y Polisi Iechyd, Diogelwch & Lles Corfforaethol 2015, Polisi Diogelwch Tân & Cynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella gyda rhai dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod ar reolwyr safle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod rheolwyr safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.
- 2.2 Yn ystod yr archwiliad detholwyd sampl o Ysgolion Cynradd Gwynedd i'w harchwilio. Bu i'r Gwasanaeth Archwilio ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch a bod ymwybyddiaeth o ddyletswyddau. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio bod profion diogelwch tân, asbestos a legionella yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod Ysgol O M Edwards yn cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol i liniaru'r risgiau amlygwyd.
 - 3.1.1 Nid oes prawf llwybrau dianc wedi ei gynnal ers mis Mawrth 2017, ble mae disgwyl iddynt gael eu cynnal yn wythnosol. Cadarnhaodd y Pennaeth fod y llywodraethwyr wedi cytuno i brofi'r rhain yn fisol, ac mai'r ofalwraig sydd yn gyfrifol am eu cynnal. Dywedodd fod yr ofalwraig wedi eu profi yn fisol ers mis Mawrth, ond nad oedd hyn wedi ei gofnodi yn y Llyfr Log Tân. Ychwanegodd fod y llwybrau yn cael eu gwirio yn ddyddiol, gydag unrhyw rwystrau yn cael ei symud, o'r herwydd credir fod profion swyddogol misol yn dderbyniol. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddog Iechyd a Diogelwch Ysgolion ei fod yn hanfodol fod y rhain yn cael eu cynnal a'u profi'n wythnosol.
 - 3.1.2 Mae profion larymau tân yn cael eu cynnal yn fisol ble dylid eu cynnal yn wythnosol. Cadarnhaodd y Pennaeth ei bod wedi derbyn cyfarwyddyd gan Swyddog Tân y Sir ei fod yn ddigonol i brofi larymau tân ysgolion cynradd yn fisol. Fodd bynnag, cafwyd gwybod gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch Ysgolion ei fod yn hanfodol i rain cael eu profi a'u cofnodi'n wythnosol, yn unol â Deddf Tân 2005.
 - 3.1.3 Gwelwyd nad oedd pob damwain a gofnodwyd ar lyfr HS11 yr ysgol i'w weld ar fas-data Iechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd y Pennaeth mai copïau yn unig oedd yn yr ysgol, gyda'r gwreiddiol yn cael eu hanfon i'r adran o fewn 24 awr i'r digwyddiad ar bob achlysur. Derbyniwyd cadarnhad gan yr adran Iechyd a Diogelwch bod ffurflenni HS11 electroneg yn cael eu treialu mewn rhai sefydliadu ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r risg o ffurflenni yn cael eu colli yn y post.

3.1.4 Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddiffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddiffyg rheolaethol penodol Ysgol O M Edwards. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau iechyd a diogelwch Ysgol O M Edwards gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Pennaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Pennaeth i atgoffa'r Ofalwraig o'r angen i gynnal a chofnodi profion llwybrau dianc a larymau tân yn wythnosol.

IECHYD A DIOGELWCH – CYNRADD YSGOL LLANYSTUMDWY

1. Cefndir

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob ysgol o fewn yr awdurdod i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae dyletswydd benodol ar ysgolion i baratoi polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig.
- 1.2 Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dyletswyddau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, risgiau tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu gosod allan yn y Polisi Iechyd, Diogelwch & Lles Corfforaethol 2015, Polisi Diogelwch Tân & Cynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella gyda rhai dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod ar reolwyr safle.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod rheolwyr safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.
- 2.2 Yn ystod yr archwiliad detholwyd sampl o Ysgolion Cynradd Gwynedd i'w harchwilio. Bu i'r Gwasanaeth Archwilio ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Iechyd a Diogelwch a bod ymwybyddiaeth o ddyletswyddau. Roedd yr archwiliad yn cynnwys gwirio bod profion diogelwch tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod Ysgol Llanystumdwy yn cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.
 - 3.1.1 Mae gan yr Ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch, fe fabwysiadwyd y polisi yn 2011 ond nid yw'r polisi wedi cael ei hadolygu ers hynny. Roedd y Pennaeth yn ymwybodol o'r angen i adolygu'r polisi a dywedodd ei fod yn fwriad ei roi ar agenda cyfarfod y Corff Llywodraethol nesaf fydd yn cael ei gynnal ddiwedd y tymor.
 - 3.1.2 Nid oedd gan yr Ysgol gopi o'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol (2015), anfonwyd copi o'r polisi ymlaen at sylw'r Pennaeth yn dilyn yr ymweliad.
 - 3.1.3 Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddiffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddiffyg rheolaethol penodol Ysgol Llanystumdwy. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma.
 - 3.1.4 Gwiriwyd sampl o asesiadau risg yr ysgol er mwyn sicrhau bod ganddynt asesiadau hanfodol/generig sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor a'u bod yn gyfredol. Gwelwyd bod asesiadau mewn lle ar gyfer rhai o'r risgiau a'u bod yn gyfredol. Nododd y Pennaeth mai bob tair blynedd mae'r asesiadau yn cael eu hadolygu ond hysbyswyd bod angen eu hadolygu'n flynyddol.

- 3.1.5 Nid oedd asesiadau risg ar gyfer trefniadau cymorth cyntaf, coed ar y safle na'r maes parcio. Eglurodd y Pennaeth mai maes parcio ar gyfer staff yn unig ydyw, ac nad yw rhieni yn cael ei ddefnyddio ac ni chaiff disgyblion ei ddefnyddio i gael mynediad i'r safle. Derbyniwyd cadarnhad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch Ysgolion bod angen asesiad risg ar gyfer y maes parcio gan fod risg sylweddol yn parhau i fod yno. Yn ystod cyfnod ymgynghori'r adroddiad drafft derbyniwyd asesiadau risg ar gyfer y 3 maes yma sef, trefniadau cymorth cyntaf, maes parcio a choed ar y safle.
- 3.1.6 Roedd swyddog o gwmni 'Severn Trent' wedi ymweld â'r Ysgol fore'r ymweliad ond nid oeddynt wedi arwyddo i mewn ar y 'Cofnod Mewn/Allan Adeilad'. Hysbyswyd y Pennaeth o hyn, roedd yn ymwybodol o'r pwysigrwydd i gofnodi mewn/allan.
- 3.1.7 Nid oedd yr holl gyfarpar diogelwch tân wedi ei gofnodi yn y Llyfr Log Tân. Hysbyswyd y Pennaeth o'r angen i wneud hyn yn y Llyfr Log Tân cyfredol ym mocs glas yr Ysgol.
- 3.1.8 Gwiriwyd y profion diogelwch tân ar ddiwrnod yr ymweliad a gwelwyd nad oedd cofnodion bod y profion goleuadau argyfwng, diffoddwyr tân na llwybrau dianc wedi eu cynnal. Dywedodd y Pennaeth bod pawb yn ymwybodol o'r angen i gadw'r llwybrau dianc yn glir ond ymddengys nad oedd profion wythnosol yn cael eu cynnal. Yn ogystal, ni welwyd log bod y tapiau yn cael eu rhedeg, yr Ofalwraig sydd yn gyfrifol am wneud hyn ar ôl cyfnod o wyliau. Mae'r Pennaeth wedi llunio rhestr wirio ar gyfer yr Ofalwraig sydd yn cynnwys cynnal y profion diogelwch tân yma a rhedeg y tapiau ar ôl cyfnod o wyliau.
- 3.1.9 Mae gan yr ysgol drefniadau mewn lle ar gyfer cofnodi damweiniau/anafiadau. Mae gan ddau aelod o staff gymhwyster cymorth cyntaf ac maent yn hysbysu rhieni/gwarcheidwaid petai ddigwyddiad. Ar gyfer damweiniau mwy difrifol mae'r ysgol yn defnyddio ffurflenni 'Adrodd am ddamwain neu ddigwyddiad sy'n achos i fân anafiadau difrifol i Ddisgybl' neu lyfr HS11 (2004) i adrodd i'r Uned Iechyd a Diogelwch. Eglurwyd bod y ffurflenni yma wedi dyddio bellach a bod angen defnyddio'r 'Llyfr Cofnodi Damweiniau, Afiechyd, Digwyddiad Peryglus neu Ddigwyddiad Treisgar' HS11 (2014) i gofnodi unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau o hyn ymlaen. Roedd llyfr HS11 (2014) ynghyd a chanllawiau eisoes yn yr ysgol.
- 3.1.10 Nid oedd y fersiynau cyfredol o'r polisïau/canllawiau canlynol yn yr ysgol, felly anfonwyd y rhain ymlaen at sylw'r Pennaeth yn dilyn yr ymweliad: Cynllun Rheoli Asbestos a Chynllun Rheoli Legionella. Yn ogystal, anfonwyd rhestr asesiadau risg hanfodol/generig fel bod modd i'r Pennaeth adnabod asesiadau risg eraill sydd eu hangen yn yr ysgol.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau iechyd a diogelwch Ysgol Llanystumdwy gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Pennaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Adolygu Polisi Iechyd a Diogelwch yr Ysgol yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu.
- Pennaeth i gyfarwyddo ei hun gyda'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol a sicrhau bod staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol ohono ac yn cael cyfle i'w darllen.
- Cofnodi lleoliadau'r cyfarpar diogelwch tân yn y Llyfr Log Tân cyfredol.
- Defnyddio'r 'Llyfr Cofnodi Damweiniau, Afiechyd, Digwyddiad Peryglus neu Ddigwyddiad Treisgar' HS11 (2014) o hyn ymlaen.

**STORIEL, BANGOR – YMWELIAD DI-RYBUDD
ECONOMI A CHYMUNED**

1. Cefndir

1.1 STORIEL yw'r enw newydd ar amgueddfa ac Oriel Gwynedd. Ceir mynediad i gasgliadau Prifysgol Bangor, STORIEL a Phlas yr Esgob. Yn dilyn buddsoddiad diweddar mae nifer o gyfleusterau newydd ar gael yn STORIEL.

- Oriellau Celf ac Arddangosfeydd Amgueddfaol.
- Gofod Arddangosfeydd Cymunedol
- Siop a Caffi Seibiant
- Ystafell Ddysgu ac Ystafelloedd Cyfarfod i'w llogi.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal ymweliad dirybudd i gadarnhau bod yr arian yn y gofrestr arian yn cyd-fynd â'r swm a ddisgwyllir. Yn ychwanegol gwiriwyd fod yr artistiaid yn derbyn y swm cywir yn dilyn gwerthiant o'u nwyddau a bod y comisiwn o 30% ar bob gwerthiant sy'n ddyledus i'r Storiell wedi ei hawlio a'i gyfrifo yn gywir yng nghyfrifon y Cyngor. Ymwelwyd â'r STORIEL prynhawn yr 8fed o Dachwedd, 2017.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Darganfuwyd ar ddiwrnod yr archwiliad bod yna ormod o arian yn y gofrestr arian o £12.60. Mae'r swm hwn wedi ei gario drosodd gan y derbynnydd yn ddyddiol ers y 31/10/2017, yn dilyn iddi ddychwelyd i'w gwaith ar ôl cyfnod o salwch. Nid oedd esboniad pendant dros y camgymeriad yma. Mae'r drefn arferol yn gofyn i'r derbynnydd hysbysu'r Cydlynnydd Amgueddfa a Gwirfoddoli, ond yn yr achos hwn nid oedd y swyddog yn ymwybodol o'r gwahaniaeth. Cred y Cydlynnydd Amgueddfa a Gwirfoddoli mai'r tebygolrwydd oedd bod yr arian wedi ei gymryd gan y cwsmer, ond heb gael ei rhoi drwy'r gofrestr arian. Cadarnhaodd ei bod am geisio datrys y rheswm dros y gwahaniaeth drwy ymchwilio drwy'r cofnodion gwerthu (cofnod o bob gwerthiant sydd wedi ei nodi mewn dyddiadur wrth y dderbynfa).

3.2 Gwelir bod cofnod o bob gwerthiant i bob artist yn cael ei nodi ar daflen benodol yn STORIEL. Mae hwn yn cael ei anfon yn fisol i swyddogion yn yr Archifdy er mwyn gweithrediad h.y. i dalu'r swm cywir sy'n ddyladwy i'r artistiaid ac i'r Cyngor hawlio'r comisiwn o 30% yn gywir yn y cyfrifon. Gwelir bod yr incwm gwreiddiol yn cael ei dalu i god SD999 SD51 neu 81 (cod dal) yn y cyfrifon, ac yna mae addasiad misol i'w gofnodi yn y cod refeniw cywir. Gwiriwyd sampl o 17 a darganfuwyd bod yr artist wedi ei dalu yn gywir a bod y comisiwn 30% a'r TAW wedi ei gyfrifo yn gywir yn y cyfrifon.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y STORIEL, Bangor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Cydlynnydd Amgueddfa a Gwirfoddoli wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Ymchwilio i'r rheswm dros ormod o arian yn y gofrestr arian a gwneud yr addasiad cywir.

**PWLL NOFIO BRO FFESTINIOG
ECONOMI A CHYMUNED**

1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden a Phyllau Nofio Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Pwll Nofio er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.
- 2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o 4 Canolfan Hamdden neu Bwll Nofio gan ymweld â hwy yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol ym Mhwl Nofio Bro Ffestiniog, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.
- 3.1.1 Defnyddir y cyfrif gwarged/diffyg pan nad yw'r arian a gyflwynir i'r banc yn cysoni gyda'r darlleniadau'r til. Gwelwyd un enghraifft ble roedd gwahaniaeth sylweddol o £76 ar TR34cc (cardiau credyd), a bod hefyd defnydd anghywir o'r codau incwm. Ymddengys mai camgymeriad oedd hwn ond cytunodd yr Is-Reolwr y buasai'n fuddiol i drafod ac atgyfnerthu'r drefn gyda'r staff.
- 3.1.2 Mae cabinet dan glo yn y Dderbynfa yn cynnwys nifer o ddogfennau gweinyddol gwahanol. Fodd bynnag, dim ond yr Is-Reolwr Ardal ac un o'r Rheolwyr ar Ddyletswydd sydd gydag allwedd i'r cabinet, ond nid ydynt yn bresennol yn y Pwll pob dydd.
- 3.1.3 Mae'r Pwll Nofio yn rhedeg nifer o adroddiadau yn ddyddiol. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau POS, 'Cancelled', 'Refund' a 'Log in Log Out' oddi ar Gladstone ynghyd â'r taflenni bancio TR34, TR34cc a Ham 9.2/Ham9.3 am y diwrnod. Am y cyfnod a ddetholwyd yn y sampl, gwelwyd fod pob adroddiad ym mhob 'pecyn diwrnod' wedi eu llofnodi a'u dyddio. Gall rhedeg pob adroddiad yn ddyddiol fod yn waith gweinyddol diangen, ond hefyd gall fod yn gamarweiniol. Hynny yw, mae'r paramedrau caiff eu gosod i mewn i'r system wrth greu adroddiad yn gyfyngedig i'r diwrnod hwnnw, felly ni fydd unrhyw e.e. 'unpaid booking' o'r diwrnod yna yn ymddangos ar adroddiad y diwrnod canlynol, ac felly mae risg bod y ddyled yn cael ei anghofio. Fodd bynnag eglurodd yr Is-Reolwr fod adroddiadau misol hefyd yn cael eu creu er mwyn amlygu achosion perthnasol a chaiff y manylion eu rhannu gyda'r staff.
- 3.1.4 Detholwyd sampl o 3 anfoneb a godwyd gan y Pwll Nofio. Ymddengys bod un anfoneb wedi ei cham-godio (incwm o dros £2k wedi ei godio i'r Pwll Nofio yn hytrach na i god Canolfan Hamdden Glaslyn). Cytunwyd i symud yr arian yma i'r cod incwm cywir.

- 3.1.5 Eglurwyd bod pecynnau debydau uniongyrchol yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo cyn eu hanfon at y Swyddog Cefnogi Busnes. Fodd bynnag gwelwyd ffolder 'DD's Nofio' dan y ddesg yn y dderbynfa a oedd yn cynnwys copiâu o'r ffurflenni cais a manylion personol.
- 3.1.6 Yr unig stoc sydd ar werth yn y Pwll Nofio yw nwyddau nofio. Mae'r nwyddau ar wal yn y dderbynfa, ond oherwydd siâp yr ystafell, nid yw'n hawdd i staff sydd tu ôl y cownter i'w gweld. Archwiliwyd cofnodion stoc y nwyddau ond gwelwyd mai cofnodion y storfa yn unig a gaiff eu cadw, ble cofnodir faint o nwyddau a symud o'r storfa i'r dderbynfa, a faint sydd ar ôl yn y storfa. Nid oes cysoniad yn cael ei wneud rhwng adroddiadau incwm a stoc sydd yn y dderbynfa. Golyga hyn bod risg o golli nwyddau drwy ddwyn, ac nid oes modd hawdd o adnabod unrhyw golled o'r fath.
- 3.1.7 Nid oes cofnod yn cael ei gadw o unrhyw eitemau o Eiddo sydd yn werth llai na £100. Er hyn mae'r wybodaeth yn yr IMS yn gamarweiniol gan ei fod yn nodi mai cofnod o eitemau hyd at £100 sydd angen ei gadw.
- 3.1.8 Nid oedd cofnod o ymarferiadau gwacau'r adeilad yn y Bocs Glas yn ystod yr ymweliad. Eglurodd yr Is-Reolwr fod yr ymarferiadau yn cael eu cynnal ond heb eu cofnodi. Yn ogystal, nid yw'r goleuadau argyfwng wedi cael eu profi ers dros flwyddyn. Mae'r Is-Reolwr wedi codi pryder ynglŷn â'r goleuadau argyfwng a goleuadau'r pwll gyda'r Uned Eiddo ond heb dderbyn ymateb.
- 3.1.9 Yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod cemegau Polyaluminium Chloride (PAC) dros ben yn bresennol yn y storfa a bod angen trefnu i'w gwaredu neu eu trosglwyddo i Bwll Nofio arall.
- 3.1.10 Disgwylir i holl staff y Cyngor dderbyn y Polisi Diogelu Plant ac Oedolion yn y Ganolfan Bolisi, a chwblhau'r modiwlau 'Amddiffyn a Diogelu Plant', 'Diogelu Oedolion' ac 'Atal' ar y porth e-ddysgu. Mae'r modiwl 'Cam-drin Domestig' hefyd wedi'i ychwanegu yn ddiweddar i'r rhestr angenrheidiol. Derbyniwyd cofrestr o'r staff sydd wedi cwblhau'r modiwlau gan dîm Dysgu a Datblygu a gwelwyd nad yw'r holl staff sydd ar gytundeb wedi cwblhau'r modiwlau i gyd. Nid oedd poster Diogelu yn swyddfa'r Pwll Nofio, ond darparwyd un gan yr Archwilwyr ar ddiwrnod yr ymweliad.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ym Mhwll Nofio Bro Ffestiniog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Pwll Nofio wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Trafod y drefn gweinyddu incwm gyda staff y Pwll Nofio.
- Trosglwyddo incwm anfoneb D0025842 i god incwm Canolfan Hamdden Glaslyn.
- Cadw manylion debydau uniongyrchol o dan glo.
- Ymgorffori'r nwyddau sydd ar werth yn y dderbynfa yn y trefniadau cofnodi stoc.
- Addasu'r IMS i nodi bod angen cadw cofnod o unrhyw eitemau o eiddo dros £100.
- Cofnodi'r holl ymarferiadau gwacau'r adeilad, a'u cadw yn y bocsglas.
- Trefnu i waredu cemegau Polyaluminium Chloride (PAC) sydd dros ben yn y storfa neu eu trosglwyddo i Bwll Nofio arall.
- Arddangos poster diogelu a rannwyd ar ddiwrnod yr archwiliad.
- Trefnu i'r holl aelodau staff ar gytundeb i gwblhau hyfforddiant Diogelu Oedolion, Amddiffyn a Diogelu Plant, Atal a Cham-drin Domestig ar y porth e-ddysgu.

**CASGLU GWASTRAFF GARD
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

1. Cefndir

1.1 Yn unol â Strategaeth Wastraff 2010 - 2025 y Cyngor, adolygwyd trefniadau casglu gwastraff gardd y Cyngor er mwyn cyflawni arbedion o £750,000 yn y flwyddyn ariannol 2017/18, drwy gyflwyno ffi am y ddarpariaeth. Mae'r ffi o £33 yn daladwy ers Ionawr 2017 bellach, gyda 8,000 o gasgliadau yn cael eu cynnal yn wythnosol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle wrth reoli a gweinyddu gwasanaeth casglu gwastraff gardd y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ceisiadau am wasanaeth, trafodion ariannol, adroddiadau monitro targedau, yn ogystal â chofnodion hyfforddiant.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle ar gyfer rheoli a gweinyddu gwasanaeth casglu gwastraff gardd y Cyngor, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Mae diffyg cysondeb yn y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn wreiddiol, y bwriad oedd cynnig hyd at 3 bin brown i gwsmeriaid. Fodd bynnag, yn annisgwyl, bu i ddau gwsmer dalu am 4 bin, felly penderfynwyd addasu'r trefniadau gwreiddiol. Er bod sawl ffynhonnell wybodaeth wedi eu haddasu i adlewyrchu hyn, gwelwyd fod y 'Telerau ac Amodau' yn parhau i nodi 3 bin. Roedd y Gwasanaeth eisoes yn ymwybodol o hyn, ac yn y broses o'i gywiro.

3.1.2 Mae ffurflenni "Derbynebaw a Bancio" TR34 yn cael eu hanfon yn hwyr i'r Uned Incwm, yn bennaf o Siopau Gwynedd Dolgellau a Pwllheli. Gwelwyd 1 TR34 allan o sampl o 25 yn cymryd 26 diwrnod i gyrraedd. Er nad yw hyn yn amharu ar wasanaeth y cwsmer, (gan fod eu ceisiadau yn cael eu prosesu wrth dderbyn taliad), golygai fod yr incwm yn hwyr yn cyrraedd y cyfriflyfr. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru y bydd yn hysbysu Siopau Gwynedd i anfon y ffurflenni TR34 i'r Uned Incwm yn wythnosol o hyn ymlaen.

3.1.3 Darganfuwyd nad yw'r pris cywir yn cael ei godi ar gwsmeriaid ym mhob achos. Ar hyn o bryd nid yw CAPITA (system derbyn taliadau cerdyn debyd/credyd) wedi ei integreiddio gyda FFOS (system Priffyrdd). Er bod FFOS yn cadarnhau'r ffi sy'n daladwy wrth wneud cais, cyfrifoldeb yr aelodau staff yw mewnbynnu'r swm cywir yn CAPITA. Gwelwyd enghreifftiau ble roedd y ffi anghywir wedi ei fewnbynnu, yn arwain at golled ariannol i'r Cyngor. O ganlyniad, gwelwyd fod y ffigwr incwm a gynhyrchwyd gan FFOS yn wahanol i'r hyn sydd wedi cyrraedd y cyfriflyfr. Derbyniwyd cadarnhad fod y gwaith technoleg eisoes wedi ei wneud i integreiddio'r ddwy system, a bydd y datrysiaid yn cael ei ryddhau i'r system cyn bo hir.

3.1.4 Nid oes gwiriadau o lefelau stoc biniau brown yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Gwastraff a Chomisiynu fod y stoc wedi ei gyfrifo yn ddiweddar ar gyfer cynnal gwiriadau. Byddent yn cael eu cofnodi ar daenlen syml am y tro, ond gobeithir cydweithio gyda TG yn y dyfodol ar gyfer ceisio gwneud hyn drwy FFOS.

- 3.1.5 Ar hyn o bryd, nid oes ffi yn cael ei godi ar gwsmeriaid ble gellid profi eu bod wedi difrodi eu biniau drwy esgeulustod. Cadarnhaodd y bod y mater yma wedi ei gynnwys mewn adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau maes o law.
- 3.1.6 Nid yw'r aelodau staff yn arwyddo i ddatgan eu bod wedi darllen polisi'r Cyngor ar lwgrwobrwyo. Yn bresennol, yr Arweinyddion Tîm yn unig sydd yn derbyn y Polisi, gan gyfleu'r neges ar lafar i'r gweithlu. Mae bwriad gan y Gwasanaeth i lunio Polisi syml er mwyn ei gylchredeg i'r gweithlu.
- 3.1.7 Nid yw pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Codi a Thrin Pwysau. Gwelwyd fod hyfforddiant 37 aelod o staff wedi dod i ben. Fodd bynnag, derbyniwyd cadarnhad fod hyfforddiant wedi ei drefnu ar eu cyfer Tachwedd 2017.
- 3.1.8 Mae'n ofynnol i yrwyr gwblhau datganiad blynyddol sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â pholisïau a rheolaethau'r Cyngor, ond nid yw'r Gwasanaeth yn monitro pryd daw'r datganiadau i ben. Mae sawl datganiad wedi dod i ben oherwydd diffyg monitro. Derbyniwyd cadarnhad fod dyddiadau datganiadau blynyddol yn cael eu cofnodi ar system hunanwasanaeth Fflyd erbyn hyn, sydd yn darparu rhestr o'r gywyr a dyddiadau'r datganiadau blynyddol i'r Rheolwyr Ardal perthnasol ar gyfer eu monitro.
- 3.1.9 Nid yw pob cais am wasanaeth yn cael ei gwblhau o fewn y 5 diwrnod disgwylidig. Wrth wirio sampl o geisiadau, gwelwyd fod 1 wedi cymryd hyd at 35 diwrnod i'w brosesu. Mae ceisiadau yn cael eu labelu yn aflwyddiannus o bryd i'w gilydd oherwydd y rhwystr amser mae FFOS yn ei osod i wneud cais, sy'n golygu nad yw ceisiadau sydd yn cymryd hir i'w cwblhau yn cael eu hanfon i'r Tîm Gweinyddol yng Nghibyn ar gyfer eu prosesu. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i wirio'r ceisiadau newydd am y rhai aflwyddiannus, ond mae rhai yn disgyn drwy'r rhwyd. Gobeithid cyd-weithio gyda TG yn y dyfodol agos i drefnu fod FFOS yn anfon e-bost yn adnabod ceisiadau cyffelyb. Derbyniwyd cadarnhad fod y mater yma ar agenda'r Grŵp Prosiect ar ôl mis Tachwedd.
- 3.1.10 Mae'n ofynnol i yrwyr gwblhau 'taflen gwiriadau dyddiol cerbydau' cyn gyrru unrhyw gerbyd. Gwelwyd nad yw'r rhain yn cael eu cwblhau yn gywir yn ardal Meirionydd.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheoli a gweinyddu gwasanaeth casglu gwastraff gardd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Addasu'r Telerau ac Amodau er mwyn cadarnhau y gellid archebu hyd at 4 bin brown.
- Sicrhau fod Siopau Gwynedd Pwllheli a Dolgellau yn anfon ffurflenni "Derbynebau a Bancio" TR34 i'r Uned Incwm yn wythnosol.
- Parhau i weithio gyda TG ar gyfer cyfuno systemau FFOS a CAPITA fel nad oes angen mewnyddu'r ffi daladwy â llaw wrth dderbyn taliad.
- Cadarnhau fod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod unrhyw anghysondebau yn cael eu hymchwilio.
- Sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn arweiniad ar lwgrwobrwyo.
- Parhau i weithio gyda TG er mwyn cael FFOS i amlygu unrhyw geisiadau aflwyddiannus.
- Sicrhau fod y gwiriadau disgwylidig yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n gywir ar daflenni 'gwiriadau dyddiol cerbydau'.

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 TACHWEDD 2017
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

- 2.1 Mae Cynllun Archwilio 2017/18 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 17 Tachwedd 2017 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	16
Crëwyd Papurau Gwaith	6
Gwaith Maes ar y gweill	14
Cwblhawyd Gwaith Maes	0
Disgwyl Adolygiad	1
Adroddiad Drafft	0
Adroddiad Terfynol	28
Cyfanswm	65
Wedi eu canslo oherwydd lleihad mewn adnoddau	5
Archwiliadau wei eu casnlo i gyflawni eraill	1

- 2.2 Targed perfformiad 2017/18 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2018. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%

Diwedd chwarter 4 95%

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 17 Tachwedd 2017 oedd **43.07%** - allan o'r **65** archwiliad unigol yng nghynllun 2016/17 roedd **28** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Mae dyraniad dyddiau un o'r archwiliadau yn y cynllun gwreiddiol sef "Iechyd a Diogelwch – Cynradd" wedi ei neilltuo i chwe ysgol unigol.

- 3.2 Yn sgil absenoldeb un aelod o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol am chwe mis, mae yn anorod i ganslo archwiliadau sydd gyfwerth a 85 diwrnod gwaith. Gweler isod yr archwiliadau a ddetholwyd i beidio eu cynnal ynghyd â'r rhesymeg dros hynny:

- Cronfa'r Degwm (*Economi a Chymuned*) – 5 diwrnod. Nid yw incwm y Gronfa wedi cyrraedd y trothwy incwm ar gyfer cynnal archwiliad sef £25k.
- System Treth Cyngor "Advantage Digital Portal" (*Cyllid*) – 10 diwrnod. Mae'r prosiect yma yn rhan o brosiect ehangach hunan-wasanaeth ac yn ddibynnol ar bryd y caiff y cynllun ei amerlennu i mewn i'r rhaglen waith hunan-wasanaeth.
- Cynllun Lleoli Oedolion (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*) – 15 diwrnod. Cyhoeddwyd adroddiad gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mehefin 2017 ar Gynllun Lleoli Oedolion Gwynedd ac roeddynt o'r farn bod "*proses baru gadarn wedi ei sefydlu. Mae profiad a ffordd o fyw'r swyddogion galluogi a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu paru gan ystyried gweithgareddau cymdeithasol, hobiau, diddordebau hamdden a ffydd....Nid oedd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio i adrodd arnynt.*" Ni fyddai archwiliad mewnol pellach yn ddefnydd effeithiol o amser.
- Trefniadau Comisiynu (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*) – 30 diwrnod. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym yn Ebrill 2016, ac mae Adran 9 o'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer swyddogaethau penodol. Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o drefniadau comisiynu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ar elfennau penodol megis llety cartref preswyl. Fodd bynnag, mae'r gwaith o ddatblygu cyllidebau cyfun rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru megis dechrau, felly nid oes diben cynnal yr archwiliad hyd y bydd trefniadau cadarnhaol wedi eu sefydlu.
- Iechyd a Diogelwch (Asiantaeth Cefnffyrdd) – 25 diwrnod. Mae'r safon Iechyd a Diogelwch (OHSAS 18001) yn cael ei ddiweddarau yn y flwyddyn newydd gyda ffenestr o dair blynedd i sicrhau cydymffurfiaid â'r safon newydd sef ISO 45001. Bydd y safon newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.

- 3.3 Roedd 24 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer archwiliad "Grantiau" yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae'r dyddiau bellach wedi ei neilltuo i ddau grant penodol sef "Teuluoedd yn Gyntaf" a "Grant Cynnig Gofal Plant" – gyda 12 diwrnod yr un wedi ei neilltuo ar eu cyfer.

3.4 Derbyniwyd cais i gynnal adolygiad o drefniadau “Incwm Meysydd Parcio” yn sgil problemau sydd wedi dod i’r amlwg o fewn y Gwasanaeth Incwm, Cyfrifeg a’r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd. Mae 15 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer cynnal yr adolygiad ac felly rhaid canslo archwiliad i ymgymryd â’r gwaith. Penderfynwyd canslo archwiliad “Achrediadau YGC” (15 diwrnod) i ymgymryd â’r adolygiad oherwydd bod yr achrediadau yn destun adolygiadau allanol gan BSI.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2017/18, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-01/2018	Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol - Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr	10.00	0.00	10.00	9.30	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-09/2018/001	Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	20.00	0.00	20.00	0.34	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-09/2018/002	System Integredig Dysgu a Datblygu	10.00	0.00	10.00	7.26	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-11/2018	Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau	15.00	0.00	15.00	11.86	Disgwyl Adolygiad
1-CORFF-12/2018	Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch	15.00	0.00	15.00	15.12	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-13/2018	Gweinyddu Costau Teithio Hunan-wasanaeth	5.00	0.00	5.00	5.69	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-19/2018/001	Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi	35.00	0.00	35.00	1.47	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-19/2018/002	Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	4.00	0.00	4.00	0.42	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2018	Diwylliant ac Ymddygiad - Barn y Gweithlu	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
1-CPGV-02/2018	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol	20.00	0.00	20.00	22.69	Adroddiad Terfynol
2-ADN-CGC-DPA/2018cy	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	6.00	0.00	6.00	0.47	Gwaith Maes ar y gweill
AO-AP-05/2018	Y Fenter Twyll Genedlaethol	40.00	0.00	40.00	15.95	Gwaith Maes ar y gweill
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2018/GY	Grant Gwisg Ysgol	0.00	12.00	12.00	11.73	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2018GAD	Grant Amddifadedd Disgyblion	10.00	0.00	10.00	10.12	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2018GGA	Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion	15.00	0.00	15.00	13.89	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2018oI16	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	3.00		Wedi ei gynllunio
EADDA03/2018	Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd	25.00	0.00	25.00	4.49	Crewyd Papurau Gwaith
EADDA29/2018/2089	Iechyd a Diogelwch - Ysgol Bro Lleu	0.00	4.10	4.10	4.51	Adroddiad Terfynol
EADDA29/2018/2093	Iechyd a Diogelwch - Ysgol Pentreuchaf	0.00	4.10	4.10	4.52	Adroddiad Terfynol
EADDA29/2018/2126	Iechyd a Diogelwch - Ysgol Abercseg	0.00	4.20	4.20	4.67	Adroddiad Terfynol
EADDA29/2018/2189	Iechyd a Diogelwch - Ysgol Dyffryn Ardudwy	0.00	4.20	4.20	4.37	Adroddiad Terfynol
EADDA29/2018/2199	Iechyd a Diogelwch - Ysgol O M Edwards	0.00	4.20	4.20	4.66	Adroddiad Terfynol
EADDA29/2018/3023	Iechyd a Diogelwch - Ysgol Llanystumdwy	0.00	4.20	4.20	4.64	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
GwE						
4-GWE/2018	Trefniadau Busnes	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
Ysgolion						
EADDA21/2018	Incwm Cinio Ysgol	20.00	-12.00	8.00	0.27	Wedi ei gynllunio
EADDA35/2018	Ysgolion - Cyffredinol	10.00	0.00	10.00	0.22	Gwaith Maes ar y gweill
AMGYLCHEDD						
Gwarchod y Cyhoedd						
2ADN-GGYC-GYC/2018bw	Hylendid Bwyd	8.00	0.00	8.00	1.93	Wedi ei gynllunio
BB-YSG-11/2018	Trwyddedu	8.00	0.00	8.00		Wedi ei gynllunio
Tir ac Eiddo'r Cyngor						
BA-EID-04/2018	Manddaliadau	8.00	0.00	8.00	1.53	Gwaith Maes ar y gweill
BA-EID-05/2018	Cynlluniau Adeiladu Ysgolion - Ysgol Glancegin	10.00	0.00	10.00	2.69	Gwaith Maes ar y gweill
Trafnidiaeth a Gofal Stryd						
DDAT-CC-01/2018	Tocynnau Mantais Bws	8.00	0.00	8.00	5.28	Crewyd Papurau Gwaith
PPE-P-01/2018	Incwm Meysydd Parcio	0.00	15.00	15.00	1.69	Gwaith Maes ar y gweill
ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU						
3-AMC-ACGC/2018	Iechyd a Diogelwch	25.00	0.00	25.00		Wedi ei ganslo
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL						
Democratiaeth						
BB-YSG-18/2018	Hyfforddi Aelodau Newydd	10.00	0.00	10.00	9.18	Adroddiad Terfynol
CYLLID						
Ar draws yr adran						
AW-TG-12/2018tg	Diogelwch Systemau TG	30.00	0.00	30.00		Wedi ei gynllunio
Ariannol						
AD-DY-01/2018	Trefniadau Adennill Dyledion	15.00	0.00	15.00	5.43	Gwaith Maes ar y gweill
Cyfrifeg						
AN-ACY-10/2018	Praeseptau	5.00	0.00	5.00	7.42	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau						
AP-PEN-01/2018	Cronfa Bensiwn - Cyffredinol	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
AP-PEN-15/2018	Grantiau Marwolaeth	15.00	0.00	15.00	12.50	Adroddiad Terfynol
Refeniw						
AB-BD-01/2018kc	Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	12.00	0.00	12.00	4.81	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2018	System Treth Cyngor - Advantage Digital Portal	10.00	0.00	10.00		Wedi ei ganslo
ECONOMI A CHYMUNED						
Adfywio Cymunedol						
EADDZ-01/2018	Cronfa'r Degwm	5.00	0.00	5.00		Wedi ei ganslo
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						
EDIW-MU-03/2018/001	Storiol - Cau i Lawr y Prosiect	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
EDIW-MU-03/2018/002	Ymweliad Di-Rybudd	1.00	0.00	1.00	0.91	Adroddiad Terfynol
Hamdden						
E-DGO-01/2018/002	Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth	10.00	0.00	10.00	10.04	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6402/2018	Canolfan Tennis Arfon	12.00	0.00	12.00	9.47	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6443/2018	Canolfan Hamdden y Pafiliwn	10.00	0.00	10.00	9.96	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6444/2018	Pwll Nofio Bro Ffestiniog	8.00	0.00	8.00	10.09	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6446/2018	Canolfan Hamdden Glan Wnion	10.00	0.00	10.00	11.05	Adroddiad Terfynol
Morwrol a Pharciau Gwledig						
EHAMM-03/2018	Doc Fictoria	10.00	0.00	10.00	4.05	Gwaith Maes ar y gweill
Strategaeth a Datblygu						
DDAT-AD-02/2018	Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT						
Busnes						
GRH-CD01/2018	Trefniadau Comisiynu	30.00	0.00	30.00		Wedi ei ganslo
Cefnogi Pobl						
GDAPR-SP01/2018	Grant Cefnogi Pobl	15.00	0.00	15.00	11.85	Adroddiad Terfynol
Oedolion						
GGWAS-H07/2018tel	Teleofal	10.00	0.00	10.00	0.88	Wedi ei gynllunio
Preswyl a Dydd						
5-GOF-CART1333/2018	Plas Maesincla, Caernarfon	12.00	0.00	12.00	12.27	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1338/2018	Plas Hafan, Nefyn	12.00	0.00	12.00	11.51	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
5-GOF-CART1339/2018	Plas Ogwen, Bethesda	12.00	0.00	12.00	12.08	Adroddiad Terfynol
GDARP-D07/2018	Tai Cefnogol	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
GDARP-D08/2018/tm	Tan y Marian	10.00	0.00	10.00	10.19	Adroddiad Terfynol
GDARP-D08/2018/yf	Y Frondeg	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
GGWAS-D11/2018	Cynllun Lleoli Oedolion	15.00	0.00	15.00	1.73	Wedi ei ganslo

PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

Plant a Theuluoedd

5-GOF-X-PL/2018/001	Grant Teuluoedd yn Gyntaf	0.00	12.00	12.00	9.26	Crewyd Papurau Gwaith
5-GOF-X-PL/2018/002	Grant Cynnig Gofal Plant	0.00	12.00	12.00	7.86	Crewyd Papurau Gwaith
GGWAS-P05/2018	Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal	20.00	0.00	20.00	1.24	Wedi ei gynllunio
GGWAS-PLANT8/2018	Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014	20.00	0.00	20.00	0.88	Wedi ei gynllunio

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Fflyd

PGW-TR-02/2018	Depos	15.00	0.00	15.00	3.72	Crewyd Papurau Gwaith
----------------	-------	-------	------	-------	------	-----------------------

Rheoli Gwastraff a Strydoedd

PBW-07/2018/001	Targedau Ailgyrchu	10.00	0.00	10.00	4.86	Crewyd Papurau Gwaith
PBW-10/2018/002	Casglu Gwastraff Gardd	15.00	0.00	15.00	15.49	Adroddiad Terfynol

TAI

Rhent a Rheolaeth Tai

T-TAI-T01/2018	Rhestr Aros Tai	12.00	0.00	12.00	8.22	Gwaith Maes ar y gweill
----------------	-----------------	-------	------	-------	------	-------------------------

YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Adeiladau ac Amgylcheddol

PYM01/2018	Statws Cyflogaeth	10.00	0.00	10.00	4.12	Gwaith Maes ar y gweill
------------	-------------------	-------	------	-------	------	-------------------------

Ar draws yr adran

PYMG-CON/2018	Achrediadau	15.00	-15.00	0.00		Wedi ei ganslo
---------------	-------------	-------	--------	------	--	----------------

Eitem 9

CYFARFOD:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD:	30 Tachwedd 2017
TEITL:	Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2017)
PWRPAS:	Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf
GWEITHREDIAD:	Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.
SWYDDOG CYSWLLT:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid
AELOD CABINET:	Cynghorydd Peredur Jenkins

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Ail Chwarter) i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2017.
3. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiad:

Adroddiad Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Ail Chwarter (Cabinet 21/11/2017)

ADRODDIAD I'R CABINET

21 Tachwedd 2017

Aelod Cabinet: Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyllideb Refeniw 2017/18 –
Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2017)

Swyddog Cyswllt: Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2017) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.
- Gyda chytundeb y Pennaeth Adran Amgylchedd, trosglwyddo (£282k) o'r Adran Amgylchedd i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.
- Gyda chytundeb y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol trosglwyddo (£54k) o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.
- Cynaeafu (£200k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, (£800k) o danwariant Gostynigiad Treth y Cyngor, (£406k) arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, (£444k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£697k) o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, a'i drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2017/18, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gorwariant gan wasanaethau Darparu ynghyd â methiant i wireddu rhai arbedion yn bennaf gyfrifol am orwariant yr Adran. Rydym yn dal i aros am adroddiad gan y Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet yn ail-becynnu eu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni.

2.2 Adran Plant a Theuluoedd

Y tuedd o orwariant a welwyd yn y chwarter cyntaf yn parhau, gyda gorwariant ar wasanaethau lleoliadau a gweithredol.

2.3 Adran Addysg

Pwysau ychwanegol ar gludiant tacsis ysgolion, ac hefyd arlwyath a glanhau, yn gyfrifol am y gorwariant. Yn yr adolygiad chwarter cyntaf gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg sicrhau fod y Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd yn ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion ac yn gweithredu i reoli neu adrodd ar y sefyllfa. Gan fod y sefyllfa ariannol cysylltiedig bellach wedi gwaethygu, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

2.4 Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol

Problemau gorwariant yr Adran wedi dwysau yn sylweddol yn ystod y chwarter, sydd yn gyfuniad o ddiffyg incwm, llithriad arbedion, a chostau cynyddol ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu. Mae'r Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet yn rhoi sylw i faterion sy'n cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

2.5 Adran Amgylchedd

Gwasanaethau'r Adran yn tanwario o ganlyniad i arbedion o ail-strwythuro arfaethedig, ynghyd â rhagori ar dargedau incwm. Mae'r sefyllfa ffafriol eleni yn galluogi'r Adran i drosglwyddo tanwariant sydd uwchlaw £100k i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

2.6 Corfforaethol

Bu tanwariant o gasglu mwy o Dreth Cyngor, llai o hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor, arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, bidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, a thanwariant o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol diweddar. Argymhellir ei drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

3. Cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r adolygiad ail chwarter o'r cyllidebau yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor, ond argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Addysg, Oedolion Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, a Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2018.

4. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 13 Chwefror 2018 ar yr adolygiad trydydd chwarter.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Ail Chwarter				Adolygiad Chwarter Cyntaf £ '000
	Cyllideb Arfaethedig 2017/18 £'000	Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	50,783	216	0	216	147
Plant a Theuluoedd	13,961	396	0	396	290
Addysg	89,927	264	0	264	358
Economi a Chymuned	11,389	(33)	0	(33)	(26)
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	23,362	600	0	600	149
Amgylchedd	8,015	(382)	282	(100)	(134)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	1,108	35	0	35	85
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	667	(71)	0	(71)	0
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	850	(68)	0	(68)	(40)
Cefnogaeth Gorfforaethol	357	(154)	54	(100)	(20)
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn Unig)</i>	*	(2,912)	2,547	(365)	(380)
Cyfansymiau (net)	200,419	(2,109)	2,883	774	429

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	10,461	10,508	47	0	47	(316)
Gofal Cartref	6,223	6,017	(206)	0	(206)	126
Eraill	2,850	2,596	(254)	0	(254)	(147)
	19,534	19,121	(413)	0	(413)	(337)
Gwasanaethau Anabledd Corff						
Preswyl a Nyrsio	492	478	(14)	0	(14)	(20)
Gofal Cartref	998	1,067	69	0	69	90
Eraill	709	573	(136)	0	(136)	(100)
	2,199	2,118	(81)	0	(81)	(30)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	14,950	14,731	(219)	0	(219)	(228)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl						
Preswyl a Nyrsio	1,492	1,712	220	0	220	236
Eraill	1,983	1,888	(95)	0	(95)	(97)
	3,475	3,600	125	0	125	139
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)						
Rheolaeth	418	413	(5)	0	(5)	0
Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff	2,378	2,408	30	0	30	0
	2,796	2,821	25	0	25	0
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	42,954	42,391	(563)	0	(563)	(456)

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	9	193	184	0	184	75
Gofal Dydd	5	65	60	0	60	0
Gofal Cymunedol	2	333	331	0	331	200
Eraill	0	(66)	(66)	0	(66)	(10)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	16	525	509	0	509	265
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Tai	4,393	4,442	49	0	49	38
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,420	3,641	221	0	221	300
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	7,813	8,083	270	0	270	338
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	50,783	50,999	216	0	216	147

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - nifer o ffactorau yn gyfrifol am leihad yn y costau, sydd yn cynnwys lleihad yn y pecynnau gyda'r angen am ddau ofalydd ar ofal cartref.

Gwasanaethau Anabledd Corff - tanwariant ar daliadau uniongyrchol a llety cefnogol yn cynorthwyo i leihau effaith y gorwariant sydd ar ofal cartref.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - rhagwelir tanwariant ar breswyl a nyrsio, llety cefnogol a gwasanaethau dydd, ond cynlluniau cefnogol yn gorwario yn rhannol o ganlyniad i lithriad ar gynlluniau arbedion.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - y tuedd yn parhau gyda gorwariant o £125k ar preswyl a nyrsio, ond tanwariant ar swyddi gwag a derbyniad grant ar wasanaethau eraill yn lleddfu ychydig ar y sefyllfa.

Gwasanaethau Darparu - parhad yn y tueddiad yn y gorwariant ers 2016/17 yn deillio o gostau cysylltiedig â materion staffio, gyda chostau teithio hefyd yn gyfrifol am werth £108k o'r gorwariant ar ofal cymunedol.

Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol - mae'r rhagolygon uchod yn adlewyrchu'r risg na fydd modd gwireddu gwerth £436k o arbedion, gyda nifer o gynlluniau arbedion wedi llithro o 2016/17. Rydym yn dal i aros am adroddiad gan y Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ail-becynnu eu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni. Swyddi gwag, derbyniad grant ac incwm uwch yn lleihau y gorwariant a adroddir i £221k.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	511	490	(21)	0	(21)	(10)
Gwasanaethau Gweithredol	1,995	2,133	138	0	138	100
Gwasanaethau Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	1,947	2,160	213	0	213	20
Maethu Drwy Asiant	928	1,042	114	0	114	205
Maethu Mewnol	1,675	1,706	31	0	31	75
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,573	1,616	43	0	43	30
	6,123	6,524	401	0	401	330
Gwasanaethau Ôl-16	913	879	(34)	0	(34)	(75)
Gwasanaethau Arbenigol/Derwen	1,565	1,608	43	0	43	5
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid	234	203	(31)	0	(31)	(25)
Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar	126	72	(54)	0	(54)	(35)
Gwasanaethau Eraill	2,494	2,448	(46)	0	(46)	0
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	13,961	14,357	396	0	396	290

Plant a Theuluoedd

Gwasanaethau Gweithredol - rhagwelir gorwariant o £138k, er fod yr Adran wedi derbyn cyllideb ychwanegol yn 2017/18. Y gorwariant yn parhau o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond sydd ddim mewn lleoliadau maethu, ynghyd â gorwariant ar gostau staff.

Gwasanaethau Lleoliadau - y gorwariant ar leoliadau all-sirol yn £213k a maethu drwy asiant £114k. Un achos newydd ac un pecyn wedi dwyshau yn gyfrifol am y cynnydd yn yr all-sirol, tra fod pump achos maethu mewnol newydd ar ddechrau'r flwyddyn, ond tri wedi dod i ben bellach. Mae pwysau o ran nifer yr achosion, a methiant i gyflawni arbedion wedi arwain at y gorwariant.

Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar - amcan y bydd tanwariant o (£54k) yn dilyn derbyniad grant newydd gofal plant.

Gofynnir i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Phennaeth yr Adran sicrhau camau pendant i geisio lleihau'r gorwariant gan sicrhau fod y gyllideb dan reolaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter

Adran Addysg	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	73,208	73,208	0	0	0	0
Cludiant	4,246	4,510	264	0	264	200
Diswyddo ac Ymddeol Cynnar	358	364	6	0	6	0
All Sirol	953	953	0	0	0	0
Arlwyaeth a Glanhau	294	440	146	0	146	95
Addysg Meithrin	600	596	(4)	0	(4)	0
Grant Grant Gwella Addysg	564	524	(40)	0	(40)	(40)
Rheolaeth	1,569	1,503	(66)	0	(66)	(41)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	3,053	3,067	14	0	14	190
Addysg Bellach	24	17	(7)	0	(7)	0
Cyfraniad Addysg i Gyd-Bwyllgorau	1,202	1,168	(34)	0	(34)	(23)
Eraill	3,856	3,841	(15)	0	(15)	(23)
Cyfanswm Addysg	89,927	90,191	264	0	264	358

Addysg

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu lleihad yn y gorwariant i £264k, o'i gymharu â'r £358k adroddwyd yn y chwarter cyntaf. Y prif feysydd sydd yn cyfrannu at y sefyllfa yw:

Cludiant - y tueddiad gorwariant yn parhau ers yr adolygiad chwarter cyntaf, a bellach wedi cynnyddu i £264k, gyda diffyg o £50k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16, tanwariant o (£17k) ar fysis ysgol, ond gorwariant o £230k ar gludiant tacsis ysgolion, yn dilyn cynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu'r gyllideb. Yn yr adolygiad chwarter cyntaf gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg sicrhau fod y Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd yn ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion ac yn gweithredu i reoli neu adrodd ar y sefyllfa. Gan fod y sefyllfa ariannol cysylltiedig bellach wedi gwaethygu, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

Arlwyaeth a Glanhau - rhagwelir gorwariant o £146k, yn bennaf ar gostau yn deillio o salwch a materion staffio, ynghyd â cholled grant ac oedi cyn cyflawni arbedion y cynllun Brechwast am Ddim.

Rheolaeth - tanwariant o (£66k) o ganlyniad i drosiant staff.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	875	875	0	0	0	0
Dysgu Cymunedol	3,458	3,418	(40)	0	(40)	(3)
Twristiaeth a Threftadaeth	1,434	1,446	12	0	12	5
Economi a Chymuned	2,117	2,113	(4)	0	(4)	0
Cymunedau'n Iach	3,505	3,504	(1)	0	(1)	(28)
Cyfanswm Economi a Chymuned	11,389	11,356	(33)	0	(33)	(26)

Economi a Chymuned

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£33k) erbyn diwedd y flwyddyn gan yr Adran Economi. O fewn y sefyllfa yma rhagwelir y bydd rhai gwasanaethau yn gorwario, gan gynnwys Morwrol, Oriolau ac Amgueddfeydd, ond yn cael ei fantoli gan danwariant mewn meysydd eraill megis Parciau Gwledig, Cefnogi Busnes a Neuaddau.

Dysgu Cymunedol - amcenir tanwariant o (£40k) sydd yn gyfuniad o danwariant o (£20k) ar y Gwasanaeth Ieuenctid, gan fod cwtogiad yn y ddarpariaeth clybiau ieuenctid, a (£20k) ar Adfywio Cymunedol o ganlyniad i drosiant staff.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter						
Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Prifffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,938	10,213	275	0	275	71
Gwasanaethau Peirianeg	401	490	89	0	89	13
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	9,324	9,537	213	0	213	48
Eraill	3,713	3,762	49	0	49	17
Unedau Darparu Bwrdeistrefol	(14)	(40)	(26)	0	(26)	0
<u>Cyfanswm Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)</u>	23,362	23,962	600	0	600	149

Tud. 73

Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Prifffyrdd - y rhagolygon yn awgrymu y bydd incwm contractau allanol yn is na'r targed, ynghyd â llithriad ar arbedion Prifffyrdd a Goleuo.

Gwasanaethau Peirianeg - cyfuniad o fethiant i wireddu cynlluniau arbedion, materion staffio a cholled cytundeb allanol yn gyfrifol am y gorwariant o £89k a ragwelir.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, gan gynnwys diffyg incwm, costau cynyddol ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu.

Yn yr adolygiad chwarter cyntaf adroddwyd fod disgwyliad i'r Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Pennaeth Adran gymryd camau pendant yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y gyllideb. Gan weld fod y sefyllfa ariannol wedi gwaethygu yn sylweddol erbyn hyn, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter

Adran Amgylchedd	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	539	526	(13)	0	(13)	0
Gwasanaethau Cynllunio						
Rheolaeth Datblygu	372	351	(21)	0	(21)	0
Eraill	(39)	(54)	(15)	0	(15)	0
	333	297	(36)	0	(36)	0
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Cynllunio Ymlaen	2,439	2,439	0	0	0	0
Diogelwch y Ffyrdd	255	222	(33)	0	(33)	0
Traffig a Threfniadau Statudol	567	504	(63)	0	(63)	0
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,429)	(1,428)	1	0	1	(134)
Cludiant Integredig	2,069	1,934	(135)	0	(135)	0
Gorfodaeth a Thrafnidiaeth	175	131	(44)	0	(44)	0
	4,076	3,802	(274)	0	(274)	(134)
Cefn Gwlad a Mynediad	999	1,020	21	0	21	0
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd	288	288	0	0	0	0
Gwarchod y Cyhoedd	1,745	1,675	(70)	0	(70)	0
Arlwyo, Glanhau a Gofalu	3	2	(1)	0	(1)	0
Eiddo	32	23	(9)	0	(9)	0
Cynaeafu Cyllideb				282	282	0
Cyfanswm Amgylchedd	8,015	7,633	(382)	282	(100)	(134)

Amgylchedd

Gofal Stryd a Thrafnidiaeth - rhagwelir tanwariant un-tro o (£274k) sydd yn gyfuniad o nifer o swyddi gwag fel rhan o ail-strwythuro arfaethedig yn ogystal â rhagori ar incwm.

Gwarchod y Cyhoedd - incwm uwchlaw'r gyllideb yn bennaf gyfrifol am y tanwariant o (£70k) a ragwelir, gyda amrywiol danwariant ar gostau rhedeg y gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am y sefyllfa ariannol ffafriol.

O ganlyniad i'r rhagolygon addawol un-tro eleni gan yr Adran, awgrymir y dylid rhyddhau (£282k) o'r tanwariant sydd uwchlaw (£100k) i bwrpas y Cyngor.

Argymhellir gyda chytundeb y Pennaeth Adran Amgylchedd drosglwyddo (£282k) o'r Adran Amgylchedd i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter						
Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(66)	(106)	(40)	0	(40)	10
Gwasanaeth Adeiladu	39	109	70	0	70	73
Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd	935	935	0	0	0	0
Rheolaeth Adeiladu	200	205	5	0	5	2
Cyfanswm Ymgynghoriaeth	1,108	1,143	35	0	35	85

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£40k), yn dilyn llwyddiant yr Adran i ddenu incwm ychwanegol drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol.

Gwasanaeth Adeiladu - y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith gan sefydliadau allanol i ddenu incwm, ond yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol rhagwelir diffyg incwm o £70k erbyn diwedd y flwyddyn, sydd £30k yn well na'r cyfnod yma y llynedd.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter						
Adrannau Canolog	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	667	596	(71)	0	(71)	0
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	850	782	(68)	0	(68)	(40)
Cefnogaeth Gorfforaethol	357	203	(154)	54	(100)	(20)
Cyfanswm Adrannau Canolog	1,874	1,581	(293)	54	(239)	(60)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - amcan tanwariant o (£71k) gyda (£52k) ohono ar dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol, a (£9k) o arbedion a wireddwyd ymlaen llaw a (£9k) yn y maes Cynllunio Argyfwng.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - tanwariant un-tro ar swyddi yn parhau gan yr Adran, ynghyd â denu incwm uwchlaw'r gyllideb.

Cefnogaeth Gorfforaethol - cynnydd yn y rhagolygon tanwariant i (£154k), sydd yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i drosiant staff a llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd. Gan fod lefel y tanwariant a ragwelir uwchlaw (£100k), awgrymir y dylid cynaeafu (£54k) o'r sefyllfa ffafriol a ragwelir i gynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.

Argymhellir, gyda chytundeb y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, trosglwyddo'r tanwariant o (£54k) gan Cefnogaeth Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb Arfaethedig 2017/18	Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig	Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth y Cyngor	*	*	(200)	200	0	0
Gostyngiad Treth y Cyngor	*	*	(800)	800	0	(380)
Derbyniad Llog Net	*	*	(7)		(7)	0
Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw	*	*	(406)	406	0	0
Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(444)	444	0	0
Eraill	*	*	(1,055)	697	(358)	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(2,912)	2,547	(365)	(380)

Tud. 78

Corfforaethol

Rhagwelir sefyllfa ffafriol o gasgliad uwch o (£200k) ar Dreth y Cyngor o ganlyniad i leihad yn y nifer o eithriadau i ostwng Treth y Cyngor gan gynnwys disgowntiau sengl. Tanwariant o (£800k) ar gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, gyda'r lleihad mewn nifer ceisiadau yn dueddiad a welir yn bresennol gan Gynghorau eraill gogledd Cymru. Arbedion amrywiol a wireddwyd ymlaen llaw gan Adrannau yn (£406k), a gwerth (£444k) o fidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, yn bennaf (£317k) gan Oedolion, lechyd a Llesiant yn cael eu rhyddhau.

Y rhagamcanion diweddaraf yn awgrymu fod modd rhyddhau (£697k) o ganlyniad i newid deddfwriaeth a grantiau ar ôl gosod y gyllideb, gan gynnwys, cynnydd yn y cap polisi codi tâl yn y maes gofal oedolion (£198k), derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru yn golgu fod modd rhyddhau cyllideb demograffi oedolion (£300k) a chyllideb ar gyfer achosion cyfreithiol pridiannau tir (£50k).

Argymhellir cynaeafu (£200k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, (£800k) o danwariant Gostyngiad Treth y Cyngor, (£406k) arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, (£444k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£697k) o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, gan eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

Eitem 10

CYFARFOD:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD:	30 Tachwedd 2017
TEITL:	Rhaglen Gyfalaf 2017/18 – Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2017)
PWRPAS:	Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf
GWEITHREDIAD:	Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet
SWYDDOG CYSWLLT:	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid
AELOD CABINET:	Cynghorydd Peredur Jenkins

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad ail chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2017 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiad:

Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2017/18 – Adolygiad Ail Chwarter (Cabinet 21/11/2017)

ADRODDIAD I'R CABINET

21 Tachwedd 2017

Aelod Cabinet: Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2017/18 –
Adolygiad Ail Chwarter (sefyllfa 30 Medi 2017)

Swyddog Cyswllt: Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2017) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £1,121,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
 - (£389,000) lleihad mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - £78,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £118,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau referiw
 - (£663,000) lleihad mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
 - (£48,000) lleihad mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2017/18. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £46.942m am y 3 blynedd 2017/18 – 2019/20.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £0.217m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2017/18 i 2018/19
- Atodiad C: Gwariant 6 mis cyntaf 2017/18.

2. Prif Gasgliadau:

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £33.4m yn 2017/18, gyda £5.4m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

3. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 i 2019/20

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MEDI				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2017/18	2018/19	2019/20	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Addysg	13,029	399	-	13,428	(84)
Amgylchedd	7,215	3,187	-	10,402	103
Cefnogaeth Gorfforaethol	143	9	-	152	21
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	547	709	-	1,256	-
Economi a Chymuned	1,061	10	200	1,271	379
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	3,063	3,607	-	6,670	9
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	947	-	-	947	449
Plant a Chefnogi Teuluoedd	157	-	-	157	88
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	6,957	2,460	2,406	11,823	(748)
Ymgynghoriaeth	27	17	-	44	-
Corfforaethol	222	570	-	792	-
CYFANSWM	33,368	10,968	2,606	46,942	217

4. NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae cynnydd o £0.217m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MEDI				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2017/18	2018/19	2019/20	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Benthyca gyda chefnogaeth	6,675	6,399	-	13,074	-
Benthyca Arall	8,526	415	992	9,933	1,121
Grantiau a Chyfraniadau	5,441	750	200	6,391	(389)
Derbyniadau Cyfalaf	1,206	196	-	1,402	78
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,285	-	-	2,285	118
Cronfa Cyfalaf	1,116	1,290	-	2,406	(48)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	8,119	1,918	1,414	11,451	(663)
CYFANSWM	33,368	10,968	2,606	46,942	217

Noder: nid yw'r cynnydd yn y lefel 'benthyca arall' yn creu ymrwymiad ychwanegol ar gyllidebau refeniw'r Cyngor. Mae'r gefnogaeth ar gyfer y benthyca yma eisoes wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad A am fwy o fanylion).

5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017/18 i 2019/20, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).

6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2017/18 – 2019/20.

7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiadau A, B a C

PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Benthyca Arall		
<ul style="list-style-type: none"> Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – cynnydd mewn benthyca, addasiad technegol i'r ffynhonnell ariannu er mwyn gostwng y lefel o grant a chynyddu'r lefel benthyciad gyda chefnogaeth ar gais blynyddol gan Lywodraeth Cymru (gweler hefyd Grantiau a Chyfraniadau isod). Ni fydd y newid technegol yma mewn ariannu yn cael unrhyw effaith ar y cynlluniau, a bydd Lywodraeth Cymru yn dal i ariannu 50% o'r gost. 	1,241	
Grantiau a Chyfraniadau		
<ul style="list-style-type: none"> Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – gostyngiad grant, gweler Benthyca Arall uchod am eglurhad. 	(1,241)	
<ul style="list-style-type: none"> Datblygiad Llys Cadfan (Adran Oedolion Iechyd a Llesiant) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gartref Llys Cadfan i dderbyn gwelyau dementia ac arbenigol. 	400	
<ul style="list-style-type: none"> Adfywio Tref a Glannau Caernarfon (Adran Economi a Chymuned) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 	336	
Derbyniadau Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Nifer o fân gynlluniau. 	78	
Refeniw Adrannol		
<ul style="list-style-type: none"> Nifer o fân gynlluniau. 	118	
Cronfeydd Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Nifer o fân gynlluniau. 	(48)	
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Adnewyddu Cerbydau Ailgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - cafwyd prisiau gwell na'r disgwyl ar bryniant 5 cerbyd yn 17/18, a gwelwyd 3 cerbyd yn cael eu hadnewyddu'r llynedd yn hytrach na fel y rhagluniwyd yn 18/19. 	(229)	(565)

Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi ei hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Cynlluniau Grantiau Tai (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Dai)	(758)	758
Cynlluniau Adnewyddu Cyfrifiaduron (Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth)	(360)	360
Ail wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd)	(219)	219
Ysgol Bro Llifon (Adran Addysg)	(122)	122

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

ATODIAD C

Gwariant Cyfalaf 6 Mis Cyntaf 2017/18

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Medi)	GWIR WARIANT 6 MIS HYD AT
	2017/18 £'000	30/09/2017 £'000
Addysg	13,029	4,335
Amgylchedd	7,215	2,059
Cefnogaeth Gorfforaethol	143	6
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	547	326
Economi a Chymuned	1,061	317
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	3,063	616
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	947	388
Plant a Chefnogi Teuluoedd	157	33
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	6,957	1,592
Ymgynghoriaeth	27	-
Corfforaethol	222	-
CYFANSWM	33,368	9,672

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (29%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (36%).

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 Tachwedd 2017
TEITL	Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
PWRPAS	Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn fodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Mair Rowlands

1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
- 2.2 Rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y mater hwn yw i fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.

3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1.0 Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2012/13 a 2016/17 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella, a'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn erbyn y cynigion hynny.
- 3.1.1 Nodir y cynigion gwella ble nad oedd y cynnydd yn eu herbyn wedi ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2016, sef y dyddiad pan fu'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried y mater hwn ddiwethaf. Yn unol â dymuniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2016, mae'r Atodiad hefyd yn cynnwys cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau hanesyddol ond heb eu cwblhau. Weithiau, gall yna fwy o argymhellion fod wedi codi'n wreiddiol o'r adroddiadau hyn, ond mae'r pwyllgor hwn eisoes wedi barnu ei fod yn fodlon bod trefniadau digonol yn eu lle i ymateb iddynt. Rhag ail-adrodd, nid yw'r argymhellion sydd wedi eu hateb wedi eu nodi yn Atodiad 1.
- 3.1.2 Nodir yn Atodiad 1 hefyd gynigion gwella ychwanegol sy'n codi o adroddiadau sydd wedi dod i sylw'r Cyngor ers Tachwedd 2016.

- 3.1.3 Dilyniant o'r adroddiad blaenorol - Darperir eglurhad a gwybodaeth bellach ar y materion isod a adnabuwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr 2016.

Eitem 5(iii) o'r Cofnod - 'gofyn am ymateb gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yng nghyswllt amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant'
Gweithrediad -

Eitem 5(iv) o'r Cofnod – 'cyfeirio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er ystyriaeth'
Gweithrediad – Bydd y mater yn derbyn sylw y Pwyllgor Craffu Gofal

4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

5 Camau nesaf ac amserlen

- 5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2013-2017

1. Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2012/13 – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2013

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ym maes cynllunio addysg.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Derbyniwyd Strategaeth Rhiantu Corfforaethol Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol ar 23 Hydref 2017. Mae aelodau'r Panel yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Cyfarwyddwr Statudol. Cafwyd cytundeb ar ba feysydd penodol fydd yn cael sylw'r panel dros y cyfnod nesaf gydag addysg yn un o'r blaenoriaethau.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau", ac na fydd y cynnig yn cael ei drafod gan y Pwyllgor hwn eto.

2. Craffu Da? Cwestiwn Da – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mai 2014

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfannu at y broses craffu.
2. Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol.
3. Datblygu prosesau blaen-raglennu craffu ymhellach er mwyn:
 - Darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau
 - Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau
 - Sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol.
4. Cysoni rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r Cyngor.

5. Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau.
6. Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad uchod cychwynnwyd ar broses gynhwysfawr o hunanwerthuso ein trefniadau craffu, ac o ddysgu gan eraill. Ffrwyth y gwaith hwn oedd cynnig sawl model o strwythurau craffu newydd i'r Cyngor eu hystyried. Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017 mabwysiadwyd drefniadau craffu diwygiedig fyddai'n dod i rym pan fyddai'n Cyngor newydd yn cael ei ethol fis Mai.

Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau hyfforddiant fis Chwefror 2017 ac eto ym mis Medi i aelodau'r holl bwyllgorau craffu (gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) ar sgiliau cadeirio a sgiliau cwestiynu ar gyfer craffu effeithiol. Mae 2 gyfarfod o'r Fforwm Craffu wedi eu cynnal ers mabwysiadu'r drefn newydd gyda'r Fforwm Craffu yn ymarfer eu prif rôl o sicrhau craffu a chynnal ymchwiliadau i'r materion cywir ar draws y Cyngor. Rhan o raglen waith flynyddol y Fforwm Craffu fydd cynnal hunan-adolygiad parhaus o'r trefniadau a'r broses o flaenoriaethau materion i'w craffu. Yn 2016/17 cychwynnwyd ar beilot ble mae 2 aelod o'r pwyllgorau craffu yn eistedd i mewn ar gyfarfodydd herio perfformiad mewnol ble mae'r Aelodau Cabinet yn herio perfformiad y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r drefn honno bellach wedi ei ffurfioli ers Mai 2017. Mae hyn wedi cryfhau'r berthynas rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ac wedi arwain at adnabod materion i'w cynnwys ar y 'log gwyntyllu craffu' (allai yn eu tro fod yn faterion sy'n cael eu craffu yn swyddogol).

Casgliad

Rydym yn cynnig bod prosesau yn eu lle i ateb pob un o'r argymhellion uchod, ond mae hi'n rhy gynnar i fesur eu heffaith eto. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, fel rhan o archwiliad cenedlaethol, yn dod atom fis Tachwedd i geisio asesu llwyddiant a chynnydd craffu yng Ngwynedd.

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella yn cael ei nodi "ar waith".

3. **Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2013/14** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2014

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen gwella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod; yn 2013/14 llwyddodd y Cyngor i gwblhau 67% o asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith, o'i gymharu â chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru.
2. Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n cael eu hailgyfeirio o 39% yn 2011/12 i 26.6% yn 2013/14; fodd bynnag mae'r ganran hon yn parhau i fod yn uwch na'r ganran gyfartalog yng Nghymru ac mae'n faes y mae angen gwneud gwelliant parhaus ynddo.
3. Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, dylai'r Cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol.

Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012/13 i 78.4% yn 2013/14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%.

4. Mae'r Cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt o 203 yn 2012/13 i 185 yn 2013/14. Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012/13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru (95.9%).
5. Sicrhau ansawdd - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant :

Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddarau. Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15. Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol.

6. Sicrhau ansawdd - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:

Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddarau. Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15. Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr

arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol.

7. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol o ran ei drefniadau rhiantu corfforaethol, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach nawr. Bydd y panel rhiantu corfforaethol yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 er mwyn darparu amlinelliad i'r camau gweithredu y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal. Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchen mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r cyngor a chan asiantaethau partner; gan sicrhau gofal iechyd priodol, mwy o gymorth addysgol a chyflogaeth dros dro yn y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Er mwyn ymateb i gynnig gwella 1 uchod, mae'r Adran wedi penodi un swydd Gweithiwr Cymdeithasol yn ychwanegol at y Tîm Derbyn Cyfeiriadau. Bellach mae uwch weithiwr yn cymeradwyo'r asesiadau er mwyn gwella'r perfformiad 7 diwrnod, ac mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu cynhyrchu i atgoffa rheolwr o achosion sydd angen eu cau. Ers sefydlu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) a ddaeth yn ofyn statudol yn Ebrill 2016, nid yw'r gofyn/mesur yma yn bodoli ac nid yw asesiadau cychwynnol yn bodoli. Oherwydd hynny, mae'r dangosydd wedi ei dynnu allan o'r 'suite' cenedlaethol.

Mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn monitro'r sefyllfa a ddisgrifir yng nghynnig gwella 2 yn agos er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliant parhaus. Mae systemau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd bellach yn gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau a hysbysiadau, lle nad oedd hyn yn wir yn y gorffennol. Dilëwyd y mesur perfformiad yma yn ystod 16/17 ac felly nid ydym yn casglu'r data oherwydd blaenoriaethau eraill.

Mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn monitro'r sefyllfa a ddisgrifir yng nghynnig gwella 3 yn agos. Mae trafodaethau yn parhau gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol. Mae datblygiad gwaith yn y maes yma yn cael ei adrodd arno yn rheolaidd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol. Rydym yn parhau i drafod gyda'r Bwrdd Iechyd i geisio sicrhau fod gwelliant parhaus yn yr asesiadau iechyd sydd yn cael eu cynnal yn amserol ar gyfer plant mewn gofal. Roedd perfformiad 16/17 yn 68% o'i gymharu a 60% yn 15/16 a 50% yn 14/15. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal trafodaethau er mwyn cynyddu'r canran. Mae 86% o blant mewn gofal yn cael eu cofrestru gyda meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith, sydd yn gynnydd ar berfformiad hanesyddol.

Mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn monitro'r sefyllfa a ddisgrifir yng nghynnig gwella 4 yn agos. Yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i dderbyn

rhesymau gan y Cydlynnydd Amddiffyn Plant Adolygu Annibynnol ar gyfer pob cynhadledd sy'n hwyr a gweithredu fel bo'n briodol.

Mae cynnydd sylweddol dros gyfnod o flynyddoedd yn y nifer o adolygiadau sydd yn cael eu cynnal - o 459 yn 11/12 i 674 yn ystod 16/17. Mae adnoddau'r uned wedi parhau ar yr un lefel er y cynnydd, ond er hynny mae perfformiad ar amseroldeb adolygiadau statudol yn 91%. Yr ydym yn cadw gwybodaeth am resymau dros rhai adolygiadau yn cael eu cynnal yn hwyr ac y adrodd ar hyn yn y cylch rheoli perfformiad.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyuno fod cynigion gwella 1 a 2 yn cael eu nodi "wedi'i gwblhau", a chynigion gwella 3, 4, 5, 6 a 7 "ar waith".

4. Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd – Adroddiad lleol i Wynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddwyd Hydref 2014

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth

Cynnydd yn erbyn y cynnig gwella

Cyflwynodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gynnig i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014, a thrafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib. Cyflwynwyd y cynnig wedyn i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29 Medi 2015) er mwyn gweld os oedd angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu. Cododd aneglurder o ran yr argymhelliad a chysylltodd yr Adran â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn trafod yn union beth oedd o dan sylw.

Derbyniwyd ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i'r ymholiad ar 4 Gorffennaf 2016. Yn unol â'r pryder a godwyd gennym, bu i Swyddfa Archwilio Cymru gydnabod fod eu defnydd o'r dywediad LADO yn anghywir a charmarweiniol gan ei fod yn cyfeirio at Loegr yn hytrach na Chymru. Bu iddynt gydnabod fod defnydd Gwynedd o air 'swyddog dynodedig' mewn adrannau hefyd yn gwneud y canlyniad corfforaethol o 68% yn anodd ei sicrhau ac roedd hyn yn cyd-fynd â bwriad eu hymholiad ynghylch y swyddog LADO. Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru mai eu dymuniad oedd sicrhau fod staff yn gwybod at bwy i fynd o ran adrodd ar gamdriniaeth plant gan fod 32% o'r staff yn awgrymu nad oeddent yn gwybod at bwy i droi ar y pryd.

Wedi i'r Cyngor fuddsoddi adnoddau i mewn i hyrwyddo a hyfforddiant er mwyn rhoi arweiniad i staff ynghylch eu cyfrifoldebau diogelu a chyfeirio, gwelwyd gwelliant mawr yn y sefyllfa. Erbyn 2016, nid oedd SAC angen ymateb gan yr Adran, ond am adael y mater i'w sylw. Mae'r Adran o'r farn fod y gwaith diweddar yn cyd-fynd ac ymholiad gwreiddiol Swyddfa Archwilio Cymru.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau".

5. Cyflawni â Llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2014

Cynnigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:
 - cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd,
 - nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru,
 - nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion.

2. Ymgysylltu'n well a thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:
 - ymgynghori a thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;
 - amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion, a
 - nodi cynlluniau i gynyddu taliadau newid safonau gwasanaeth.

3. Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:
 - Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau
 - Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain
 - Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion
 - Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol
 - Cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd

- gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt
 - cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm
 - defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf
 - lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.
4. Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:
- nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;
 - dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail benderfyniadau ar wasanaethau iechyd cynghorau yn y dyfodol;
 - cytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Er mwyn ymateb i gynnig gwella 1 uchod nodai'r adran eu bod yn anelu i gyrraedd y safonau arfer sylfaenol, ond nad yw hynny'n hawdd oherwydd cyfyngderau cyllidol.

Mae'r Adran Amgylchedd wedi rhannu gwybodaeth i ddinasyddion ac Aelodau etholedig fel rhan o broses Her Gwynedd. Mae adolygiad Unedau'r Gwasanaeth yn mynd ei flaen ac wedi ei gwblhau ar gyfer yr elfen trwyddedu, ond bydd angen cyflawni sawl tasg ar gyfer gweithredu'n dilyn yr adolygiad. Mae'r adolygiad hefyd wedi cynnwys canfod barn trigolion ar y Gwasanaeth, a bydd yr Adolygiad yn un fydd yn cymryd amser i'w weithredu ar draws y Gwasanaeth.

Noda'r adran hefyd fod adolygiad o strwythur y Gwasanaeth wedi cael ei gynnal er mwyn ymateb i effaith ymarferol colli dwy swydd rheng flaen fel rhan o'r toriadau. Mae adolygiad o ffioedd ar gyfer 2017/18 yn weithredol ar hyn o bryd ac mae cyfleoedd pellach wedi eu hadnabod i godi ffioedd am wasanaeth trwy adennill costau ar gyfer cynnig cyngor, gyda'r bwriad i hyn fod yn weithredol yn Ebrill 2018. Fe fydd adolygiad pellach o ffioedd trwyddedu tacsis yn digwydd yn 2018/19.

Mewn perthynas â chynnig 3, mae holl ffioedd perthnasol sydd ynghlwm â'r gwasanaethau a gynigir yn cael eu hadolygu fel bod y gwasanaethau yn symud tuag at adennill costau. Mae opsiynau posib o integreiddio neu gydweithio yn agosach gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor wedi eu hystyried er mwyn darganfod os yw yn bosib cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau ymhellach. I'r perwyl hwnnw mae lleihad wedi bod yn y gweithgareddau hynny nad ydynt yn statudol eisoes. Mae'r polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu fel bod yr hyn a ddisgwylir fel gwasanaeth

yn eglur i'r cyhoedd. Mae'r Adran hefyd yn symud tuag at ddarparu mwy o wybodaeth ar lein gan gynyddu'r hyn sy'n bosib drwy hunan wasanaeth.

Mae mesurau perfformiad lleol yr Adran Amgylchedd cael eu hadolygu er mwyn bod yn sicr o'n gallu i fesur galw am y gwasanaethau yn effeithiol, a bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth safonol ac amserol. Bydd y mesuryddion yn medru cael eu defnyddio i gynllunio os fydd angen adolygu sut mae adnoddau'r unedau gwasanaeth yn cael eu rhannu.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1,2,3 a 4 yn cael eu nodi "ar waith".

6. Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yn briodol beth yw effaith pob trefniant ar gyfer ymadael yn gynnar o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig os yw corff cyhoeddus yn gweithredu cynllun penodol lle gallai llawer o bobl ymadael.
2. Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicrheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Craffu Corfforaethol y Cyngor oedd yn cyfeirio at rai elfennau yn ymwneud ag ymddeoliadau cynnar. Nid oes gennym enghreifftiau diweddar ble bo angen derbyn cymeradwyaeth cynghorwyr ar gyfer pecynnau mwy costus. Roedd yr uned archwilio fewnol wedi rhaglennu archwiliad yn y maes hwn ar gyfer 2016/17 ond yn wyneb diffyg adnodd gwnaed penderfyniad nad oedd cynnal archwiliad ar reolaeth yn y maes hwn yn flaenoriaeth.

Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion manwl ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag ymadael yn gynnar, gan gynnwys y costau sydd ynghlwm. Mae'r ffaith nad yw'r Uned Archwilio Mewnol yn ystyried hyn yn flaenoriaeth ar gyfer archwilio pellach yn un arwydd bod trefniadau priodol mewn lle.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 1 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau", a chynnig gwella 2 "ar waith".

7. Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014/15 -

Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Gorffennaf 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Cymryd rhan lawnach yng Nghynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn dilysu a/neu wella cynlluniau ailgylchu gwastraff a lleihau costau.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r ymarferiad 'Toolkit Waste and Resources Action Programme (WRAP), un o raglenni Llywodraeth Cymru, wedi ei gwblhau. Mae'r adolygiad 'Kerbside Analysis Tool' wedi ei gwblhau ond mae WRAP hefyd wedi eu comisiynu i wneud gwaith ychwanegol megis adolygu canolfannau ailgylchu a'n gwasanaeth gwastraff masnachol. Gan fod WRAP yn gynllun tymor hir mi fydd y gwaith hwn yn parhau i'r dyfodol.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau".

8. Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a

Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2014/15 - Adroddiad lleol i
Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion.
Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

2. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

3. Cymorth i Ofalwyr –

Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwmpo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132.

4. Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant –

Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwmp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynnydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwmp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

5. Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant –

Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwmp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynnydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwmp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

6. Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal –

Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y cyngor o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%).

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Er mwyn ymateb i cynnig 1 uchod, mae Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi ei sefydlu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn bod yn gyfrifol am y gwaith o amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Erbyn hyn mae bron pob swydd wedi ei llenwi a rhaglen waith wedi ei chymeradwyo. Mae yr Adran wedi ail-gyfeirio capasiti i greu dwy swydd dros dro ychwanegol er codi momentwm y gwaith dechreuol a gosod sylfaenol gadarn dros y 2 flynedd nesaf.

Er mwyn ymateb i cynnig 2 uchod, mae gwaith y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn dod o dan gyfrifoldeb y Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. Rydym felly yn cymryd y cyfle i gymryd cam yn ôl er mwyn cynllunio trefniadau llywodraethu addas ar gyfer heddiw ac i'r dyfodol. Mae trafodaethau dechreuol cadarnhaol wedi eu cynnal gyda'r Bwrdd Iechyd ac mae'r Adran bellach yn llawer mwy hyderus y gellir sefydlu gwasanaeth effeithiol ar y cyd fydd yn cyfarfod ag anghenion ein trigolion. Os y bydd tystiolaeth yn dangos angen sydd heb ei ddiwallu yna bydd angen ystyried adnoddau ychwanegol i hwyluso a chyflawni'r gwaith.

Er mwyn ymateb i cynnig 3 uchod, rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid y trydydd sector ac iechyd gan ddatblygu cynllun gweithredu Strategaeth Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn. Mae'r wybodaeth a ddaeth o'r asesiad anghenion gofalwyr wedi cael ei fewnbynnu i mewn i'r cynllun. Mae'r cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr wedi cael ei groesawu gan ofalwyr ym Meirionnydd a'r bwriad yw hyrwyddo ei ddefnydd mewn ardaloedd eraill.

Fel ymateb i cynnig 4 uchod, yn ystod 2016/17 roedd perfformiad yn 88% sydd yn gynnydd o berfformiad blaenorol. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnod manwl o'r rhesymau pam fod rhai cynadleddau yn hwyr ac yn adrodd ar hynny yn y cylch rheoli perfformiad. Y ystod 2016/17 cynhaliwyd 147 o gynadleddau.

Fel ymateb i cynnig 5 uchod, roedd perfformiad yn 2016/17 yn 92% o ran cynnal cynadleddau adolygol amddiffyn plant ar amser. Mae hyn yn welliant ar berfformiad blaenorol ac yn cymharu yn ffafriol gyda chyfartaledd Cymru.

Fel ymateb i cynnig 6 uchod, y Bwrdd Iechyd sydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal er mai'r Cyngor sydd yn gyfrifol am y mesur. Mae'r gwasanaeth yn parhau i drafod gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau fod gwelliant parhaus ac mae peth gwelliant wedi bod, er yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru (gweler sylw uchod)

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "ar waith".

9. **Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? -**

Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgyssylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well.
2. Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno.
3. Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Fel ymateb i gynnig 1 a 3 uchod, mabwysiadwyd 'Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd' gan y Cabinet ar 17 Ionawr 2017, sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu sy'n berthnasol i sawl adran o fewn y Cyngor. Mae'r Cynllun yn cael ei fonitro gan y Rheolydd Llesiant, a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar y cynnydd. Mae trafodaethau yn parhau wrth i Gyngor Gwynedd lunio Cynllun Busnes newydd yn weithredol o Ebrill 2018 ynglŷn â chynnwys mesur lefel uchel ar y maes llesiant a helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn benodol. Y bwriad yw gosod mesur o'r fath o dan bennawd Cymunedau Cynaliadwy a chlymu'r mesur hwn gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cyngor, yr Awdurdod Iechyd a'r holl randdeiliad eraill yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac wrth iddynt gwblhau eu Hasesiadau Llesiant, rhagwelir gweld yr agenda hon yn uchel yn eu rhaglen waith a byddant yn pennu mesurau priodol i fesur cynnydd ar drws yr holl wasanaethau.

Fel ymateb i gynnig 2 a 3 uchod, y Rheolydd Llesiant yw'r pwynt cyswllt gyda nifer o sefydliadau allanol sy'n cyfrannu at wireddu'r Cynllun megis Age Cymru Gwynedd a Môn, Cymdeithasau Tai, Cymdeithas Alzheimers, Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Prifysgol Bangor. Mae Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd wedi bod yn ganolog fel corff i ymgysylltu â hwy parthed yr agenda yma a maent wedi chwarae rhan i ddweud beth yw'r blaenoriaethau yr hoffent hwy weld yn y Cynllun.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "ar waith".

10. **Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu (Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau**

**Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd) – Adroddiad lleol i
Wynedd gyhoeddwyd Mehefin 2016**

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen cynllunio'n strategol gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu dyheadau a chynlluniau hirdymor. Dylid datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion.
2. Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a gwella ei gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, a'u cynnwys yn y gwaith o lunio datganiad o sefyllfa'r farchnad ac mewn trafodaethau am strategaeth gomisiynu ar y cyd gyda'r sector iechyd.
3. Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion, gan sicrhau bod eglurder o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau sicrwydd ansawdd.
4. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n diogelu hawliau pobl lle mae eu rhyddid yn cael ei amddifadu (DoLS) er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn iawn.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r Cyngor, yr Awdurdod Iechyd a'r holl randdeiliad eraill yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wrth iddynt gwblhau eu Aseidiadau Llesiant, rhagwelir mai yno y bydd y gwaith o gynllunio'n strategol yn y maes hwn yn digwydd. Rhagwelir y bydd anghenion gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu yn uchel ar eu rhaglen waith a byddant yn pennu mesurau priodol i fesur cynnydd ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag mae yna elfen o ddryswch ynglŷn a'r cwestiwn p'un ai yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dylai hynny ddigwydd ynteu yn y Bwrdd Rhanbarthol a sefydlwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae angen ceisio datrys y dryswch yma er mwyn gallu symud ymlaen.

Y Grŵp Trawsffurfio, o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, sy'n gyrru'r rhaglen waith o ran y strategaeth gomisiynu i'r dyfodol. Mae'r asesiad anghenion wedi ei lunio ac yn mynd drwy'r camau terfynol wrth gyd-gynhyrchu'r ddogfen gyda'r rhanddeiliad penodol. Y bwriad yw cwblhau'r ddogfen yma fis Tachwedd 2017. Y bwriad wedyn yw cychwyn gosod egwyddorion a chreu strategaeth gomisiynu yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r ddogfen yma. Mae pob prosiect Trawsffurfio bellach yn cynnwys darparwyr allweddol, sef y Bwrdd Iechyd a'r teuluoedd/oedolion rydym yn ei gefnogi fel yr angen. Rydym yn cynnal sesiynau ymgysylltu yn rheolaidd.

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi sefydlu Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd, gydag Uwch Reolwr yn gyfrifol amdani. O'r herwydd, mae ein trefniadau

yn llawer mwy tynn, gydag eglurdeb o ran ble mae cyfrifoldebau yn gorwedd. O fewn yr uned hon y mae'r Cydlynnydd DoLS a'r Asesydd Budd Gorau bellach yn gweithio. Mae un swydd arall i'w llenwi ond fel arall mae'r trefniadau newydd yn weithredol.

Rydym yn cynnig bod y prosesau yn eu lle fydd yn ein harwain yn y pen draw at wireddu'r cynigion gwella. Mae'r maes gwaith hwn hefyd o dan ofal y Pwyllgor Craffu Gofal.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella yn cael ei nodi "ar waith".

11. Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16 -

Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Awst 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol trwy: ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth; alinio strategaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig; datblygu cynlluniau arbedion amlflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig; categoreiddio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol.
2. Dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisiau cynhyrchu incwm a chodi tâl corfforaethol.
3. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith a'r defnydd o'r rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
4. Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
5. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny trwy gydol y flwyddyn.

6. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Fel ymateb i gynnig 1 uchod, cyflwynwyd adroddiadau i gyfarfod o'r Cyngor ar 2 Mawrth 2017, ac mae'r adroddiad a chofnod o'r penderfyniad, sef eitem 11 ar yr agenda, i'w weld [yma](#). Mae eitem 7 ar agenda cyfarfod y Cabinet ar 18 Gorffennaf 2017 hefyd yn berthnasol, ac mae'r cyswllt i'r adroddiad a'r cofnod [yma](#).

Fel ymateb i gynnig 2 uchod, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Gorffennaf 2017, ac mae'r adroddiad a chofnod o'r penderfyniad, sef eitem 8 ar yr agenda, i'w weld [yma](#).

Fel ymateb i gynnig 3 uchod, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Mehefin 2015, ac mae'r adroddiad a chofnod o'r penderfyniad, sef eitem 13 ar yr agenda, i'w weld [yma](#).

Fel ymateb i gynnig 4 uchod, mae dangosyddion perfformiad i'w gweld yn adroddiadau perfformiad yr Aelod Cabinet Cyllid sy'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet.

Fel ymateb i gynnigion 5 a 6 uchod, rydym fel Cyngor yn ymateb i adroddiad mwy diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru *Cynllunio Arbedion – Cyngor Gwynedd* gyhoeddwyd fis Mawrth 2017. Mae manylion pellach am ein hymateb i'w weld o dan bennawd 20 isod, ond mae'r gwaith i wireddu'r cynnig cychwynnol uchod wedi ei gwblhau.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1, 3, 4, 5 a 6 yn cael eu nodi "wedi'i gwblhau", a chynnig gwella 2 "ar waith".

12. Rheoli asedau [Tir ac Adeiladau] – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwy Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai'r Cyngor arwain y blaen drwy ailagor trafodaethau â phartneriaid lleol a rhanbarthol ynghylch datblygu dull systematig o gynllunio asedau ar y cyd, gan gynnwys cyfleoedd i: gytuno ar systemau rheoli perfformiad ar y cyd, a'u defnyddio; sefydlu cyrff darparu gwasanaethau eiddo ar y cyd; sefydlu cyrff dal eiddo ar y cyd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn dilyn derbyn yr argymhelliad yma bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd a Môn) sefydlu ffrwd gwaith Asedau Eiddo a gofyn i'r Gwasanaeth Tân arwain ar y gwaith. Mae'r gwaith hwnnw wedi bod yn mynd rhagddo ac mae'r Cyngor wrth gwrs yn cyfrannu. Nid oes cynnydd mawr na chasgliadau clir o'r gwaith hyd yma.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi fel un "ar waith".

13. **Adolygiad Technoleg Gwybodaeth** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

- 1 Adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Llywodraethu TG i sicrhau ei fod yn effeithiol o ran cytuno ar flaenoriaethau a gwneud argymhellion i'r uwch-reolwyr a'r Aelodau. Yn ogystal, mae angen i'r grŵp sicrhau cysondeb o ran: y model blaenoriaethu prosiectau TG; paratoi achosion busnes ar gyfer pob prosiect TG; adolygu pob prosiect TG ar ôl ei roi ar waith; defnyddio'r dull rheoli prosiectau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer pob prosiect TG mawr.
2. Codi proffil y Grŵp Llywodraethu TG i sicrhau ei fod yn cwrdd yn rheolaidd a'i fod yn cyhoeddi ei agendâu, ei gofnodion a'i gamau gweithredu / argymhellion.
3. Sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r Strategaeth TG newydd yn cynyddu ar draws y Cyngor.
4. Gwella perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y Strategaeth TG ar draws y Gwasanaeth TGCh drwy sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng cynlluniau gwasanaeth ac arfarniadau unigol a'r strategaeth.
5. Darparu diweddariadau rheolaidd am hynt y Strategaeth TG i'r uwch-reolwyr a'r Aelodau.
6. Llunio Cynllun Gwasanaeth TGCh cynhwysfawr sy'n cydweddu â'r Strategaeth TG newydd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Llywodraethu TG wedi ei adolygu. Mae rhaglen waith wedi ei chytuno ac mae'r ymateb i'r cynigion

ar waith. Mae hi'n broses gynyddol i godi proffil y grŵp drwy'r Cabinet a'r Uned Rheoli Rhaglen ond mae'r trefniadau ar gyfer y dasg yn eu lle.

Mae'r Rheolwyr Cyfri TG yn codi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth yng nghyfarfodydd rheoli adrannol ar draws y Cyngor, ac yn bwydo ymateb yn ôl i'r tîm TG (cynnig 3 uchod).

Mae darparu diweddariadau rheolaidd ar y Strategaeth yn broses gynyddol drwy gyfarfodydd mesur perfformiad ac adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet. Mae diweddariad ar eitemau unigol yn cael ei rhannu yn y Grŵp Uwch Reolwyr

Mae'r drefn o gynhyrchu a diweddaru rhaglenni gwaith ar gyfer y gwasanaeth TGCh wedi ei gyflwyno yn yr uned ddatblygu, ac rydym yn adrodd arno yng nghyfarfodydd rheoli perfformiad.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 2 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau", a chynigion 1, 3, 4, 5 a 6 fel "ar waith".

14. Diogelwch Cymunedol yng Nghymru - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.
2. Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.
3. Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy: osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol; sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.

- 4 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.
- 5 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth: ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol; cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref parthed strategaeth genedlaethol. Yn y cyfamser, mae cynllun rhanbarthol a lleol mewn lle.

I ateb cynnig 2 uchod, mae'r Bwrdd Rhanbarthol mewn lle. Mae'r Partneriaethau statudol lleol mewn lle ond allwn ni ddim symud yn ein blaenau hyd nes y cawn arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, a than y daw canlyniadau'r adolygiad sydd wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol (3 uchod), mae Cynllun Rhanbarthol yn ei le gyda mesurau perthnasol, ond mae'r gwaith hwn eto'n ddibynnol ar ganlyniadau adolygiad Llywodraeth Cymru.

Mae Asesiad Risg (4 uchod) sy'n berthnasol i Fôn wedi ei gyflwyno i'r Bartneriaeth ar 18 Hydref, a bydd yn ei dro yn cael ei basio ymlaen at Gyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal (5 uchod), gyda'r 'dyddiad cau' ar 27 Hydref. Rydym yn aros am ddadansoddiad o'r canlyniadau, ac unwaith y dânt byddwn wedyn yn cynllunio ar gyfer ymgorffori unrhyw wersi fydd i'w dysgu erbyn 2018/19.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 4 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau", a chynigion 1, 2, 3 a 5 fel "ar waith".

15. **Strategaeth Pobl** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

- 1 Sicrhau perchnogaeth lawn gan yr Aelodau drwy iddynt graffu ar y Strategaeth Pobl a'i chymeradwyo'n ffurfiol.
2. Diweddarau'r holl bolisiâu rheoli pobl a'r canllaw i reolwyr i adlewyrchu'r Strategaeth Pobl newydd.
3. Rhoi cynllun gweithlu corfforaethol cynhwysfawr ar waith.
4. Cyflwyno'r broses gwerthuso newydd i'r holl staff.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mabwysiadwyd y "Cynllun Pobl" yn ffurfiol gan y Cabinet ar 1 Tachwedd, 2016. Adroddir ar gynnydd y ffrydiau gwaith sydd wedi'u blaenoriaethu o fewn y Cynllun i gyfarfodydd herio perfformiad yr Aelod Cabinet (ple bo dau aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn bresennol).

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun sefydlwyd Grwp Prosiect dan arweiniad Rheolwr y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol er mwyn adolygu cynnwys pob elfen o'r amodau gwaith lleol presennol. Mae un o'r Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect gyda'r Uwch Reolwr a'r Pennaeth Adran yn gweithredu fel Uwch-Ddefnyddwyr.

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol yn arwain ar gyflwyno trefniadau cynllunio'r gweithlu cynhwysfawr i'r Cyngor. Ochr yn ochr â hyn mae'r Tîm Ymchwil a Dadansoddeg yn cydweithio'n agos ar gyfer darparu gwybodaeth allweddol am natur y gweithlu presennol.

Cyflwynwyd drefniadau gwerthuso amgen i staff (ar sail gwerthuso parhaus yn hytrach na digwyddiad blynyddol) ar draws y Cyngor. Ar hyn o bryd mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn adnabod y cynnydd a wnaed, a byddwn yn ymgorffori unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y 4 cynnig gwella yn cael eu nodi fel rhai "ar waith".

16. Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Tachwedd 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad cadarn rhyngddynt a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.
2. Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.
3. Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.
4. Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.
5. Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy: adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu; gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion; meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel bo modd gwneud penderfyniadau cadarn.
6. Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Wrth edrych ar gynigion 1, 2 a 6 uchod rydym o'r farn mai materion cenedlaethol ydynt, ac mai ar lefel genedlaethol y mae angen y drafodaeth os am newid y trefniadau presennol. Wedi dweud hynny, mae trefniadau yn eu lle eisoes o fewn Cyngor Gwynedd sy'n ateb y gofynion hyn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynigion 3, 4 a 5 ond mae ein hymateb yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Byddwn yn defnyddio Asesiadau Effaith pan fydd newid o sylwedd mewn taliadau (3), tra ar yr un pryd yn ystyried yr holl opsiynau wrth ystyried ai cwmnïau o'r sector preifat fyddai fwyaf effeithiol wrth gasglu incwm (4).

Mae trefniadau rheoli perfformiad (5) eisoes wedi newid o fewn y Cyngor, ac mae 2 aelod o bwyllgorau craffu yn eistedd i mewn ar gyfarfod herio perfformiad yr Aelodau Cabinet. Yn y pen draw y pwyllgorau craffu sy'n rheoli'r rhaglen graffu, ac mae rôl i'r pwyllgor hwn wneud hynny o fewn y maes cyllid.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1, 2 a 6 yn cael eu nodi "wedi'i gwblhau", a chynigion 3, 4, 5 fel rhai "ar waith".

17. Rheoli Risg - Asesiad sy'n seiliedig ar risg o drefniadau corfforaethol y Cyngor - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Ionawr 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

- 1 Byddai trefniadau rheoli risg y Cyngor yn elwa o: ddatblygu dogfen tracio neu gynhoi risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol; cyflwyno mwy o gysondeb o ran pennu a rheoli risgiau mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i'r Aelodau; rhoi sylw amlycach i'r cysyniad o 'barodrwydd i wynebu risg' yn ei waith rheoli risg; cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau diwygiedig y Cyngor; hyfforddi'r swyddogion a'r Aelodau ynghylch rheoli risg fel rhan o fenter ehangach i godi ymwybyddiaeth.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror 2017:

- Bydd y Grŵp Llywodraethu yn adolygu ein trefniadau;
- Esblygu diwylliant rheoli risg fel nad ydyw'n "ymarferiad ticio bocs";
- Adolygu'r hyfforddiant i swyddogion.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella yn cael ei nodi fel un "ar waith".

18. Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Rhoi cyfle i'r pwyllgorau craffu adolygu a herio achosion busnes newidiadau i wasanaethau mewn ffordd amserol cyn bod y Cabinet yn penderfynu'n derfynol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ers i'r model craffu newydd gael ei fabwysiadu mis Mai 2017, mae'r pwyslais ar hyrwyddo blaen-graffu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau/polisiau a.y.b. Gwelwyd enghreifftiau da o hyn eisoes e.e. newidiadau i'r Gwasanaeth Hamdden.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella yn cael ei nodi fel un "ar waith".

19. Cynllunio Arbedion - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod yr amserlenni cyflawni a geir mewn achosion busnes yn gadarn
2. Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy sefydlu dull mwy corfforaethol o bennu cyfleoedd incwm

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bwriedir gwneud pob ymdrech i sicrhau bod amserlenni cyflawni mewn achosion busnes yn gadarn. Bydd hyn yn fwy ymarferol gyda thoriadau, ond bydd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn mynd yn gynyddol heriol a'r amserlen yn amodol ar sawl ffactor cymhleth (e.e. prosiect Hamdden).

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi ymgynghori yn anffurfiol gyda'r Cabinet a byddwn yn trin / ystyried y ffrydiau incwm allweddol yn gorfforaethol wrth adnabod arbedion newydd erbyn 2018/19 a 2019/20.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y ddau gynnig gwella yn cael eu nodi fel rhai "ar waith".

PWYLLGOR	ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 TACHWEDD 2017
TEITL	ADOLYGU'R CYFANSODDIAD
PWRPAS YR ADRODDIAD	PARATOI ARGYMHELLION I'R CYNGOR LLAWN AR GYFER DIWYGIO'R CYFANSODDIAD
AWDUR	SWYDDOG MONITRO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD A'R ARGYMHELLIAD

Cefndir

1. Mabwysiadwyd y Cyfansoddiad yn ei ffurf bresennol yng Ngorffennaf 2014. Roedd hwn yn ei hun yn newid sylfaenol o safbwynt fformat gan fabwysiadu model cenedlaethol oedd yn gynnwys gwaith gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, CLIC ac yn seiliedig ar fodel a gynhyrchwyd gan gwmni cyfreithwyr Bond Dickinson.
2. Ers ei fabwysiadu mae addasiadau wedi eu gwneud yn eithaf rheolaidd. Mae hyn wedi deillio yn bennaf o newidiadau deddfwriaethol neu ddatblygiadau megis yr adolygiad craffu diweddar. Fodd bynnag wrth ddefnyddio'r Cyfansoddiad newydd mae'n briodol adlewyrchu ar y ddogfen yn ei chyfanrwydd a gweld os oes angen am newidiadau i adlewyrchu gweithdrefnau a phrofiad yr awdurdod.
3. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio. Mae rhai ohonynt yn faterion dod a'r tŷ i drefn neu eglurder ond mae eraill yn awgrymu llwybrau amgen ar gyfer trefniadau penderfynu ac yn y blaen. Mae'r addasiadau penodol yn Atodiad 1.
4. Trafodwyd yr argymhellion gydag Is Grŵp o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac fe nodir eu sylwadau penodol.

Argymhelliad

Argymell i'r Cyngor Llawn addasu'r Cyfansoddiad yn unol â'r adroddiad yn ddarostyngedig fod y diwygiad i Baragraff 9.12.3 yn dod yn weithredol wedi cyfarfod blynyddol y Cyngor yn 2018.

A. Adran 4.7.3- Datganiad Derbyn Swydd - Cadeirydd

5. Mae'r cysyniad o "Swyddog Priodol" yn cael ei ddefnyddio'n helaeth o fewn Deddfwriaeth Llywodraeth Leol I ddynodi cyfrifoldebau penodol. Bwriad y cymal penodol yma yw ffurfioli rôl y Prif Weithredwr yn derbyn y datganiad gerbron y Cyngor Llawn.

B. Adran 4.20.4- Rhybuddion o Gynnig

6. Ar hyn o bryd mae pob rhybudd o gynnig ar gyfer y Cyngor yn cael ei wirio o safbwynt priodoldeb. Yn gyffredinol mae'r ffurf yn dderbyniol ac yn mynd ymlaen heb addasiad. Fodd bynnag mae adegau pan fu angen cytuno addasiad gyda'r cynigydd i sicrhau penderfyniad priodol. Rhaid dwyn mewn cof nad yw Rhybudd o Gynnig yn hepgor yr angen i gydymffurfio a'r Cyfansoddiad na'r gyfraith o safbwynt penderfyniadau. Yn aml mae'r newidiadau o safbwynt materion trefniadaethol e.e. gofyn am benderfyniadau sydd yn gyfrifoldeb Cabinet, geiriad aneglur neu ar ddamcaniaeth ffeithiol anghywir. Bwriad y cymal sydd yn cael ei argymhell yw gosod trefn ffurfiol yn y cyfansoddiad i ymdrin â'r materion yma. Mae hyn yn fwy tryloyw ond mewn gwirionedd nid yw yn newid yr hyn sydd yn digwydd yn ymarferol.

C. 9.12.3- Cadeirydd / Is Gadeirydd - Pwyllgor

7. Mae'n drefn yng Ngwynedd nad yw aelod yn cael Cadeirio mwy nac un pwyllgor. Yn ôl y geiriad presennol nid yw hyn yn ymestyn i Is Gadeiryddiaeth. Oherwydd y modd mae'r cymal wedi ei ddrafftio mae'n aneglur ar hyn o bryd ynglŷn â beth yw arwyddocâd y drefn ar rôl Is Gadeirydd. Er enghraifft golygai hyn mewn meysydd megis Craffu fod yr Is Gadeirydd a'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd megis Fforwm Craffu ac yn cynrychioli'r Pwyllgorau. Mae hefyd yn golygu y gall aelod sydd yn Is Gadeirydd fod yn Cadeirio dau bwyllgor petai'r Cadeirydd ddim ar gael ac os yw yn gyfnod estynedig gall hyn olygu cadeirio de-facto.

Roedd hyn yn ymddangos yn rhesymegol i'r Grŵp yn arbennig wrth nodi fod gan Is Gadeiryddion a Chadeiryddion rolau eithaf gweithredol tu allan i gyfarfodydd Pwyllgorau megis Craffu ac Archwilio. Awgrymwyd fodd bynnag y dylai'r drefn yma ddod yn weithredol wedi'r cyfarfod blynyddol er sefydlogrwydd y trefniadau presennol.

CH. 11.3.6 – Swyddog Priodol Mynediad i Wybodaeth

8. Newid hollol ymarferol gan nad oes gan y Swyddog Monitro rôl yn paratoi cofnodion dylai hyn fod ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

14.12 Eithrio'r Cyhoedd - Eitemau Eithriedig

9. Yn ôl y cyfansoddiad newydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad a yw mater sydd i fynd ar raglen cyfarfod yn eithriedig ai pheidio. Yn ymarferol mae mewnbwn sylweddol iawn gan y Swyddog Monitro i'r penderfyniad yma ac felly ystyrir ei bod yn well trefniant fod hyn yn cael ei ffurfioli drwy newid y cymal a gosod y penderfyniad yn ei ddwylo.

D. 14.15.2 – Penderfyniadau Cabinet ac Aelodau Cabinet a Brys

10. Mae'r newid cyntaf yn hollol ymarferol gan nad oes gan y Prif Weithredwr rôl uniongyrchol yn paratoi cofnodion dylai hyn fod ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.
11. Mae darpariaeth ar gyfer penderfyniadau brys gan y Cabinet yn eithrio'r drefn galw i mewn i graffu. Mae gweithredu hyn angen cyd syniad Cadeirydd y Cyngor.. Mae trefn gyffelyb ar gael ynglŷn â phenderfyniadau aelodau unigol o'r Cabinet ond nid yw'r cymal yn ffurfiol hepgor y drefn galw i mewn i graffu. Os oes cyfiawnhad ar gyfer gweithredu ar frys yna mae'n synhwyrol cael darpariaeth gyffelyb. . Byddai penderfyniad o'r fath angen cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol. Roedd y Grŵp yn cytuno a'r bwriad.

DD. 15.3.4 – 5 Y Gyllideb

12. Mae gofyn cyfreithiol ar y Cyngor i fabwysiadu Cyllideb hafal. Yn ogystal wrth ddod i unrhyw benderfyniad rhaid gwneud hynny mewn modd sydd yn cloriannu'r materion perthnasol ac anwybyddu'r hyn sydd yn amherthnasol, rheol Wednesbury. Mae hyn yn ofyn ynglŷn ag unrhyw welliant a gynigir ac felly mae cynnig gwelliant i'r Gyllideb yn fater heriol sydd angen ystyriaeth gofalus a manwl.
13. Mae rhag paratoi eang ar y Gyllideb sydd yn caniatáu i aelodau gael gwybodaeth fanwl am y bwriad a'r ystyriaethau. Gosodir y Gyllideb gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac argymhellir y Gyllideb gan y Cabinet. Felly, mae gwybodaeth ynglŷn â'r Gyllideb arfaethedig ar gael ers peth amser cyn y cyfarfod y Cyngor.
14. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfundrefn yn bodoli ynglŷn â chynnig gwelliannau i'r gyllideb yn y Cyngor. Os nad yw aelodau yn rhag ymgynghori ar eu bwriad mae dau broblem sylfaenol:

(a) Y canlyniad cyfredol yw gwelliannau nad ydynt yn gallu dangos cyllideb hafal ac felly yn anghyfreithlon.

(b) Yr ail oblygiad posib yw gwelliant nad oes modd ymarferol ei ddyfarnu yn briodol yn y fan a'r lle.

Argymhellir felly gosod darpariaeth yn y Cyfansoddiad sydd ar yr un llaw yn creu cyfundrefn i gefnogi gallu aelodau i ymateb i'r gyllideb ond ar y llaw arall yn golygu fod y Prif Swyddog Cyllid yn benodol yn cael cyfle i ymateb a chynghori ar y gwelliant.

15. Roedd y Grŵp o'r farn ei fod yn bwysig nodi mai rhybudd o fwriad oedd yma fyddai'n annog aelodau i geisio arweiniad ymlaen llaw os am gynnig gwelliant ac nid fel llyffethair are u hawliau. Roedd cydnabyddiaeth fod gwelliant i addasu'r gyllideb yn gofyn am waith paratoi manwl. Nodwyd fod paratoi'r gyllideb yn digwydd drwy ymgynghoriadau gydag aelodau beth bynnag. Felly erbyn cyflwyno i'r Cyngor dylai fod gan aelod ddealltwriaeth dda o'r cyfeiriad a'r cyd-destun.

E. TREFNIADAU CRAFFU

16. Argymhellir man newidiadau dod a thŷ i drefn yn sgil yr adolygiad craffu.

ATODIAD 1.

<p>A.4.7.3</p>	<p><u>Cadeirio'r Cyngor</u></p> <p>(a) Bydd y Cynghorydd a etholir yn flynyddol gan y Cyngor fel ei gadeirydd yn cael ei alw'n "Gadeirydd".</p> <p>(b) Bydd y Cadeirydd yn peidio â bod yn Gadeirydd os yw'n ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo trwy bleidlais gan y Cyngor Llawn, yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor, neu'n methu â gweithredu fel Aelod o'r Cyngor. Bydd yn parhau i weithredu fel Cadeirydd ar ôl etholiad nes bod ei olynydd wedi'i benodi.</p> <p>(c) <u>Y Prif Weithredwr fydd y Swyddog Priodol gerbron y sawl y bydd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn gwneud datganiad derbyn swydd yn unol ag Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972</u></p>	<p>A. 4.7.3</p>	<p><u>Chairing the Council</u></p> <p>(a) The Councillor elected annually by the Council as its chair will be called the "Chair".</p> <p>(b) The Chair will cease to be Chair if they resign, are dismissed by a vote of Full Council, cease to be a Member of the Council, or are unable to act as a Member of the Council. They continue to act as Chair after an election until their successor has been appointed.</p> <p>(c) <u>The Chief Executive shall be the Proper Officer before whom the Chairman and vice Chairman will make their declaration of acceptance of Office in accordance with Section 83 of the Local Government Act 1972</u></p>
<p>B. 4.20.4</p>	<p><u>Rhybudd o Gynnig -Priodoldeb</u></p> <p>(i) Pe rhoddir rhybudd o gynnig sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn anghyfreithlon, allan o drefn, neu yn amhriodol bydd y Swyddog Monitro yn hysbysu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn syth ac ni osodir y cynnig ar y rhaglen heb eu caniatâd, Pe gwneir hyn hysbysir yr aelod a gyflwynodd y rhybudd gan y Swyddog Monitro o'r penderfyniad. Petai modd diwygio'r cynnig er ei wneud yn briodol yna cynghorir yr aelod a'i gyflwynodd o hyn a chaiff gyfle i addasu'r rhybudd o gynnig.</p>	<p>B.4.20.4</p>	<p><u>Notice of Motion - Propriety</u></p> <p>(i) if notice is given of any motion that is, in the opinion of the Monitoring Officer, illegal, irregular or improper the Monitoring Officer shall immediately inform the Chairman and the Chief Executive and it shall not be placed on the agenda without their sanction. In this case the Monitoring Officer shall inform the member giving notice. If the motion can be amended so as to render it appropriate then the member giving notice shall be advised of this and given an opportunity to amend the notice of motion.</p>

	(ii) Er gwaethaf (i) osodir rhybuddion o gynnig ar y rhaglen a fyddai o'u mabwysiadu ym marn y Swyddog Monitro yn golygu penderfyniad anghyfreithiol neu arwain at gamweinyddu fel y'i diffinnir yn Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.		(ii) Notwithstanding (i) a notice of motion which, in the opinion of the Monitoring Officer would on being adopted mean an illegal decision or lead to maladministration as defined in Section 5 of The Local Government and Housing Act 1989 shall not be placed on the agenda.
C.9.12.3	<p>Cadeirio pwyllgorau ac is-bwyllgorau</p> <p>(5) Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd <u>neu is-gadeirydd</u> mwy nag un pwyllgor. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro aelod sy'n gadeirydd <u>neu is gadeirydd</u> pwyllgor rhag cymryd y gadair mewn pwyllgor dan baragraff (2), na rhag gwasanaethu fel cadeirydd neu is gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu Canolog a Thrwyddedu Cyffredinol ar yr un pryd.</p> <p>(6)(i) Ni chaniateir i aelod ddal swydd <u>cadeirydd neu is-gadeirydd</u> pwyllgor penodol am gyfnod o fwy na dwy flynedd ac eithrio aelod sydd wedi dal swydd fel cadeirydd yn ystod y cyfnod o flwyddyn ers y cyfarfod cyntaf ar ôl y Cyngor blynyddol blaenorol.</p> <p>(ii) Ni chaiff aelod a fu'n dal swydd cadeirydd pwyllgor penodol ers y cyfnod y cyfeirir ato o dan yr is-baragraff blaenorol ddal swydd is-gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn ystod y flwyddyn ar ôl terfyniad ei swydd oni bai nad oedd y person hwnnw wedi dal swydd y Cadeirydd am y cyfnod hiraf a ganiateir o dan baragraff (6)(i) uchod. Gall ddal y swydd am gyfnod o flwyddyn ac fe'i cyfyngir i un eithriad yn unig.</p>	C.9.12.3	<p>Chairing of committees and sub-committees</p> <p>(5) No member shall serve as a chairman <u>or vice chairman</u> of more than one committee. This provision shall not prevent a member who is a chairman <u>or the vice chairman</u> of a committee from taking the chair of a committee under paragraph (2), nor from serving as the chairman <u>or vice chairman</u> of the Central Licencing Committee and the General Licencing Committee at the same time..</p> <p>(6)(i) No member shall be permitted to hold office as chairman <u>or vice-chairman</u> of a committee for a period exceeding two years, with the exception of a member who has been in office as a chairman during the period of one year since the first meeting after the previous annual Council.</p> <p>(ii) A member who has held the office of chairman of a particular committee for the period referred to under the previous sub-paragraph cannot hold the office of vice-chairman of that committee during the year following the termination of his/her office, unless such person has not held the office of Chairman for the maximum period permitted under paragraph 6(i) above. The Office may be held for a period of one year and will be limited to one exception only.</p>
CH.11.3.6	Swyddog Priodol ar gyfer Mynediad at Wybodaeth	CH.11.3.6	Proper Officer for Access to Information

	Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, ac adroddiadau gan Swyddogion Perthnasol a phapurau cefndir ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl.		The Monitoring Officer will ensure that Executive decisions, together with the reasons for those decisions and relevant Officer reports and background papers are made publicly available as soon as possible
CH. 14.12	<p><u>Gwahardd y Cyhoedd Rhag Cael Mynediad at Adroddiadau</u></p> <p>Os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd Swyddog Monitro yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff y Cyngor wahardd y cyhoedd rhag cael mynediad at adroddiadau sydd, yn ei farn ef/ei barn hi, yn ymwneud ag eitemau pryd, yn unol â Rheol 14.10, y mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu marcio â'r geiriau "Nid i'w Gyhoeddi", ynghyd â chategori'r wybodaeth sy'n debygol o gael ei datgelu ac, os yw'n berthnasol, pam yr ystyrir ei bod er budd y cyhoedd i beidio â datgelu'r wybodaeth.</p>	CH. 14.12	<p><u>Exclusion of Access by the Public to Reports</u></p> <p>If the Head of Democratic Services Monitoring Officer thinks fit, the Council may exclude access by the public to reports which, in his or her opinion, relate to items during which, in accordance with Rule 14.10, the meeting is likely not to be open to the public. Such reports will be marked "Not for Publication", together with the category of information likely to be disclosed and if applicable, why it is in the public interest it is considered that the information should not be disclosed.</p>
D.14.15.2	<p><u>Paratoi'r Cofnod Penderfyniadau</u></p> <p>(a) Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd ef/hi yn mynychu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet, un o Bwyllgorau'r Cabinet neu Gydbwyllgor neu Is-gydbwyllgor lle y mae ei holl Aelodau yn Aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol, a bydd yn llunio cofnod penderfyniadau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod.</p> <p>(b) Pan fydd Aelod unigol o'r Cabinet wedi gwneud Penderfyniad Gweithredol:</p> <p>(i) bydd yr Aelod hwnnw/honno, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn cyfarwyddo'r Prif Weithredwr-Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd i lunio cofnod</p>	D. 14.15.2	<p><u>Preparing the Decision Record</u></p> <p>(a) The Head of Democratic Services or his or her representative shall attend any meeting of the Cabinet, a Committee of the Cabinet or a Joint Committee or joint Sub-Committee where all its Members are Members of a local authority executive, and shall, as soon as reasonably practicable after the meeting, produce a decision record.</p> <p>(b) Where an individual Cabinet Member has made any Executive Decision:</p> <p>(i) that Member shall as soon as reasonably practicable instruct the Chief Executive <u>Head of Democratic Services</u></p>

	<p>penderyniadau; ac</p> <p>(ii) ni fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu hyd nes y bydd y cofnod penderfyniadau hwnnw wedi'i lunio, yn amodol ar baragraff (c) isod.</p> <p>(c) Pan fydd y dyddiad y mae'n rhaid i Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet gael ei weithredu erbyn yn golygu bod cydymffurfio â 14.15.2(b) uchod yn anymarferol, gellir gweithredu'r penderfyniad os yw'r penderfynwr wedi cael cytundeb</p> <p>(i) Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol; neu</p> <p>(ii) os nad oes unigolyn o'r fath neu os nad yw'r unigolyn hwnnw/honno'n gallu gweithredu, y Cadeirydd; neu</p> <p>(iii) os nad oes unrhyw un o'r uchod, yna'r Is-gadeirydd,</p> <p><u>bod angen gwneud y penderfyniad ar frys ac nad yw'n rhesymol ei ohirio. Ni fydd y weithdrefn galw i mewn yn Adran 7.25 yn berthnasol yn yr amgylchiadau yma.</u></p>		<p>to produce a decision record; and</p> <p>(ii) the decision shall not be implemented until that decision record has been produced, subject to paragraph (c) below.</p> <p>(c) Where the date by which an Executive Decision made by an individual Cabinet Member must be implemented makes compliance with 14.15.2 (b) above impracticable, the decision may be implemented if the decision maker has the agreement of</p> <p>(i) the Chair of the relevant Scrutiny Committees; or</p> <p>(ii) if there is no such person or that person is unable to act, the Chair; or</p> <p>(ii) if there is none of the above then the Vice Chair,</p> <p><u>that the making of the decision is urgent and cannot reasonably be deferred. The call in procedure in Section 7.25 will not apply in these circumstances.</u></p>
DD.15.3.4	<p>Y Gyllideb</p> <p>Yn syth wedi cyfarfod y Cabinet fe anofnir copi o'r cynnigion sydd i'w argymhell i'r Cyngor ynghyd a chopi o'r gyllideb arfaethedig i bob aelod o'r Cyngor.</p>	DD. 15.3.4	<p>Y Gyllideb</p> <p>Immediately after the Cabinet meeting a copy of the proposals which are to be recommended to the Council together with a copy of the proposed Budget shall be sent to all members of the Council.</p>
15.3.5	<p>Ni chaiff y Cyngor ystyried unrhyw welliant i gynigion y Cabinet sydd i'w cynnig gan Aelod yng nghyfarfod y</p>	15.3.5	<p>An amendment to the Budget to be proposed by a Member may not be considered at a Council meeting</p>

	<p>Cyngor, oni bai y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig neu drwy ohebiaeth electroneg o eiriad arfaethedig y gwelliant wedi ei lofnodi gan y cynigydd i'r <u>Pennaeth Cyllid</u>, o leiaf dau ddiwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor. Ni fydd gwelliant o'r fath ond yn dderbyniol os yw'n cynnig cyllideb sy'n balansio incwm cyffredinol gyda gwariant am y flwyddyn. Gall ef/hi hefyd gyflwyno adroddiad</p>		<p>unless at least 2 clear days' notice in writing or by electronic mail of the proposed wording, signed by the proposer has been given to the Head of Finance. Such an amendment will only be acceptable if it proposes a budget which balances general income with expenditure for the year. He/She may present a report.</p>
<p>15.3.5 Amgen</p>	<p><i>Ni chaiff y Cyngor ystyried unrhyw welliant i gynigion y Cabinet sydd i'w cynnig gan Aelodau yng nghyfarfod y Cyngor, onibai y gall y cynigydd dangos i fodlonrwydd y Prif Swyddog Cyllid fod y gwelliant yn cynnig cyllideb sy'n balansio incwm cyffredinol gyda gwariant am y flwyddyn.</i></p>	<p>15.3.5 Alternative</p>	<p><i>An amendment to the Budget to be proposed by a Member may not be considered at a Council meeting unless it can be demonstrated by the proposer to the satisfaction of the Head of Finance that the amendment proposes a budget which balances general income with expenditure for the year.</i></p>

E. 7.3	Pwyllgor Craffu Cymunedau		E. 7.3	Communities Scrutiny Committee	
	Pwyllgor ac Aelodaeth	Rôl a Chwmpas		Committee and Membership	Role and Scope
	Pwyllgor Craffu Cymunedau 18 Aelod	Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis: <ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd • Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol • Gwastraff ac Ail Gylchu • Lleihau ôl-troed Carbon • Cynllun Datblygu Lleol • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus • Gwasanaethau i Gwsmeriaid 		Communities Scrutiny Committee 18 members	To scrutinise matters relating to services for the wider community such as: <ul style="list-style-type: none"> • Environment • Transportation and Community Transport • <u>Waste and Re-Cycling</u> • Carbon Footprint Reduction • Local Development Plan • Public Services Board • Customer Services

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU	AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE
<p>(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth <u>a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau'r adroddiadau.</u></p> <p>(v) adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd gweithlu <u>a'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth..</u></p>	<p>(i) to consider observations and concerns on individual services at a county level, on the basis of reports by Council officers, the Audit Commission or the District Auditor <u>and monitor the response and actions on the recommendations and findings.</u></p> <p>(ii) Review and scrutinise matters relating to the councils internal operation such as corporate strategies, partnerships, engagement, business transformation and workforce efficiency arrangements <u>and the functions carried out by the Finance Department, Corporate Support Department and Leadership team.</u></p>

Eitem 13

PWYLLGOR

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD

30 TACHWEDD 2017

TEITL

ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD DEWISOL

PWRPAS YR ADRODDIAD

GOFYN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU YSTYRIED BARN Y GWEITHGOR A SEFYDLWYD I YMCHWILIO I AC ADOLYGU POLISI'R CYNGOR AR GANIATAU RHYDDHAD DEWISOL

AWDUR

DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG

GWEITHREDIAD

YSTYRIED ARGYMHELLION Y GWEITHGOR, EU HADDASU FEL BO'R ANGEN, A'U CYFLWYNO I'R AELOD CABINET CYLLID I'W HYSTYRIED PAN YN SEFYDLU FFRAMWAITH NEWYDD

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2017, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i sefydlu Gweithgor i ymchwilio i Bolisi'r Cyngor ar ganiatáu rhyddhad dewisol. Aelodau'r Gweithgor oedd y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, yn ogystal â'r Cyngorwyr Huw Gruffydd Wyn Jones, Aled Wyn Jones, Angela Russell a Dewi Wyn Roberts. Roedd yr Aelod Cabinet Cyllid hefyd i fynychu cyfarfodydd y Gweithgor.
- 1.2 Mae'r adroddiad yma yn hysbysu'r Pwyllgor llawn o drafodaethau'r Gweithgor, ac yn amlinellu ei argymhellion wrth lunio fframwaith bolisi newydd ar gyfer y Cyngor.

2. CEFNDIR

- 2.1 Nodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor fod polisi cyfredol y Cyngor ar gyfer caniatáu rhyddhad dewisol i dalwyr ardrethi annomestig wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn, ac wedi derbyn mân addasiadau yn unig ers hynny. Nodwyd ei bod yn amserol i'r Cyngor i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi Rhyddhad Dewisol nid yn unig er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas yn sgil newidiadau deddfwriaethol, ond hefyd i ystyried os yw'r rhyddhad y mae'r Cyngor yn ei ganiatáu wedi ei anelu i'r manau cywir ac yn fforddiadwy yng ngŵydd yr angen parhaus i ddarganfod arbedion.
- 2.2 Mae'r adroddiad ac atodiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 28 Medi i'w cael ar hyd y dolenni isod:
Adroddiad:
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s13453/Ardrethi%20Annomestig%20Rhyddhad%20Dewisol.pdf?LLL=1>
Atodiad:
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s13454/Atodiad.pdf?LLL=1>
- 2.3 Rôl casglwr trethi sydd gan y Cyngor mewn perthynas ag ardrethi annomestig. Mae'r Cyngor, yn ei rôl fel "awdurdod bilio", yn caglu trethi busnes ac yn talu'r swm drosodd i Pŵl Ardrethi Annomestig Cenedlaethol Cymru, gyda'r Cyngor wedyn yn derbyn cyfran o gyfanswm y pŵl yn ôl gan Lywodraeth Cymru.

- 2.4 Er fod sawl math o ryddhad trethi busnes ar gael (e.e. rhyddhad busnesau bychain, rhyddhad eiddo gwag), roedd cwmpas y Gweithgor yn canolbwyntio yn benodol ar y rhyddhad dewisol y mae'r Cyngor yn ei ganiatáu i gyrff penodol. Mae gan gyrff elusennol neu gyrff sy'n elusennol eu natur, a Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC), hawl dan Adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i dalu 20% yn unig o'r hyn a fyddai'n daladwy ar eu heiddo pe na baent yn gyrff o'r fath. Er na ddefnyddir y geiriad yn y Ddeddf, gelwir y rhyddhad yma o 80% yn "Ryddhad Mandadol".
- 2.5 Gan fod y rhyddhad mandadol yma yn cael ei ganiatáu trwy ddeddfwriaeth, a fod y Pŵl Cenedlaethol yn ariannu'r rhyddhad yma'n llawn, nid oedd sgôp i'r Gweithgor roi ystyriaeth pellach i'r rhyddhad mandadol a ganiateir.
- 2.6 Fodd bynnag, mae'r polisi cyfredol yn caniatáu i rai cyrff sydd yn derbyn rhyddhad mandadol o 80% dderbyn rhyddhad dewisol pellach o hyd at 20%, fel nad ydynt yn talu unrhyw drethi busnes. Pan wneir hyn, mae rheoliadau yn golygu fod y Cyngor yn talu 75% o gost y rhyddhad ychwanegol yn achos cyrff elusennol, a 10% o gost y rhyddhad ychwanegol yn achos CASCau.
- 2.7 Mae'r polisi cyfredol hefyd yn caniatáu i'r Cyngor roi rhyddhad dewisol – o hyd at 100% - i gyrff nad ydynt yn gymwys i dderbyn ryddhad mandadol. Mae'r Cyngor yn talu 10% o gost y rhyddhad dewisol yma os ydi'r corff sy'n ei dderbyn yn syrthio i mewn i un o'r categorïau canlynol:
- Corff sydd ddim am elw, gydag amcanion elusennol **neu** sy'n ddyngarol **neu** grefyddol **neu'n** ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain
 - Corff sydd ddim am elw, ac yn ymwneud â hamdden.
- 2.8 Dylid nodi fod y Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r Cyngor roi rhyddhad dewisol i unrhyw drethdalwr arall, ond yn yr amgylchiadau hynny byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu 100% o gost y rhyddhad, a gallu profi fod y rhyddhad er lles drethdalwyr Gwynedd. Ni fwriedir defnyddio'r grym yma ac felly nid oedd o fewn sgôp gwaith y Gweithgor.

3. GWAITH Y GWEITHGOR

- 3.1 Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Gweithgor Ymchwil Rhyddhad Trethi, ar 12 Hydref ac 14 Tachwedd.
- 3.2 Lle roedd y drafodaeth yn ymwneud ag elusen neu weithgaredd oedd yn ymwneud â maes ble roedd aelod o'r Gweithgor wedi nodi diddordeb gan eu bod yn derbyn tâl gan gorff perthnasol, roedd yr aelod yn datgan diddordeb ac yn ymneilltuo o'r drafodaeth.
- 3.3 Yng nghyfarfod 12 Hydref, rhoddwyd cyflwyniad ar y cefndir deddfwriaethol yn gyntaf, sef y rhannau perthnasol o Ddeddf 1988 a Rheoliadau cysylltiedig. Nodwyd fod cost unrhyw ryddhad dewisol yn cael ei rannu rhwng y Pŵl Trethi Annomestig Cenedlaethol a'r awdurdod lleol, yn ddibynnol ar natur y corff a'r defnydd a wneir o'r eiddo.
- 3.4 Eglurwyd fod y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Rhyddhad Elusennol, ond ei fod bellach yn amserol i'w adolygu. Er mwyn ystyried y trefniadau mewn ffordd systematig, penderfynodd y Grŵp ddefnyddio categorïau'r fframwaith gyfredol fel canllaw, gan nodi un o dri dewis:
- Parhau gyda'r un lefel o ryddhad ag ar hyn o bryd
 - Newid y rhyddhad dewisol a roddir
 - Rhoi ystyriaeth bellach yn y cyfarfod dilynol ar 14 Tachwedd.

3.5 Yng nghyfarfod 14 Tachwedd, cyflwynwyd y manylion ychwanegol y gwnaethpwyd cais amdano yn y cyfarfod blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys manylion o natur yr eiddo sydd yn derbyn rhyddhad ar hyn o bryd yn y gwahanol gategoriâu, a rhoddwyd ystyriaeth penodol os oedd y rhyddhad dewisol a ganiateir ar hyn o bryd yn arddangos tegwch a defnydd priodol o adnoddau'r Cyngor.

3.6 Mae'r Atodiad yn cynnwys y fframwaith gyfredol, gyda barn y Gweithgor wedi ei nodi arno.

4. CASGLIADAU'R GWEITHGOR

4.1 Yn y mwyafrif o achosion, gwelir fod y Gweithgor o'r farn y dylid parhau gyda'r drefn gyfredol. Fodd bynnag, roedd y Gweithgor o'r farn fod angen gwneud y newidiadau canlynol:

4.2 **Categori 5 – Mudiadau o Ddiddordeb Arbennig i Rai.** Roedd y Gweithgor o'r farn y dylid ychwanegu is-gategori newydd sef 5(c), cyrff o'r fath sydd wedi cael eu cofrestru'n elusen (ac felly'n gymwys i ryddhad mandadol o 80%), ond heb gysylltiadau lleol. Hynny yw, er fod yr elusen yn gyfrifol am dreth annomestig eiddo o fewn Gwynedd, nid yw'n ymddangos fod y mudiad yn gwasanaethu trigolion y sir. Ni ddylai eiddo yng nghategori 5(c) dderbyn rhyddhad dewisol ychwanegol.

4.3 **Categori 9 – Siopau Elusennol.** Ar hyn o bryd, caniateir rhyddhad dewisol ychwanegol o 20% i siopau elusen os nad ydynt yn gwerthu "stoc newydd" na "nwyddau wedi'u prynu i fewn", gyda rhyddhad mandadol yn unig yn cael ei ganiatáu i siopau elusennol sy'n gwerthu "stoc newydd" neu "nwyddau wedi'u prynu". Ar hyn o bryd, mae 50 siop yn cael rhyddhad ychwanegol, a nid oes yr un siop yn derbyn rhyddhad mandadol yn unig. Mae hynny yn awgrymu, felly, nad oes yr un siop elusen o fewn Gwynedd yn gwerthu nwyddau newydd. Rhag camddealltwriaeth, ac osgoi sefyllfa lle byddai gwerthu ychydig o nwyddau newydd megis cardiau Nadolig yn atal siop rhag cael rhyddhad ychwanegol, roedd y Gweithgor o'r farn y dylid newid y diffiniad i egluro fod rhyddhad dewisol o 20% i'w ganiatáu i siopau elusennol lle mae mwyafrif y deunydd a werthir wedi eu rhoddi i'r elusen i'w gwerthu ymlaen.

4.4 **Categori 10 – Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Categori 12 – Eiddo'r RSPCA / RSPB.** Nid oedd y Gweithgor yn gweld pa reswm sy'n bodoli bellach i gyfiawnhau fod yr elusennau cenedlaethol hyn yn haeddu ymdriniaeth wahanol i elusennau eraill, gan derbyn rhyddhad dewisol ychwanegol o 20% ar unrhyw eiddo yn eu meddiant yn ddiodyfyn. Casgliad y Gweithgor oedd y dylid trin yr elusennau hyn fel pawb arall, gan ystyried rhyddhad dewisol ar eiddo unigol yn unol â'i haeddiant (e.e. gellid caniatáu rhyddhad i eiddo addysgiadol, ond ddim i swyddfeydd neu gynlluniau hydro).

4.5 **Categori 11 – Eiddo Hamdden a Reolir gan Fudiadau Elusennol Cofrestredig Cenedlaethol.** Hosteli sy'n cael eu rhedeg gan gyrff megis yr YHA, neu gan elusennau er lles unigolion o ardaloedd daearyddol penodol yw nifer o'r eiddo sydd yn y categori yma. Gan fod yr eiddo yn y categori yma yn ymwneud ag eiddo a reolir gan fudiadau elusennol cofrestredig, maent yn gymwys am ryddhad mandadol o 80%. Mae'r polisi cyfredol yn caniatáu rhyddhad dewisol ychwanegol o 20% i Hostelaau Hamdden heb bar (neu weithgaredd masnachol arall), ond dim rhyddhad ychwanegol i ganolfan Hamdden gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall). Barn y Gweithgor oedd fod y diffiniadau hyn wedi dyddio bellach, ac y dylid defnyddio "defnydd gan drigolion Gwynedd" fel y mesur i benderfynu os byddai rhyddhad dewisol yn briodol neu beidio, nid presenoldeb bar neu weithgaredd masnachol.

- 4.6 **Categori 13 – Swyddfeydd Cymdeithasau Tai.** Barn y Gweithgor oedd fod sefyllfa ariannol gymharol y Cymdeithasau Tai a'r Cyngor wedi newid yn sylweddol ers mabwysiadu'r polisi cyfredol, ac nad oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio cyllidebau'r Cyngor i roi cymorth i'r Cymdeithasau Tai erbyn hyn. Serch hynny, roedd y Gweithgor yn awyddus i barhau i ganiatáu rhyddhad dewisol ychwanegol i eiddo ar ystâd o dai sydd wedi cael ei drosi yn swyddfa yn benodol er budd trigolion yr ystâd hwnnw.
- 4.7 **Categori 14 – Clybiau Chwaraeon Amatur / Hamdden e.e. Clwb Rygbi, Golff ayyb.** Ar hyn o bryd, mae'r categori yma wedi cael ei rannu yn dri, yn amrywio ar sail aelodaeth lleol, elw'r clwb ayyb. Yn ogystal â'r angen i ddiweddarau'r categori yma i adlewyrchu newidiadau yn y ddeddf gyda dyfodiad Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC), roedd y Grŵp o'r farn fod Categori 14 angen ei symleiddio, gan gyfuno'r gwahanol is-gategorïau. Mae gan CASCa'u eu categori eu hunain, sef Categori 17.
- 4.8 **Categori 15 – Corff Sydd heb ei Gofrestru'n Elusen ond sy'n Elusennol ei Natur.** Roedd y Gweithgor o'r farn fod angen parhau i gael categori o'r fath yma, ac er nad oes cost ariannol i'r Cyngor (dim ond rhyddhad mandadol a ganiateir), byddai'n briodol cael cymeradwyaeth yr Aelod Cabinet ym mhob achos er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder.

4.9 Sefyllfa Ariannol

Yn ogystal â natur defnydd yr eiddo, roedd y Gweithgor yn awyddus i fframwaith newydd roi ystyriaeth gor-redol i sefyllfa ariannol elusennau ac yn awyddus i'r Adran Gyllid edrych i mewn i ymarferoldeb gosod llawr a nenfwd ar y cymorth a roddir trwy'r drefn rhyddhad dewisol:

- Lle mae'r fframwaith yn datgan nad yw rhyddhad dewisol ychwanegol ar gael i gorff elusennol sy'n derbyn rhyddhad mandadol, dylid ystyried sefyllfa ariannol yr elusen, a caniatáu'r rhyddhad ychwanegol mewn sefyllfa lle byddai'r elusen yn dioddef pe na baent yn dderbyn y rhyddhad ychwanegol.
- Rodd y Gweithgor yn awyddus i'r Adran Cyllid ystyried sut i gynnal asesiad ariannol o'r cyrff elusennol sydd yn derbyn rhyddhad dewisol ychwanegol yn unol â'r fframwaith, ac atal y rhyddhad ychwanegol os oes gan y corff hwnnw ddigon o incwm a/neu reserfau i dalu 20% o'r dreth annomestig ar eu heiddo. Byddai hyn yn golygu fod adnoddau ar gael i gefnogi cyrff elusennol mwy anghenus, yn ogystal ag arbed arian i'r Cyngor a'r Pŵl Cenedlaethol.

5. CAMAU NESAF

- 5.1 Y Cabinet sydd â'r cyfrifoldeb dros fabwysiadu Fframwaith Bolisi newydd.
- 5.2 Yn unol â Rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Dewisol) 1989 (1989/1059), rhaid rhoi o leiaf blwyddyn o rybudd pan mae rhyddhad dewisol yn cael ei diddymu neu ei leihau, a gall y diddymiad neu addasiad ond digwydd ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Felly, ble gwneir penderfyniad dod â rhyddhad dewisol i ben, rhaid hysbysu'r trethdalwr cyn 31 Mawrth 2018 os ydi'r rhyddhad i ddod i ben ar 31 Mawrth 2019. Petai hysbysiad o benderfyniad i atal rhyddhad yn llithro i Ebrill 2018, dyweder, ni all ddod i rym tan blwyddyn ariannol 2020/21.
- 5.3 Yn sgil hynny, er mwyn cael fframwaith sydd yn ei le mor fuan â phosib, bydd angen i'r Cabinet fabwysiadu Polisi newydd erbyn diwedd Chwefror 2018.
- 5.4 Er gwybodaeth, pan ganiateir rhyddhad dewisol o'r newydd, nid oes angen rhybudd o flwyddyn – gellir ei ganiatáu yn syth, a'i ôl-ddyddio fel bo'n briodol.

6. ARGYMHELLIAD

- 6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried sylwadau'r Gweithgor fel sy'n ymddangos yn Rhan 4 uchod, cynnig addasiadau, a'u cynnig fel argymhellion i'r Aelod Cabinet Cyllid i'w ystyried pan yn mabwysiadu Fframwaith Bolisi newydd.

Atodiad – Barn y Gweithgor Ymchwil Rhyddhad Trethi ar sail y Fframwaith Polisi presennol

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol	Nifer eiddo	Cost y rhyddhad i'r Cyngor (£)	Barn y Gweithgor Ymchwil
1	NEUADDAU PENTREFI / NEUADDAU CYMUNEDOL / CANOLFANNAU CYMUNEDOL					
(a)	Wedi'u cofrestru'n Elusen	80%	20%	101	32,340.75	Dim newid
(b)	Heb eu cofrestru'n Elusen	0%	100%	6	1,256.23	Dim newid
2	MUDIADAU IEUENCTID					
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen gyda chysylltiadau lleol	80%	20%	22	15,460.65	Dim newid
(b)	Heb eu cofrestru'n elusen gyda chysylltiadau lleol	0%	50%	3	980.54	Dim newid
(c)	Wedi'u cofrestru'n elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%	18	4,479.77	Dim newid
3	MUDIADAU'N GWASANAETHU'R HENOED					
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen ac er budd pobl leol	80%	20%	10	6,325.86	Dim newid
(b)	Wedi'u cofrestru'n elusen ond heb gysylltiadau lleol.	80%	0%	0	0	Dim newid
(c)	Heb eu cofrestru'n elusen ond er budd pobl leol	0%	50%	0	0	Dim newid
(ch)	Heb eu cofrestru'n elusen gyda darpariaeth ar gyfer pobl tu allan i ardal y Cyngor, ond eto o natur dyngarol.	0%	10%	0	0	Dim newid

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol	Nifer eiddo	Cost y rhyddhad i'r Cyngor (£)	Barn y Gweithgor Ymchwil
4	MUDIADAU NAD YDYNT YN GWNEUD ELW A'I AMCANION YN DDYNGAROL, LLENYDDOL NEU'N YMWNEUD A CHELFYDDYDAU CAIN					
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen er budd pobl leol a'r aelodaeth yn agored i unrhyw un.	80%	20%	91	52,149.97	Dim newid
(b)	Wedi eu cofrestru, er bydd y bobl leol ond gyda'r aelodaeth yn gyfyngedig.	80%	0%	8	5,190.85	Dim newid
(c)	Heb eu cofrestru ond er budd y bobl leol a'r aelodaeth yn agored i unrhyw un. (Swyddogion i gyfeirio achosion i'r Weithrediaeth lle mae amheuaeth ynglŷn a'u amcanion).	0%	100%	17	10,068.06	Dim newid
(ch)	Wedi'u cofrestru'n elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%	4	374.25	Dim newid
5	MUDIADAU O DDIDORDEB ARBENNIG I RAI e.e. MERCHED Y WAWR					
(a)	Wedi'u cofrestru'n Elusen ac er budd pobl leol	80%	20%	28	37,903.21	Dim newid
(b)	Heb eu cofrestru'n elusen ond er budd pobl leol	0%	50%	4	360.53	Dim newid
(c)	Wedi'u cofrestru'n Elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%	0	0	Categori Newydd

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol	Nifer eiddo	Cost y rhyddhad i'r Cyngor (£)	Barn y Gweithgor Ymchwil
6	AMGUEDDFEYDD					
(a)	Wedi'u cofrestru'n Elusen	80%	20%	9	10,860.74	Dim newid
(b)	Heb eu cofrestru'n Elusen ond ddim yn gwneud elw ac er budd y bobl leol.	0%	100%	0	0	Dim newid
7	MUDIADAU ERAILL ADDYSGOL NEU'N YMWNEUD A DIWYLLIANT					
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen er budd pobl leol gyda'r aelodaeth yn agored, gan gynnwys Ysgolion dan Gymorth Gwirfoddol.	80%	20%	17	15,497.70	Dim newid
(b)	Wedi eu cofrestru, er bydd y bobl leol ond gydag aelodaeth gyfyngedig	80%	0%	2	718.56	Dim newid
(c)	Heb eu cofrestru ond yn bodoli er budd y gymuned leol gyda'r aelodaeth yn agored	0%	50%	0	0	Dim newid
8	COLEGAU	80%	0%	30	0	Dim newid
9	SIOPAU ELUSENNOL					
(a)	Mwyafrif y deunydd a werthir wedi eu rhoddi yn hytrach na "stoc newydd" na "nwyddau wedi'u prynu i fewn"	80%	20%	50	36,612.59	Dim newid, ond cryfhau'r diffiniad
(b)	Mwyafrif y deunydd a werthir yn "stoc newydd" neu "nwyddau wedi'u prynu i fewn"	80%	0%	0	0	Dim newid, ond cryfhau'r diffiniad

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol	Nifer eiddo	Cost y rhyddhad i'r Cyngor (£)	Barn y Gweithgor Ymchwil
10	EIDDO'R YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL	80%	20%	28	16,579.19	Diddymu'r categori – eiddo unigol i gael rhyddhad os yn un o'r categorïau eraill
11	EIDDO HAMDDEN A REOLIR GAN FUDIADAU ELUSENNOL COFRESTREDIG CENEDLAETHOL					
(a) Tud. 126 (b)	Hostelau Hamdden heb bar (neu weithgaredd masnachol arall).	80%	20%	12	9,633.20	Newid amodau o "bar" i gyfeiriad at "ddefnydd lleol"
	Canolfan Hamdden gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall).	80%	0%	0	0	
12	EIDDO'R R.S.P.C.A. / R.S.P.B.	80%	20%	2	1,694.60	Diddymu'r categori – eiddo unigol i gael rhyddhad os yn un o'r categorïau eraill
13	CYMDEITHASAU TAI (SWYDDFEYDD)	80%	20%	22	20,461.00	Terfynu'r rhyddhad dewisol, ar wahân i ddy sydd wedi ei drosi i eiddo annomestig er budd y trigolion

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol	Nifer eiddo	Cost y rhyddhad i'r Cyngor (£)	Barn y Gweithgor Ymchwil
14	CLYBIAU CHWARAEON AMATUR / HAMDDEN e.e. CLWB RYGBI, GOLFF a.y.y.b.					
(a)	Gydag aelodaeth lleol (>90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd) ond heb bar (neu weithgaredd masnachol arall).	0%	100%	37	15,850.34	Cyfuno yn un categori a diweddarau er mwyn adlewyrchu datblygiad CASCau, sy'n cael rhyddhad mandadol o 80%
(b)	Gydag aelodaeth lleol (>90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd) a gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall), elw blynyddol <£10,000 a chost ymaelodi <£25 y pen.	0%	100%			
(c)	Gydag aelodaeth lleol (>90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd) a gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall).	0%	100%			
15	CORFF SYDD HEB EI GOFRESTRU'N ELUSEN OND SY'N ELUSENNOL EI NATUR (Swyddogion i gyfeirio pob cais i'r Weithrediaeth).					
(a)	Addysgol	80%	0%	9	3,970.79	Angen parhau i fod yn ddiwyd gyda sicrhau fod rhain yn wirioneddol "elusennol" eu natur. Dylid cael cytundeb yr Aelod Cabinet
(b)	Cyffredinol, er budd y gymuned leol.	80%	0%			

TUD. 127

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol	Nifer eiddo	Cost y rhyddhad i'r Cyngor (£)	Barn y Gweithgor Ymchwil
16	Eraill			2	411.68	Dim newid
17casc	CASC	80%		13	7578.00	Yr un egwyddorion â Categori 14